
# Adroddiad Blynyddol
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Adolygu Perfformiad y Cyngor: 2013-2014



www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Adolygu Perfformiad yr Awdurdod 2013 - 2014

# Adolygu Ein Perfformiad: 2013 - 14

| | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Datganiad o Gyfrifoldeb | 7 |
| 3 | Crynodeb Ariannol | 8 |
| 4 | Gwerthuso ein Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd: | 10 |
| | 1) Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus | 11 |
| | 2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | 17 |
| | 3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas | 20 |
| | 4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol | 24 |
| | 5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus | 26 |
| | 6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | 32 |
| | 7) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | 35 |
| | 8) Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais | 38 |
| | Camau Blaenoriaeth Cyffredinol | 41 |
| 5 | Gweithio ar y Cyd | 44 |
| 6 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'n Perfformiad | 57 |
| 7 | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoedd Llywodraeth Cymru | 64 |
| 8 | Dweud eich Dweud | 74 |
| 9 | O Ble y Gallwch Gael Rhagor o Wybodaeth am eich Cyngor | 75 |

Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformat neu mewn iaith arall

A

Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
E-bost: :tgdc@conwy.gov.uk
Ffôn: ☎ 01492 574000



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Adolygu Ein Perfformiad: 2013 - 14

## 1 Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfrif cyhoeddus am berfformiad yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014). Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli'r gwaith y mae'r awdurdod wedi ei wneud yn adolygu ac yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed yn ystod ail flwyddyn Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi lle mae angen i ni wella. Bob blwyddyn rydym yn gwahodd y cyhoedd i'n helpu i adolygu'r Cynllun Corfforaethol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy. Bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor bob mis Mai a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan[1].

Mae'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd yn wynebu cyfnod heriol iawn wrth ddarparu gwasanaethau mewn hinsawdd o ostyngiadau sylweddol yn y gyllideb. Yn 2012/13 fe lwyddom i ddod o hyd i £5.454m o arbedion effeithlonrwydd a llwyddwyd hefyd i gyrraedd y targed arbedion gogyfer â 2013/14, sef £5.157m. Datgelodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Adroddiad Williams[2]) a gyhoeddwyd yn ddiweddar bod Cymru yn wynebu cryn galedi a newid demograffig mewn cyfnod o ddisgwyliadau cyhoeddus uchel. Rhaid inni edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau a moderneiddio er mwyn bodloni'r gofynion hyn. Rydym bob amser wedi bod yn canolbwyntio ar wneud y newidiadau hyn ac ar sicrhau arbedion heb effeithio ar sut yr ydym yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Ein nod yw darparu'r gwasanaethau hynny y mae ar ddinasyddion Conwy eu hangen, ac sy'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Rydym eisiau parhau i ddarparu'r gwasanaethau cywir a gwneud hynny'n dda. Rydym yn falch ein bod, hyd yn hyn, wedi canfod arbedion drwy wneud arbedion effeithlonrwydd mewnol yn hytrach na thrwy dorri gwasanaethau rheng flaen. Yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, ac yn sgil effeithiau dilynol hynny ar Lywodraeth Leol yng Nghymru, mae'r awdurdod yn cynllunio'n weithredol i ganfod £8.453 miliwn yn rhagor o arbedion ar gyfer 2014/15, £10.406 miliwn ar gyfer 2015/16, £6.606 miliwn ar gyfer 2016/17 a £4.921 miliwn ar gyfer 2017/18. Rhagwelir y bydd yr angen gwneud arbedion sylweddol pellach am flynyddoedd lawer i ddod, ac felly mae'n parhau i fod yn hanfodol bwysig ein bod yn canolbwyntio ar adolygu darpariaeth gwasanaeth. O ganlyniad mae penderfyniadau anodd y bydd yn rhaid i aelodau etholedig eu gwneud. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i achosi cyn lleied o darfu â phosibl o ganlyniad i'r arbedion y mae gofyn i ni eu gwneud, trwy weithio mewn dull mwy arloesol ac effeithiol. Yn ogystal â thrawsnewid sut yr ydym yn darparu Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd Moderneiddio i adolygu ein prosesau o ran gofod swyddfa a busnes er mwyn darparu gwasanaethau hyblyg, hygyrch a mwy modern. Rydym yn ymwybodol bod dinasyddion Conwy hefyd yn wynebu caledi, ac rydym wedi sefydlu Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Mynd i'r Afael â Thlodi er mwyn cydlynu ein dull gweithredu wrth fynd ati i helpu dinasyddion Conwy sy'n wynebu caledi ariannol.

Yn ogystal â'n gwerthusiad ni ein hunain o'n perfformiad, ym Medi 2013, aeth ein Harchwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, ati i gynnal asesiad corfforaethol o'r awdurdod i ganfod "A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwella'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion?" Asesiad manwl sy'n cymryd 19 wythnos i'w gwblhau yw asesiad corfforaethol y bydd pob awdurdod yng Nghymru yn ei gael unwaith ym mhob cyfnod o bedair blynedd. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yr ail awdurdod yng Nghymru i gael yr asesiad hwn a oedd yn cynnwys pythefnos o ymweliadau safle gan 10 o archwilwyr allanol. Cynhaliodd yr archwilwyr gyfweliadau a sesiynau grŵp ffocws gyda 72 o swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid y Cyngor. Yn ogystal â'r cyfweliadau, cynhyrchodd yr awdurdod lyfrgell gynhwysfawr o dystiolaeth a oedd yn cynnwys dros 600 o ddogfennau a oedd yn cefnogi'r cyfweliadau, ac yn galluogi'r archwilwyr i gwblhau eu hasesiad a dod i gasgliadau.

---

[1] http://www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol
[2] http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy

Cafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi ym mis Mai 2014 yn 'Adroddiad Gwella Blynyddol 2012/13 sydd yn cynnwys Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2013'. Roedd casgliad cyffredinol yr adroddiad yn gadarnhaol, gan nodi:

> **“Mae'r Cyngor yn cael ei reoli a’i lywodraethu’n dda yn gyffredinol ac mae ganddo hanes o welliant cyson er bod ganddo lawer i'w wneud i wireddu arbedion angenrheidiol yn y dyfodol."**

Mae’n bleser gennym gael adrodd bod Conwy’n gwneud gwaith da tuag at gyflawni ei amcanion corfforaethol, er gwaetha’r heriau ariannol, ac yn 2013/14 roedd ymysg yr awdurdodau lleol gorau eu perfformiad yng Nghymru yn ôl 19 o’r 120 dangosydd perfformiad sy’n mesur ein cynnydd. Roedd 38 o’n dangosyddion ymysg 6 chanlyniad perfformiad gorau’r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Buom yn hynod lwyddiannus yn cyflawni ein targedau yn y meysydd canlynol:

- Y ganran isel o blith holl ddisgyblion y sir sy’n gadael addysg heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd.
- Y ganran isel o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol sy’n gadael addysg heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd.
- Canran y disgyblion a asesir yn Gymraeg, fel siaradwyr mamiaith, yng nghyfnod allweddol 2 (7-11 oed)
- Nifer y datganiadau anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyr o fewn 26 wythnos.
- Y gyfradd isel o achosion lle cafwyd oedi wrth drosglwyddo o ofal ysbyty (am resymau gofal cymdeithasol)
- Canran y cleientiaid gofal cymdeithasol â chynllun gofal a adolygwyd yn ystod y flwyddyn
- Canran isel y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu lleoli mewn tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn
- Prydlondeb adolygiadau plant dan ofal
- Canran y plant sy’n derbyn gofal sydd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol o fynd i ofal neu ymuno ag ysgol newydd
- Y ganran o ofalwyr ifanc sy’n hysbys i’r Gwasanaethau Cymdeithasol y darparwyd gwasanaeth iddynt
- Y ganran uchel o bobl ifanc a arferai fod yn derbyn gofal y mae’r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, y gwyddom eu bod yn byw mewn llety addas nad yw’n lety mewn argyfwng yn 19 oed ac y gwyddys eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sydd mewn gwaith yn 19 oed
- Adolygu achosion yn ymwneud â’r gofrestr amddiffyn plant yn amserol
- Canran y plant sy’n derbyn gofal yn niwedd Cyfnod Allweddol 2 sy’n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd.
- Nifer isel y dyddiau a gymerid i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl
- Sgôr uchel y Dangosydd Glendid (pa mor lân yw’r strydoedd).
- Canran isel: Y priffyrdd (categori A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol
- Achosion difrifol a gywirwyd drwy ymyrryd er budd iechyd yr anifail

Mae’r meysydd eraill lle bu cynnydd cadarnhaol yn cynnwys:

- Ailachredwyd Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a’r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau â Safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid.
- Ym Mehefin 2014 agorwyd “Siop Un Stop” i roi cyngor ynglŷn â dewisiadau tai yn 41 Ffordd Conwy, Bae Colwyn.
- Rydym wedi cyflawni Lefel 5 y Ddraig Werdd ledled yr awdurdod. Rydym ni yn un o ddim ond 2 awdurdod yng Nghymru i gyflawni’r lefel uchaf o ran yr achrediad rheoli amgylcheddol.

- Cafwyd cyfres o wobrau cenedlaethol - enillodd y Tîm Marchnata wobr 'Trefnydd Digwyddiadau'r Flwyddyn' Cymdeithas Genedlaethol Digwyddiadau Awyr Agored. Cawsant hefyd wobr 'Partneriaeth Cynhyrchu'r Flwyddyn' ar y cyd ag Orchard (hyrwyddwr Access All Eirias). Enillodd Tîm Pontio'r Gwasanaethau Cymdeithasol wobr Tîm y Flwyddyn, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.
- Y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth oedd unig gynrychiolwyr y sector cyhoeddus yn rownd derfynol Gwobrau Diwydiant Technoleg Gwybodaeth y 'British Computer Society and Computing UK' 2013. Nhw hefyd oedd enillwyr Gwobr Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth SOCTIM[3] 2012
- Mewn arolwg barn a gynhaliwyd gan Netmums, daeth Venue Cymru yn ail trwy Gymru yng nghategori'r Theatr Leol orau.
- Cyrhaeddodd y Cyngor y rhestr fer ar gyfer nifer o wobrau. Cyrhaeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r rhestr fer yng nghategori Cyngor y Flwyddyn Gwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth Mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyrhaeddodd y gwasanaeth parciau'r rhestr fer yng ngwobrau Meincnodi'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghategori'r 'Perfformiwr Gorau' ac yng nghategori'r 'Gwelliant Mwyaf';
- Cyrhaeddodd y gwasanaeth Profedigaeth y rhestr fer yng ngwobrau Meincnodi'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghategori'r 'Perfformiwr Gorau' a chafodd un o Dechnegwyr yr Amlosgfa wobr 'Cynorthwyydd Capel y Flwyddyn' yn y Good Funeral Awards, sydd yn dathlu rhagoriaeth yn y diwydiant angladdol.
- Cawsom 15 gwobr am ein parciau, ein mannau gwyrdd agored a'n gwarchodfeydd natur, gan gynnwys 9 Baner Werdd.
- Mae'r broses o gyflwyno gwasanaeth ailgylchu o ymyl y palmant mewn ardaloedd gwledig ledled y sir wedi'i chwblhau ac mae gwaith wedi dechrau yn cyflwyno 'trolibocs' i drigolion ei ddefnyddio wrth ailgylchu.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.
- Mae 130 o deuluoedd Maeth Conwy wedi dod yn aelodau o Ffit Conwy. (Mae bod yn aelod o Ffit Conwy yn rhoi gostyngiadau oddi ar brisiau gweithgareddau hamdden).
- Mae Conwy'n arwain grŵp thematig Ffrwd Gwaith yr Undeb Ewropeaidd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Mae Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy wedi cael ei adolygu ac mae'r llwyddiannau a gafodd eu cyflawni yn ystod y 3 blynedd gyntaf wedi cael eu cyhoeddi.
- Mae gwefan twristiaeth amlieithog newydd wedi cael ei lansio, gan gyfuno nifer o wefannau ynghyd.
- Roedd Conwy ymhlith y 5 awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i dderbyn lefel Rhuban am ddatblygu chwaraeon ac rydym yn y broses o ymgeisio am y lefel efydd. Rhan yw hyn o ymdrech Conwy i uchafu etifeddiaeth y Gemau Olympaidd yn Sir Gonwy.
- Mae integreiddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl anabl ym mhob agwedd o'n gwaith wrth ddarparu Gwasanaeth Datblygu Cymunedol wedi ei gwblhau.
- Cafwyd 100% o grant cytundeb canlyniadau Llywodraeth Cymru. Dim ond ar sail tystiolaeth fod awdurdod lleol wedi cyflawni targedau gwella'r cytundeb canlyniadau y dyfernir y grant.
- Cafodd yr arolwg staff a gynhelir bob dwy flynedd ei lenwi gan o 61% o'r staff, a dywedodd 87% ohonynt eu bod yn falch o weithio i Gonwy a byddai 87% ohonynt yn ein hargymell ni fel cyflogwr.

Rydym yn falch iawn o'r llwyddiannau hyn, ond mae hunanwerthuso hefyd yn golygu ystyried a ydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gymuned gan ystyried, nid yn unig y pethau sydd wedi mynd yn dda, ond yr agweddau hynny y mae angen i ni eu gwella neu barhau i'w datblygu. O'r herwydd, byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu gwaith yn y meysydd canlynol:

---

[3] Society for Information Technology Management

- Gweithredu'r 6 chynnig ar gyfer gwella a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hasesiad corfforaethol o'r Cyngor.
- Gweithio ar y cyd i gefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn ac i fynd i'r afael â thlodi.
- Cwblhau'r adolygiad o Reolau Sefydlog Contractau a gwneud y defnydd gorau o gymalau budd cymdeithasol a chymunedol.
- Gweithredu, dros y tair blynedd nesaf, raglen adfywio gwerth £12 ym Mae Colwyn a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid.
- Parhau i weithio i wella cyrhaeddiad addysgol a pharhau i gynyddu nifer y prentisiaethau.
- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gelfyddydol Gorfforaethol i ddarparu cyfeiriad strategol er mwyn gweithio gyda sefydliadau celfyddydol o fewn y Sir.
- Parhau i weithredu trawsnewidiadau yng Ngwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac wrth Foderneiddio Ysgolion, er mwyn cynnig gwell darpariaeth o wasanaethau i drigolion a chanfod arbedion sylweddol i'r Awdurdod.
- Parhau i ddatblygu'r ffrydiau gwaith o dan y Bwrdd Moderneiddio sy'n cynnwys datblygu canolfan swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn, er mwyn darparu gwasanaethau rheng flaen modern a hygyrch, lleihau faint o asedau'r cyngor sydd wedi dyddio a chefnogi adfywiad Bae Colwyn.
- Parhau i adfer eiddo gwag i'w llawn ddefnydd unwaith eto a mynd i'r afael â safleoedd sy'n anharddu.
- Gweithredu Cynllun Rheoli Carbon er mwyn gostwng allyriadau carbon.
- Parhau i wneud gwaith i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd
- Mae angen gwella sut y caiff adborth cymunedol ei ddadansoddi a'i gyflwyno a gwella sut yr ydym yn cofnodi canmoliaeth
- Diweddaru'r hyfforddiant a'r polisi diogelu gogyfer â recriwtio staff.

Gobeithiwn y byddwch o'r farn bod yr adroddiad hwn yn un llawn gwybodaeth ac yn werthusiad cytbwys o'n perfformiad, a byddem yn croesawu eich sylwadau ar yr adroddiad.  Nod yr adroddiad yw darparu sicrwydd bod Conwy yn gofyn yn rheolaidd i ddinasyddion y Sir am eu barn, ac yn adolygu perfformiad er mwyn adlewyrchu ar feysydd i'w gwella.

Y Cynghorydd Dilwyn Roberts
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Iwan Davies
Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 2 Datganiad o Gyfrifoldeb

Mae'r Awdurdod yn adrodd ar berfformiad mewn 2 gam.

### Cam 1 Amcanion y Cynllun Gwella

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella[4], bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei amcanion gwella a llunio cynllun clir ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynllun gwella strategol sydd â chyfnod o bum mlynedd, a elwir yn Gynllun Corfforaethol 2012 - 2017. Cymeradwywyd fersiwn ddrafft y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor ym mis Mawrth 2012. Fe'i cymeradwywyd gan y weinyddiaeth newydd-etholedig ym mis Medi 2012. Caiff y cynllun ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf ohono ym mis Ionawr 2013 a chymeradwywyd diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor ym mis Mai 2013. Cynhaliwyd yr ail adolygiad ohono ym mis Chwefror 2014 a chymeradwywyd diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor ym mis Mai 2014.

### Cam 2 Asesu Perfformiad

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn hunanasesu ei berfformiad a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol yn ôl sut y mae wedi cyflawni ei flaenoriaethau dros y flwyddyn a aeth heibio:

**Llywodraethu:**

Mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu (y modd yr ydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli ein busnesau ac yn ymwneud â chymunedau) yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a rheoli risg yn effeithiol. Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymdrin â busnes yr awdurdod, ac â sut y byddwn yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid a phartneriaid.

Yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn Framework for Delivering Good Governance in Local Government (2007) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei lunio er mwyn adrodd am ein trefniadau ac am y meysydd lle cafwyd gwelliant. Mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ei lofnodi a chaiff ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor bob mis Medi fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

**Perfformiad:**

Yn rhan o'n cyfrifoldebau o dan gyfarwyddyd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, llunnir Adroddiad Blynyddol er mwyn adrodd ar hunanwerthusiad yr awdurdod o'i berfformiad. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a osodwyd ar gyfer 2013/14. Fe'i cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Hydref 2014 a chafodd ei gyhoeddi'n syth wedi hynny.

---


[4] http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/progimprove/?skip=1&lang=cy

## 3 Crynodeb Ariannol

Fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau gwerth am arian ac yn ystod 13/14 roeddem yn codi'r drydedd ffi isaf ar gyfer Band D Treth y Cyngor yng Nghymru. Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cymru'n darparu setliad grant refeniw i Awdurdodau Lleol sy'n ariannu cyfran fawr o'r gyllideb refeniw. Roedd setliad 2013/14 yn cynnig cryn her, ac roedd yn cynnwys toriad cyllid mewn termau real o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa economaidd, ond gyda mesurau wedi'u cynnwys i amddiffyn cyllidebau Ysgolion. Canlyniad hyn oedd bod ein rhagolwg gwario'n uwch na'r gyllideb a oedd ar gael ac felly roedd angen canfod arbedion o £5.157 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Canfuwyd yr arbedion â nifer o fentrau gan gynnwys talu'n uniongyrchol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, creu incwm ychwanegol a nifer o ymarferion yn ail-fodelu gwasanaethau gan gyflawni arbedion o ran staff. Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2013/14 ac o ble y daeth yr arian (incwm). Roedd y cynnydd yn y gyllideb rhwng 2012/13 a 2013/14 yn adlewyrchu trosglwyddo Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor o ofal y Llywodraeth Ganolog i ofal Awdurdodau Lleol o ganlyniad i Ddiwygio'r Gyfundrefn Les, a oedd yn gyfystyr â £8.276m a oedd ynghyd ag ariannu pellach yn rhoi cyfanswm o £9 miliwn yn ychwanegol yng nghyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2013/14..

**Sut caiff yr arian ei wario**

| 2012/13 Union Cost Net £'000 | Gwasanaeth | 2013/14 Diwygiedig Amcangyfrif £'000 | 2013/14 Union Cost Net £'000 |
|---|---|---|---|
| 88,627 | Addysg | 91,861 | 91,857 |
| 38,621 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 41,803 | 41,803 |
| 24,184 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 23,654 | 23,441 |
| 7,449 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 6,993 | 6,864 |
| 2,548 | Tai | 2,730 | 2,730 |
| 0 | Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor | 8,279 | 8,276 |
| 10,080 | Ariannu Cyfalaf | 10,611 | 10,309 |
| 5,763 | Ardollau | 5,792 | 5,770 |
| 10,569 | Gwasanaethau Eraill | 11,835 | 12,508 |
| **187,841** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **203,558** | **203,558** |




## O ble daw'r arian

| 2012/13 £'000 | Ffynhonnell | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| 113,351 | Grant Cynnal Refeniw – gan LlC | 121,703 |
| 30,640 | Cyfraniad o'r Gronfa Trethi Annomestig – gan LlC | 36,466 |
| 43,850 | Talwyd gan Drethdalwyr y Cyngor | 45,389 |
| **187,841** | **CYFANSWM CYLLID** | **203,558** |
| **(3,005)** | **BALANSAU (Dygwyd Ymlaen)** | **(2,979)** |
| **(2,979)** | **BALANSAU (Cariwyd Drosodd)** | **(4,466)** |

### Crynodeb o Wariant Cyfalaf

| 2012/13 Gwariant £'000 | Gwasanaeth | 2013/14 Gwariant £'000 |
|---|---|---|
| 6,552 | Addysg | 13,291 |
| 608 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 254 |
| 12,908 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 17,425 |
| 4,718 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 4,059 |
| 1,515 | Tai'r Sector Preifat | 1,307 |
| 2,104 | Gwasanaethau Eraill | 2,564 |
| 23 | Contractau Tai a Gedwir | 0 |
| **28,428** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **38,900** |

## 4 Gwerthuso ein Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd

Datblygwyd Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017 o ganlyniad i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth ymchwil o sawl ffynhonnell. Casglwyd gwybodaeth gennym am ddemograffi'r sir er mwyn dynodi'r prif feysydd yr oedd angen eu gwella, a chawsom adborth ynglŷn â'r hyn yr oedd angen ei newid trwy gyfrwng ymgynghoriadau cyhoeddus ac adborth gan gwsmeriaid yn cynnwys pobl ifanc, trigolion Conwy, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau etholedig. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei thrafod a chymeradwywyd set o flaenoriaethau allweddol (amcanion gwella) gogyfer â chreu Cynllun Corfforaethol 2012-17. Caiff y Cynllun Corfforaethol ei adolygu'n flynyddol yn dilyn ymgynghori â chymunedau, a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai pob blwyddyn.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar 8 Canlyniad Conwy i'r Dinesydd sy'n rhan o'r Cynllun Cymunedol Integredig aml-asiantaethol, Un Conwy 2012 - 2025. Mae 8 Canlyniad y Dinesydd yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel sydd wedi eu hamlinellu yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r wybodaeth isod yn manylu ar yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14. Mae'r allweddau canlynol yn diffinio statws coch / oren / gwyrdd (COG) pob cam gweithredu a phob mesurydd.

**Allwedd COG y Camau Gweithredu:**

| | |
|---|---|
| Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi | Coch |
| Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi | Oren |
| Cam gweithredu wedi'i gyflawni | Gwyrdd |

**Allwedd COG y Mesuryddion Perfformiad:**

| ***O'i gymharu â'r targed a osodwyd:*** | |
|---|---|
| Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef | Coch |
| Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed | Oren |
| Cyflawnwyd y targed | Gwyrdd |
| Ni osodwyd targed | |
| Mesurydd perfformiad newydd yn 2013/14 | MP Newydd |
| Amherthnasol | Amh. |

**Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru:** Rydym wedi cymharu ein perfformiad gyda pherfformiad y 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, pan fo data cenedlaethol ar gael. Rydym hefyd wedi datblygu rhai mesuryddion lleol ac wedi cymharu ein perfformiad ni gyda pherfformiad y 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru pan fo modd iddynt ddarparu data cymharol inni. Mae canlyniadau'r ymarfer hwn wedi eu cynnwys yn nhabl mesuryddion pob canlyniad. Er enghraifft os yw dau awdurdod wedi darparu cymhariaeth rydym wedi nodi ein perfformiad o blith 3, os oes 5 wedi darparu cymhariaeth rydym wedi nodi ein perfformiad o blith 6 ac yn y blaen.

Bob blwyddyn bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn adolygu rhai o fesuryddion y cynllun corfforaethol er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â manylder y data a gyflwynir.

## Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

### Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

| | | |
|---|---|---|
| **A1.1** | **Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol i gefnogi cyfleoedd gwaith.** | **COG** |
| | Mae swydd lawn amser ar gyfer swyddog mentrau cymdeithasol wedi ei chreu ac mae Gweithgor Mentrau Cymdeithasol Corfforaethol wedi'i sefydlu sy'n adrodd i Bartneriaeth Economaidd y Sir ac i Fwrdd y Rhaglen Sgiliau. Sefydlwyd 'Melin Drafod' Mentrau Cymdeithasol i gynghori'r awdurdod ynglŷn â chyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol a datblygwyd cynllun gweithredu. Hefyd, cwblhawyd Dadansoddiad o Anghenion y 'Trydydd Sector' yn yr ardal wledig, a ariannwyd gan y Bartneriaeth Datblygu Gwledig. Rydym wedi dyrannu cyllid o dan y Cynllun Datblygu Mentrau Cymunedol ac mae pymtheg o brosiectau wedi cael eu cefnogi drwy'r gronfa Ewropeaidd "Cyfenter[5]" sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol newydd a rhai sy'n datblygu. Rydym wedi cefnogi 77 o fentrau cymdeithasol i gyd y mae rhai ohonynt eisoes yn darparu rhai gwasanaethau ar ran yr awdurdod e.e. ailgylchu, addysg amgen, gwasanaethau cymdeithasol, tai, ac undebau credyd. | Gwyrdd |
| **A1.2** | **Dod â phobl ddiamddiffyn yn nes at fod mewn gwaith trwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt.** | |
| | Mae'r Rhaglen Gwaith Amdani wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd, gan dargedu pobl ddiamddiffyn a darparu cefnogaeth iddynt weithio tuag at ganfod gwaith. Daw'r prif gyllid i ben yn 2014, fodd bynnag canfuwyd ffynonellau cyllid eraill. Rhestrir y perfformiad yn y mesuryddion isod, ac maent yn dangos cynnydd cadarnhaol yng nghanran y bobl a gafodd ganlyniad cadarnhaol yn sgil y cynllun. Cafodd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ei lansio ym mis Hydref 2013. Mae'r fframwaith yn ffurfioli'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd yng Nghonwy ers peth amser i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant neu sydd wedi ymddieithrio. Mae'r fframwaith yn cyflwyno system gyson ar gyfer adnabod cynnar, broceru cefnogaeth, darpariaeth ac olrhain. Mae Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu wedi cael ei ddynodi ac mae'n gweithio gyda phartneriaid a darparwyr i weithredu'r fframwaith. Y targed yng Nghymru yw lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i 9% erbyn 2017. Cytunwyd y bydd gan Gonwy darged uchelgeisiol o 8%. Bu lefel uchel o weithgarwch. Darparodd ysgolion ddata am ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ynghyd â strategaethau ymyrryd a ddefnyddir i gefnogi'r dysgwyr hyn. Mae'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn cael eu holrhain ar hyn o bryd a bydd gweithiwr arweiniol yn cael ei ddyrannu pan nad yw dysgwyr wedi ymgysylltu. Mae partneriaethau wedi cryfhau yn arbennig rhwng Addysg, y Gwasanaeth Ieuenctid a Gyrfa Cymru sy'n cyfarfod yn fisol i werthuso nifer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. | Gwyrdd |
| **A1.3** | **Cynyddu hyd, safon a nifer y lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael o fewn y Cyngor i helpu pobl leol i feithrin sgiliau a phrofiadau perthnasol er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.** | |
| | Cynigiwyd cyfanswm o 276 o leoliadau gwaith mewn gwasanaethau ym mhob rhan o'r cyngor sy'n gynnydd o 20 ers y llynedd. Cafodd cydlynwyr adrannol ar gyfer lleoliadau gwaith eu dynodi ac rydym wedi cyflwyno canllawiau newydd a dogfennau ategol fel bod dull cyson wrth gynnig lleoliadau gwaith. Mae adborth y cyfranogwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn dangos ein bod wedi gwella ansawdd y lleoliadau a'r budd a ddaw ohonynt drwy ddarparu strwythur ac amrywiaeth o weithgareddau.<br>Trefnwyd prosiect 'APPrentis' dros yr haf y llynedd a oedd yn cynnwys lleoliad gwaith cyflogedig am 10 wythnos ar gyfer israddedigion mewn 15 o fusnesau yng Nghonwy. Roedd y prosiect yn brosiect TG cydweithredol i israddedigion a mynychodd y myfyrwyr Academi Technoleg Symudol lle cawsant ddysgu sut y gall fusnesau elwa ar y dechnoleg ddiweddaraf ac yna ei ddefnyddio yn eu lleoliad. Rydym ar hyn o bryd rydym yn edrych am ffyrdd o barhau â'r model hwn yn dilyn llwyddiant ysgubol y cynllun hwn.<br>Mae'r cyngor hefyd yn cynnig lleoliadau tymor hir e.e. mae myfyriwr o flwyddyn 13 wedi bod yn gweithio 1 diwrnod yr wythnos yn yr Adran Adnoddau Dynol ers 12 mis. Mae hyn wedi arwain at gytundeb cyfnod penodol rhan amser ac mae'r aelod hwnnw o staff yn awyddus i gael Prentisiaeth. Mae gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau hefyd wedi dechrau cyfweliad er mwyn cynnig lleoliadau i 3 myfyriwr dros yr haf yn y gwasanaethau technegol. | Gwyrdd |

[5] www.cyfenter.com



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Conwy hefyd yn parhau i ymwneud yn llawn â Phrosiect Datblygu Gweithlu, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych[6]. Mae'r prosiect yn datblygu:<br>• prosbectws profiad gwaith / gyrfaoedd o fewn y gwasanaethau cyhoeddus.<br>• proses recriwtio newydd ar gyfer profiad gwaith i ddisgyblion ysgol er mwyn gwella sut yr ydym yn rheoli'r galw am leoliadau.<br>• pecyn gwybodaeth i gefnogi rheolwyr i fanteisio ar leoliadau profiad gwaith a phecyn gwybodaeth arall i'w roi ymlaen llaw i bobl sy'n dod am leoliad gwaith.<br>• fframwaith sgiliau cyflogadwyedd<br>Mae'r prosiect wedi bod yn datblygu pob un o'r uchod gyda Chyngor Ieuenctid Conwy er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. | |
| **A1.4** | **Cynyddu nifer y prentisiaethau modern sydd ar gael i helpu pobl leol i feithrin rhagor o sgiliau a phrofiad er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.** | |
| | Cafodd cyfanswm o 34 o brentisiaethau eu cynnig sydd yn gynnydd sylweddol ers 2010 pan mai dim ond 1 prentisiaeth a gynigwyd. Mae cyflwyno sefyllfa ddiofyn o drosi swyddi gweinyddol yn swyddi i Brentisiaid Modern (oni bai bod modd dadlau fod y swydd yn anaddas) wedi arwain at welliant sylweddol. Mae'r prentisiaethau bellach yn cwmpasu ystod ehangach o wasanaethau a mathau o leoliadau. Rydym wedi cyflogi ein Uwch Brentis Technoleg Gwybodaeth cyntaf ar lefel 4, ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Choleg Llandrillo Menai i archwilio cyfleoedd pellach drwy gyfrwng Cwmni Prentis (gogyfer â lleoliadau yng Ngwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau), a hefyd gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn lleol i ddatblygu prentisiaethau ar y cyd o fewn y diwydiant adeiladu.<br>Hefyd, dechreuodd secondiad 4 mis ar gyfer un o Gyfreithwyr dan Hyfforddiant Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014. Rydym bellach yn dechrau gweld prentisiaid yn symud yn eu blaenau ac yn cael gwaith parhaol. Mae Conwy'n cyfrannu'n sylweddol at y fforwm sgiliau strategol drwy gyfrwng prosiect Datblygu'r Gweithlu y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Cynhaliwyd menter codi ymwybyddiaeth enfawr fel rhan o'r Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol flynyddol ym mis Mawrth 2014, ac mae'r prosiect wedi cyflwyno cyfres o becynnau gwybodaeth ynglŷn â phrentisiaethau er mwyn cefnogi rheolwyr, argaeledd prentisiaethau, pecynnau croeso, llwybrau cyflogaeth, deunydd hyrwyddo a dyddiaduron fideo prentisiaethau. Mae dros 3,000 o bobl ifanc wedi cael eu targedu mewn gweithdai a gwasanaethau boreol mewn ysgol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd i gael prentisiaeth. Rydym yn datblygu Strategaeth a Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant ar y Cyd a er mwyn rhannu cyfleoedd hyfforddi ymysg y sefydliadau partner. Bwriad yr elfen hon o'r prosiect yw lleihau ar ddyblygu ymdrech a lleihau nifer y cyfleoedd hyfforddi sydd heb eu llenwi. Mae'r prosiect hefyd yn datblygu Fframwaith Hyfforddi ar y cyd ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Cyfnewid Staff yn sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i rannu sgiliau ac arbenigedd ymysg sefydliadau; gan amrywio o secondiadau ffurfiol i fentora a chysgodi. | Gwyrdd |
| **A1.5** | **Datblygu isadeiledd Technoleg Gwybodaeth mewn ysgolion i roi cymorth i bobl ifanc gael mynediad di-dor at addysg dechnolegol gyfoethog er mwyn datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu pobl ifanc (addysg wedi'i alluogi'n ddigidol).** | |
| | Rydym yn parhau i roi cefnogaeth i ysgolion roi datblygiadau technolegol newydd ar waith, e.e. teclynnau dysgu cledr llaw, er mwyn gwella ysgogiad, safonau a mynediad at y cwricwlwm. O ganlyniad mae nifer o teclynnau Technoleg Gwybodaeth a geir mewn ysgolion wedi cynyddu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i drosglwyddo strwythur cefnogi cwricwlwm / Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i GwE[7] (y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol), yn unol â'r rhaglen o ranbartholi. Rydym wedi ailstrwythuro mewnrwyd bresennol gwasanaeth addysg / ysgolion Conwy er mwyn trosglwyddo a datblygu llwyfan dysgu 'Moodle' traws-sirol. Mae 'Hwb+[8]' (y llwyfan dysgu Cymru gyfan), yn cael ei gynnig / ei gyflwyno ar hyn o bryd i bob ysgol. Yn y dyfodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ymestyn eu cytundeb a'u taliadau gyda'r cwmni darparu os yw ysgolion i barhau i dderbyn Hwb + yn rhad ac am ddim. Hyd yma, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd Hwb+ ar gael fel teclyn consortia. . Trwy'r broses gaffael rydym wedi canfod cyflenwr i brynu offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi ei reoli oddi wrthynt ar gyfer Ysgol y Gogarth. Mae'r ysgol ar agor bellach ac mae systemau Technoleg | Oren |

[6] Mae hwn yn fwrdd sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Cafodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ei sefydlu i weithredu fel y tîm arwain strategol ac arloesol lleol sy'n cydweithio i wella bywydau dinasyddion Conwy a Sir Ddinbych.
[7] GwE yw'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol a sefydlwyd ar draws Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2013 ac sy'n cael ei reoli gan Gydbwyllgor atebol
[8] http://hwb.cymru.gov.uk/

| | | |
|---|---|---|
| | Gwybodaeth a Chyfathrebu cwricwlaidd a gweinyddol yn gwasanaethu anghenion cymuned yr ysgol gyfan. | |
| **A1.6** | **Gweithio ar y cyd â'n partneriaid i gyflawni'r agenda ranbarthol o wella ysgolion er mwyn codi safonau a sicrhau cyrhaeddiad mewn sgiliau sylfaenol a Phynciau Craidd TGAU ym mhob ysgol.** | |
| | Ers Ebrill 2013 mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei gomisiynu gan GwE. Bydd angen i ni fonitro dangosyddion perfformiad er mwyn cael sicrwydd bod y cydweithredu yn cyflawni gwelliannau. Ceir arwyddion cadarnhaol fod y canlyniadau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer lefelau cyrhaeddiad yn y cyfnod sylfaen, yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn gwella. Mae'r gwaith o fonitro effeithiolrwydd GwE yn digwydd yn rheolaidd. Bu i ymweliadau tymor y Gwanwyn alluogi GwE i werthuso sefyllfa ysgolion gan arwain at ddynodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'n rhy fuan i wybod effaith lawn gwaith GwE. Bydd adroddiadau ymweliadau'r hydref yn rhoi syniad clir ynglŷn â pha ysgolion sy'n perfformio'n dda a pha rai sy'n tanberfformio a bydd hynny'n dynodi'r angen am gymorth ychwanegol a bydd hefyd yn dynodi arferion da er mwyn meithrin cynhwysedd i'w rhannu ag ysgolion eraill. Mae gan y Gwasanaeth Addysg systemau monitro ar waith i adolygu lefelau cyrhaeddiad ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ac mae cynlluniau gweithredu ar waith i gefnogi'r ysgolion hynny sydd angen cymorth i wella. Ceir cyfarfodydd rheolaidd gyda GwE i adolygu adroddiadau sy'n monitro proffiliau ysgolion gan alluogi GwE a gwasanaethau perthnasol i fynd i'r afael ag anghenion ysgolion a thanberfformiad ac i rannu arferion da. | Gwyrdd |
| **A1.7** | **Pan fo'n ddichonadwy gwneud hynny'n ariannol, rhoi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar waith fel bod adeiladau ysgolion, adnoddau athrawon a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas at y pwrpas.** | |
| | Ymgynghorwyd â'r gymuned yn y bedair ardal sy'n moderneiddio ysgolion 'band A'. Cyflwynwyd argymhellion a safbwyntiau'r cymunedau ger bron y Cabinet ar y dyddiadau canlynol: Cyffordd Llandudno 18/12/12, Ardal Bae Colwyn 1 ac Ardal Penmaenrhos 18/10/13, Caerhun a Threfriw 12/11/13. Penderfyniad y Cabinet oedd dewis ysgolion ardal yn y pedair ardal. Mae'r prosiect bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu dylunio, cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru, paratoi cynigion statudol ar gyfer cau ysgolion (cau 11 ysgol ac agor 4 o ysgol newydd a fydd naill ai'n ysgolion ardal neu'n ysgolion wedi eu huno) a chynlluniau ar gyfer cyflawni'r prosiect.<br><br>Cafodd achos busnes amlinellol ar gyfer Cyffordd Llandudno ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014, a chymeradwywyd cais cynllunio ym mis Mehefin 2014. Cyflwynir achos busnes llawn i Lywodraeth Cymru yn yr haf unwaith y bydd tendrau'n cael eu ceisio drwy fframwaith caffael Gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2016.<br><br>Agorodd Ysgol y Gogarth (cam 1) ym mis Ionawr 2014. Cyflawnwyd y prosiect ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae'r gwaith o ddymchwel yr ysgol wreiddiol (cam 2) wedi ei orffen o flaen amser ym mis Awst 2014, (dyddiad cwblhau gwreiddiol y prosiect oedd Hydref 2014). Mae'r ysgol bellach yn defnyddio'r safle sydd wedi ei gwblhau. | m |
| **A1.8** | **Cefnogi datblygu cwrs gwyddoniaeth a thechnoleg addas yn ein hysgolion i helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau a chymwysterau er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.** | |
| | Yn ystod 2013/14 (sef Blwyddyn Academaidd 2012/13), roedd 13 pwnc yn eu lle: Gwyddoniaeth Gymhwysol, Dylunio a Thechnoleg, Mathemateg, Mathemateg Pellach, Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Peirianneg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Seicoleg, Cymdeithaseg ac Electroneg<br>Ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 sy'n cyfeirio at flwyddyn academaidd bresennol 2013/14, rydym bellach yn cynnig 14 o bynciau sy'n cynnwys meddalwedd a rhaglennu cyfrifiadurol. Mae'r ddarpariaeth yn un sy'n adlewyrchu sefyllfa o wneud i wybodaeth marchnad lafur y rhanbarth ddiwallu anghenion cyrff megis Wylfa ac Air-bus ac felly mae'r targed wedi cael ei leihau o 15 i 14. Tra bôm yn cydnabod bod Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yn bwysig, mae'n rhaid bod cynhwysedd hefyd i gynnig pynciau eraill i bobl ifanc er mwyn eu galluogi i ddilyn eu dewis lwybrau. Os oes angen rhagor o bynciau ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, rhaid cael gwared ar bynciau eraill.<br>Mae'r ystod o bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg a gynigir bellach yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd Cynllunwyr Cwricwlwm a chyfarfodydd Cydlynwyr Rhwydwaith. Trefnwyd digwyddiad pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yng Nghonwy ar gyfer Blynyddoedd 11 a 12 ym mis Tachwedd 2013. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o brentisiaethau a hyrwyddo cyfleoedd, cafodd y cydlynwyr rhwydwaith gyflwyniadau gan Airbus, Ynys Ynni a Hyfforddiant Gogledd Cymru. Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer rhieni a dysgwyr ym mis Tachwedd er mwyn hyrwyddo llwybrau prentisiaeth. | Oren |

# Adolygu Ein Perfformiad: 2013 - 14

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M1.1 | Nifer y Mentrau Cymdeithasol a gefnogir gan CBSC | 23 | 25 | 77 | Amh. | Amh. | 85 | Gwyrdd |
| M1.2a | Nifer y bobl ddiamddiffyn a gefnogir | 1132 (cyfanswm o flwyddyn i flwyddyn) | 1150 | 1,447 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | Gwyrdd |
| M1.2b | Canran y bobl ddiamddiffyn a gafodd ganlyniad cadarnhaol | 65% | 75% | 79.6% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | Gwyrdd |
| M1.3 | Nifer y lleoliadau gwaith a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 256 | 230 | 276 | Amh. | 1/4 | 235 | Gwyrdd |
| M1.4 | Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd / a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 21 | 22 | 34 | Amh. | 2/4 | 34 | Gwyrdd |
| M1.5 | % disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n derbyn graddau A* i C ym mhynciau craidd TGAU (Saesneg/Cymraeg, a Mathemateg) | 49.3% | 56.1% | 56.04% | 53.7% | 6 o blith 22 | 58.7% | Oren |
| Mae'r canlyniad yn dangos mai dim ond o drwch blewyn y methwyd â chyrraedd y targed. Mae'r canlyniad hwn yn cyfateb i 1 disgybl. Pennir y targedau ar gyfer y dangosydd hwn 12 mis o flaen yr arholiadau. Rydym wedi gweld gwelliant yn y ffigwr hwn yn sgil Partneriaeth Cymunedau Dysgu sefydledig Mathemateg a Saesneg Cyfnod Allweddol 4 sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhannu arfer da drwy wneud defnydd arloesol o adnoddau. Mae ysgolion unigol sydd â chryfderau penodol mewn meysydd sydd wedi eu dynodi yn y ddau gwricwlwm yn rhannu prosesau ac arferion gyda chydweithwyr yn rheolaidd drwy gydol y Flwyddyn Academaidd. Mae ymgynghorwyr allanol dynodedig hefyd yn darparu mewnbwn. Hefyd, rydym yn parhau i wella systemau tracio disgyblion mewn ysgolion sy'n canfod pa ddysgwyr sydd angen cymorth a her ychwanegol er mwyn cyflawni'r targed hwn. | | | | | | | | |
| M1.6a | Nifer y cyfrifiaduron pen desg (sy'n iau na 5 oed) o'i gymharu â nifer y disgyblion<br><br>Cynradd:<br>Uwchradd: | <br><br><br>1:6<br>1:3 | <br><br><br>1:4<br>1:4 | <br><br><br>1:5<br>1:3 | Amh. | Amh. | <br><br><br>1:4<br>1:3 | Oren |
| Mae ysgolion wedi bod yn prynu cyfrifiaduron tabled yn hytrach na chyfrifiaduron pen desg | | | | | | | | |
| M1.6b | Nifer y teclynnau cledr llaw personol (sy'n iau na 5 oed). | 526 | 600 | 1139 | Amh. | Amh. | 1500 | Gwyrdd |
| M1.7 | Nifer yr ymweliadau blynyddol ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir (adnodd addysg ar y we yw hwn ar gyfer athrawon a disgyblion) | 1,662,355 | 2 filiwn | | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| Oherwydd data llygredig, nid ydym yn gallu adrodd am berfformiad yn erbyn y mesurydd hwn. Mae mesurydd newydd wedi cael ei ddatblygu. *Cyfanswm nifer yr ymweliadau â 'HwB+' – y Llwyfan Dysgu Cymru gyfan'.* Dengys y canlyniadau yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 roedd 37 o ysgolion yn defnyddio HwB+, a chafwyd 9,195 o ymweliadau â HwB+. | | | | | | | | |
| M1.8a | Cynnydd yn ystod y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 | 12 | 13 | 16 | Amh. | Amh. | 17 | Gwyrdd |
| M1.8b | Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg | 4,424 | Ni osodwyd targed | 5,904 | Amh. | Amh. | 6,250 | |
| M1.9a | Cynnydd yn ystod y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 5 | 13 | 15 | 13 | Amh. | Amh. | 14 | Oren |
| Mae esboniad ynglŷn â'r perfformiad wedi cael ei ddarparu yn A1.8 uchod. | | | | | | | | |
| M1.9b | Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 5 sy'n dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg | 1,710 | Ni osodwyd targed | 1,742 | Amh. | Amh. | 1,760 | |

# Adolygu Ein Perfformiad: 2013 - 14

**Hunanwerthusiad o'n perfformiad**

Mae'r diweddariadau cynnydd yn dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth tuag at gyflawni'r canlyniad hwn. Drwy gynyddu'r ystod o bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, ehangu mynediad at dechnoleg a chynyddu sawl lleoliad profiad gwaith sydd ar gael, mwy o bobl yn ennill profiad a sgiliau gwerthfawr. Mae rhai camau gweithredu megis y gefnogaeth i bobl ddiamddiffyn, wedi cael eu llesteirio gan newidiadau mewn arian grant ac yn y meini prawf cymhwyso, ond mae adolygiad o ffynonellau ariannu wedi golygu fod modd bellach i'r prosiect hwn barhau. Mae effaith y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol 'GwE' a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2013, yn dangos bod y canlyniadau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer lefelau cyrhaeddiad yn y cyfnod sylfaen, yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yng Nghyfnod Allweddol 3 eu gwella. Mae ymarfer diweddar yn meincnodi nifer y prentisiaethau y mae pob aelod sefydliadol o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych wedi eu cefnogi yn dangos gwelliant sylweddol dros y blynyddoedd, ond rydym yn dal i ganolbwyntio ar wella hyn er mwyn cynnig rhagor o gyfleoedd:

# Adolygu Ein Perfformiad: 2013 - 14

Meincnod o nifer y prentisiaethau (gan Sefydliad sy'n aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych)

| | 2009/10 | | | | 2010/11 | | | | 2011/12 | | | | 2012/13 | | | | 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prentisiaid Sylfaen | Prentisiaid | Prentisiaid Uwch | **Cyfanswm nifer y Prentisiaid** | Prentisiaid Sylfaen | Prentisiaid | Prentisiaid Uwch | **Cyfanswm nifer y Prentisiaid** | Prentisiaid Sylfaen | Prentisiaid | Prentisiaid Uwch | **Cyfanswm nifer y Prentisiaid** | Prentisiaid Sylfaen | Prentisiaid | Prentisiaid Uwch | **Cyfanswm nifer y Prentisiaid** | Prentisiaid Sylfaen | Prentisiaid | Prentisiaid Uwch | **Cyfanswm nifer y Prentisiaid** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 1 | 0 | 0 | **1** | 0 | 1 | 0 | **1** | 4 | 0 | 0 | **4** | 12 | 1 | 0 | **13** | 29 | 4 | 1 | **34** |
| Cyngor Sir Ddinbych | 39 | 4 | 0 | **43** | 29 | 4 | 0 | **33** | 20 | 2 | 0 | **22** | 24 | 12 | 0 | **36** | 28 | 0 | 0 | **28** |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 2 | 0 | 0 | **2** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 0 | 2 | 0 | **2** | 0 | 2 | 0 | **2** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | | | | **0** |
| Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 12 | 9 | 0 | **21** | 21 | 18 | 0 | **39** | 27 | 17 | 0 | **44** | 12 | 19 | 0 | **31** | 15 | 23 | 0 | **38** |
| Cartrefi Conwy | 1 | 0 | 0 | **1** | 3 | 0 | 0 | **3** | 4 | 0 | 0 | **4** | 3 | 1 | 0 | **4** | 3 | 3 | 0 | **6** |
| Coleg Llandrillo | 2 | 0 | 0 | **2** | 2 | 2 | 0 | **4** | 3 | 2 | 0 | **5** | 0 | 4 | 0 | **4** | 0 | 4 | 0 | **4** |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 | **0** | 4 | 0 | 0 | **4** | 5 | 0 | 0 | **5** | 5 | 0 | 0 | **5** | 3 | 0 | 0 | **3** |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Grŵp Tai Pennaf | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 2 | 0 | 0 | **2** | 5 | 0 | 0 | **5** | 14 | 0 | 0 | **14** |
| Heddlu Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | 3 | 0 | 0 | **3** | 0 | 7 | 0 | **7** | 0 | 5 | 0 | **5** |
| | **55** | **15** | **0** | **70** | **80** | **27** | **0** | **86** | **137** | **22** | **0** | **89** | 63 | 44 | 0 | **107** | | | | **132** |

## Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae arnom angen parhau i gefnogi ysgolion i wella deilliannau addysgol ar gyfer pobl ifanc, gan roi sylw penodol i wella cyrhaeddiad yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Nid oedd canlyniad siomedig arholiadau TGAU Saesneg haf 2014 yn adlewyrchu'r canlyniadau a oedd wedi eu rhagweld gan yr athrawon ac rydym wedi mynegi pryderon wrth Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r meini prawf asesu. Trwy gyfrwng rhwydwaith 14 – 19 rydym yn gweithio gyda staff ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gyrfa sydd yn gysylltiedig â phynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Mae angen i ni barhau i gynyddu nifer y prentisiaethau y gellir eu cynnig a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn gweithio gyda chymunedau lleol fel rhan o'r broses foderneiddio.

## Canlyniad 2 - Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel, ac yn teimlo'n ddiogel

### Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

| | | |
|---|---|---|
| **A2.1** | **Gwella yn ein swyddogaeth o ran gorfodaeth ac addysg er mwyn cyfarch ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys, tipio anghyfreithlon, gollwng sbwriel, graffiti a baw cŵn.** | **COG** |
| | Rydym wedi rhagori ar y targedau cosb benodedig ar gyfer baw cŵn (91 cosb) a gollwng sbwriel (2,268 cosb). Mae gweithgareddau addysgol mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr amgylchedd lleol. Mae glendid y strydoedd yn parhau i wella ac mae llai o sbwriel a baw cŵn i'w weld a chafodd bron i hanner y strydoedd a arolygwyd statws gradd A yn ystod arolwg System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol. Rydym wedi rhagori ar y targedau glendid a chafodd y Sir y perfformiad gorau o ran glendid strydoedd ers cyflwyno'r mesurydd mynegai glendid yn 2007. Yn ystadegol profwyd bod glendid ardal yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth ac ar lefelau troseddu. Rydym yn parhau i gynnal diwrnodau amgylcheddol ledled y sir i lanhau ardaloedd mewn partneriaeth â chymunedau lleol sydd wedi cael cefnogaeth gadarnhaol gan breswylwyr. Rydym wedi rhoi cyflwyniadau i ysgolion yn sôn am leihau gwastraff, ailgylchu a gollwng sbwriel. Mae mwy o ymwybyddiaeth gymunedol o bwysigrwydd adrodd am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd. Mae cynnydd yn y nifer sy'n adrodd am sbwriel, graffiti a thipio anghyfreithlon ers y flwyddyn flaenorol yn dystiolaeth o hyn. Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y rhai sy'n adrodd, mae ein perfformiad wrth ddelio â materion o'r fath mewn modd amserol yn parhau'n uchel.<br>Mae swyddogion gorfodaeth y Cyngor wrthi'n weithgar yn y gymuned yn targedu mannau lle mae baw cŵn yn broblem ac maent wedi cynnal 21 o ymweliadau addysgol ag ysgolion lleol. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys cyflwyniad i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phroblem baw cŵn, sesiwn cwestiwn ac ateb, a chymerodd pob un o'r ysgolion ran mewn cystadleuaeth i ddylunio poster fel rhan o'r ymgyrch i fynd i'r afael â phroblem baw cŵn. Cafodd y posteri eu lamineiddio a'u dangos o amgylch ffiniau'r ysgolion, a thalwyd am wneud hynny gan bartneriaid a busnesau lleol. | Gwyrdd |
| **A2.2** | **Parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i hybu a chynnal y ffaith fod Conwy'n sir ddiogel.** | |
| | Cafodd Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru ei sefydlu i oruchwylio diogelwch cymunedol yn y rhanbarth ac mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy wedi cael ei ail-frandio yn 'Conwy Diogelach' (cafodd yr ailfrandio ei wneud heb unrhyw gost ychwanegol). Nod yr ail-frandio yw symleiddio ac egluro'r hyn y mae'r bartneriaeth yn ceisio ei gyflawni. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd da gyda holl gamau gweithredu'r bartneriaeth; mae'r ymgyrch cadwch o'n lân, yn fwyaf arbennig, wedi magu momentwm ac rydym wedi cyflwyno cais i fenter Trefi Taclus am gyllid i ehangu'r prosiect ymhellach. Mae Tîm Conwy Diogelach wedi bod hyd y caeau a'r priffyrdd eleni yn mynychu digwyddiadau er mwyn cynnal proffil uchel. Mae'r Tîm Conwy Diogelach unwaith yn rhagor wedi cymryd cyfrifoldeb am giatiau llwybrau cefn, ac mae'r prosiect wedi cael ei adolygu a'i ail-frandio. Roedd hyn yn cynnwys gosod arwyddion newydd ar bob giât, ac arnynt rif swyddfa er mwyn rhoi gwybod am unrhyw broblemau. Mae cyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi gwneud sefydlu cyllideb i gynnal a chadw giatiau'r llwybrau cefn yn bosibl. | Oren |
| **A2.3** | **Parhau i hyrwyddo diogelu ar bob lefel drwy gyfrwng Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy / Sir Ddinbych a Phwyllgor Diogelu Oedolion Diamddiffyn Conwy.** | |
| | Mae'r bwrdd diogelu plant rhanbarthol wedi bod yn cael ei dreialu ers mis Ionawr 2013 a chaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy. Cafodd y model peilot cychwynnol ei werthuso gan Brifysgol Sheffield yn ddiweddar. Yn ogystal, mae'r tri bwrdd is-ranbarthol wedi cymryd camau i integreiddio mwy yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cafodd Polisi Diogelu Corfforaethol ei gymeradwyo gan y Cabinet.<br>Amcanion y polisi yw:<br>Amlygu'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymgymryd â'i ymrwymiadau cyfreithiol ym maes diogelu plant ac oedolion;<br>Rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd, i ddefnyddwyr gwasanaeth, i gynghorwyr, i weithwyr ac i bobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor bod trefniadau clir ar waith i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion;<br>Bod gan staff y Cyngor a chynghorwyr ganllawiau clir pan fo plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed. | Oren |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn ogystal, sefydlwyd panel Corfforaethol dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda phob adran yn y cyngor yn enwebu swyddog diogelu arweiniol dynodedig i fynychu'r panel. Fel rhan o weithredu'r polisi, mae dau grŵp tasg a gorffen wedi cael eu sefydlu yn edrych ar recriwtio a hyfforddi diogel. Y meysydd allweddol a nodwyd gan grŵp tasg a gorffen recriwtio diogel yw datblygu canllawiau ynghylch recriwtio diogel i reolwyr a bod rheolwyr yn mynychu hyfforddiant recriwtio diogel yn ystod y 6 -12 mis nesaf. Bydd grŵp tasg a gorffen hyfforddiant yn gyfrifol am fynd ati i gynnig hyfforddiant diogelu'r cyngor gofal a fydd hefyd yn orfodol i bob aelod etholedig.<br><br>Mae adroddiad blynyddol y bwrdd diogelu wedi cael ei gyhoeddi ac mae arolygon o'r teuluoedd ar y gofrestr wedi cael eu cwblhau.<br><br>Mae Conwy yn cynnal pwyllgorau Diogelu Oedolion Diamddiffyn chwarterol. Fodd bynnag, o ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bydd Byrddau Diogelu Oedolion a fydd wedi eu hariannu yn cael eu sefydlu. Bydd y byrddau hyn yn ymgymryd â rôl debyg i'r Byrddau Diogelu Plant cyfredol. Dau amcan cyffredinol sydd iddynt, sef atal oedolion rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin ac amddiffyn oedolion yr ystyrir eu bod mewn perygl. Mae ymgynghori'n mynd rhagddo gydag awdurdodau lleol cyfagos o ran y trefniadau terfynol. | |
| **A2.4** | **Parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella cefnogaeth i'r teulu cyfan i ddelio â materion Trais Domestig, Iechyd Meddwl a Chyffuriau ac Alcohol.** | |
| | Mae Tîm Conwy Diogelach yn parhau i gomisiynu nifer o wasanaethau cyffuriau ac alcohol sydd yn cynnwys cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig. Un o'n prif brosiectau yw'r cynllun cartrefi diogelach, dan ofal Gofal a Thrwsio, sy'n targedu cartrefi dioddefwyr cam-drin domestig. Ariennir gwasanaeth camddefnyddio sylweddau hefyd sy'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc ac sydd wedi'i leoli o fewn Barnardos.<br><br>Mae'r rhaglen i Drawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu agwedd teulu cyfan tuag at gefnogi. Bydd hyn yn integreiddio cymorth ar gyfer oedolion a phlant o dan Wasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a ddechreuodd ym mis Ionawr 2014. Mae'r gwasanaeth wedi recriwtio Ymwelydd Iechyd, Gweithiwr Cyffuriau ac Alcohol o'r Gwasanaeth a Gweithiwr Cymdeithasol i Oedolion. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio i ddechrau ar faterion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol.<br><br>Mae sawl ffrwd gwaith sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig, er enghraifft, y prosiect "10,000 o fywydau diogelach" dan arweiniad yr heddlu, a gwaith codi ymwybyddiaeth er mwyn dynodi a chefnogi staff sy'n dioddef cael eu cam-drin. Mae Polisi Camddefnyddio Sylweddau'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi cael ei adolygu. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn bwriadu adolygu llochesau.<br><br>Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gweithio ar brosiectau lleol - gan edrych ar atgyfeiriadau cynnar (ar y cyd â chymorth i ferched a'r heddlu). Mae Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol wedi'i sefydlu i adolygu achosion sy'n cael eu hystyried yn ddifrifol. Yng Nghonwy a Sir Ddinbych mae'r nifer uchaf o atgyfeiriadau a byddwn yn mynd ati i adolygu'r rhesymau dros hyn. | Oren |

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M2.1 | % yr achosion o Dipio Anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith. | 98.6% | 97% | 96.9% | 96.3% | 10 o blith 22 | 97% | Oren |
| Methwyd â chyrraedd y targed o drwch blewyn ond mae'r canlyniad yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2012/13 sef 92.16%. Roedd y nifer fach o ddigwyddiadau a oedd y tu allan i'r terfynau amser o ganlyniad i ddyrannu ceisiadau'n anghywir. Rydym yn mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu hyfforddiant i staff o fewn y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid na fyddai wedi delio â cheisiadau o'r fath cyn ailstrwythuro Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. | | | | | | | | |
| M2.2 | Nifer y diwrnodiau glanhau a gefnogwyd ledled y fwrdeistref sirol bob blwyddyn | 12 | 12 | 12 | Amh. | Amh. | 10 | Gwyrdd |
| M2.3 | % yr achosion o graffiti a lanhawyd o fewn 4 diwrnod gwaith | 100.0% | 89% | 88.2% | Amh. | 3/3 | 90.0% | Oren |
| Methwyd â chyrraedd y targed o drwch blewyn. Ni chafodd 4 o blith 34 achos o adrodd am graffiti eu clirio o fewn y terfynau amserlen o ganlyniad i oedi wrth sefydlu pwy oedd piau strwythurau a'r gofyn i gael gafael ar offer ychwanegol. | | | | | | | | |
| M2.4 | Nifer y cosbau a roddwyd am faw cŵn | 43 | 50 | 91 | Amh. | 1/5 | 50 | Gwyrdd |
| M2.5 | Nifer y cosbau a roddwyd am ollwng sbwriel | 799 | 800 | 2,268 | Amh. | 2/5 | 1,500 | Gwyrdd |

### Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Bu cynnydd da tuag at wireddu'r canlyniad ac mae cynlluniau newydd yn cael effaith gadarnhaol a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y mesuryddion. Dylai lansio gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd ddangos gwelliant sylweddol yn ein dull o ystyried a chefnogi'r teulu cyfan i ymdrin â Cham-drin Domestig a materion Iechyd Meddwl, Cyffuriau ac Alcohol. Mae'r canlyniad hwn yn ddibynnol iawn ar newid ymddygiad cymunedol a gall hynny fod yn broses hirdymor sydd angen addysg gymunedol a chydweithrediad. Ceir rhai enghreifftiau da o weithio gyda chymunedau lleol i annog newid ymddygiad. Mae'r dull gweithredu partneriaethol yn allweddol er mwyn llwyddo ac mae enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth.

### Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen i ni barhau i fynd i'r afael â baw cŵn a gollwng sbwriel, a byddwn yn gwneud hyn drwy ymestyn y rhaglen addysgol, ac rydym yn rhagweld bydd nifer y cosbau a roddir yn gostwng wrth i ymddygiad newid. Mae systemau da yn eu lle ar gyfer gweithio ar y cyd i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn, ac yr ydym yn disgwyl canlyniad arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r maes diogelu, er mwyn dysgu o unrhyw gynigion ar gyfer gwella neu o unrhyw arfer da a nodwyd. Mae'r perfformiad wrth glirio achosion o dipio anghyfreithlon a graffiti yn parhau'n uchel, a darperir hyfforddiant i staff i fynd i'r afael â materion gweithdrefnol.

## Canlyniad 3 – Mae Pobl yng Nghonwy'n Byw mewn Tai Diogel ac Addas

### Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

| | | |
|---|---|---|
| **A3.1** | **Gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl, ac i gefnogi pobl sy'n mynd yn ddigartref.** | **COG** |
| | Daeth Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy'n weithredol o 30 Mehefin 2014 ac mae'r bartneriaeth wedi cyflawni'r canlynol:<br>• Creu "Siop Un Stop" ar gyfer rhoi cyngor ynglŷn â dewisiadau tai yn 41 Ffordd Conwy, Bae Colwyn – swyddfa sy'n cael ei rhannu rhwng Cyngor Conwy a Chartrefi Conwy yw hon ac mae'n darparu'r gwasanaethau canlynol: Cyngor ynglŷn â Dewisiadau Tai; Cymorth ynglŷn â Thenantiaethau; Gwasanaethau Atal Digartrefedd; Datgan Digartrefedd; Ymholiadau ynglŷn â Chofrestr Tai CBSC; Gwasanaeth Canfod Cartrefi; Gwasanaethau Cwsmeriaid Cartrefi Conwy; Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol.<br>• Ail-strwythuro adnoddau staffio o fewn y Tîm Datrysiadau Tai i roi mwy o ffocws ar waith ataliol<br>• Creu a sefydlu logo/brand ar gyfer y Bartneriaeth<br>• Trosglwyddo'r gwaith o reoli cynllun prydlesu sector preifat y Cyngor i Gartrefi Conwy a fydd yn darparu gwasanaeth rheoli tai arbenigol<br>• Datblygu Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol sy'n cynnig ystod o gynhyrchion tenantiaeth a rheoli eiddo er mwyn cael rhagor o fynediad at y sector preifat i ddiwallu anghenion tai ac o wneud hynny wella perthnasau / cyfathrebu a safonau o fewn y sector.<br><br>Mae'r prosiect Un Llwybr Mynediad at Dai yn mynd rhagddo'n dda a gobeithio y bydd yn gwbl weithredol erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ac mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno i ddatblygu cofrestr tai cyffredin ledled y sir yn ardal pob awdurdod lleol (Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint). Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ei le i ddarparu datrysiad Technoleg Gwybodaeth gogyfer â darparu'r gofrestr, sef system hawdd ei defnyddio i dywys cwsmeriaid drwy'r dewisiadau tai sydd ganddynt, ac i brynu modiwl digartrefedd newydd ar gyfer y Tîm Datrysiadau Tai yng Nghonwy. | Oren |
| **A3.2** | **Trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhoi'r Cynllun Tai Fforddiadwy[9] ar waith er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl leol.** | |
| | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu. Dyma gynllun y sir ar gyfer dyrannu defnydd tir a bydd yn cael ei ddefnyddio'n awr i benderfynu ar geisiadau cynllunio, a sicrhau ein bod yn glynu at y Polisi Tai Fforddiadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae gwelliant wedi bod yng nghanran yr unedau tai fforddiadwy sydd wedi eu cyflawni o ganlyniad i gwblhau nifer o gynlluniau mawr gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r cynllun grant cartrefi gweigion yn cynnig grantiau i berchnogion eiddo a fu'n wag ers tro byd yn gyfnewid am sicrhau y bydd yr eiddo ar gael fel tŷ fforddiadwy am gyfnod cytunedig. Bydd y Strategaeth Tai Fforddiadwy yn cael ei datblygu yn 2014/15. | Oren |
| **A3.3** | **Parhau i gynnig Cynllun Morgais Awdurdod Lleol i helpu pobl leol i brynu cartref am y tro cyntaf.** | |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i sefydlu Cynllun Morgais Awdurdod Lleol. Bu blwyddyn gyntaf y cynllun yn llwyddiant mawr gyda 29 morgais yn cael eu cwblhau a 3 yn cael eu prosesu. Fodd bynnag, mae'r cynllun yng Nghymru wedi dirwyn i ben ymhellach hyd nes y daw trafodaethau cyfreithiol i fwcl ynghylch statws ariannol y cynllun. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i helpu prynwyr am y tro cyntaf yn lleol, a bellach byddwn yn eu cefnogi drwy gyfeirio prynwyr am y tro cyntaf at y cynllun cenedlaethol Cymorth i Brynu. Bydd y cam gweithredu hwn felly yn cael ei dynnu o'r Cynllun Corfforaethol. | |
| **A3.4** | **Adolygu, a lle bod hynny'n briodol, cyflwyno'r drefn o drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn gwella ansawdd y llety sydd ar gael.** | |
| | Dechreuodd y gwaith o gyflwyno'r 3ydd Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ar 1 Hydref 2013. Rydym wedi adolygu'r cynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ac nid oes unrhyw gyfiawnhad dros fynd ati i drwyddedu mwy mewn ardaloedd eraill o fewn Conwy y tu hwnt i ardaloedd presennol Pensarn, Bae Colwyn a Llandudno. | Gwyrdd |
| **A3.5** | **Parhau i weithredu Strategaeth Cartrefi Gweigion Conwy er mwyn gwella'r amgylchedd a gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai.** | |

[9] Tai a ddarperir i bobl ar incwm isel nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion tai o fewn y farchnad dai gyffredinol yw tai fforddiadwy.

| | | |
|---|---|---|
| | Er bod y dangosydd perfformiad yn dangos gostyngiad canrannol, rydym wedi cynyddu nifer y cartrefi gweigion sydd wedi cael eu hadfer at ddefnydd eleni i gyfanswm o 41. Mae'r Swyddog Cartrefi Gweigion wedi bod yn gweithio hefyd ar droi adeiladau presennol yn gartrefi, ac mae 16 o gartrefi ychwanegol wedi cael eu creu. Mae rhagor o fenthyciadau i droi tai yn gartrefi wedi cael eu cymeradwyo eleni, a fydd yn golygu y bydd 27 o gartrefi eraill yn cael eu creu yn 2014-15 unwaith y bydd y gwaith adnewyddu wedi ei orffen. Mae'r amserlen ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i wella wrth i'r tîm sicrhau eu bod yn parhau i feincnodi ac ymchwilio i arferion da.<br>Bydd amcanion trosfwaol y Strategaeth Tai Gweigion yn parhau i fodoli hyd nes na fydd unrhyw eiddo gwag tymor hir i'w cael yn y sir. Fodd bynnag, mae disgwyl bod y strategaeth yn cael ei hadolygu yn 2014-15 er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn dal yn berthnasol. | Oren |
| **A3.6** | **Parhau i weithio gyda phartneriaethau llifogydd i wella diogelwch a gwydnwch cymunedau a'u gallu i yswirio, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â materion llifogydd fel eu bod yn barod i ddiogelu eu heiddo.** | |
| | Achosodd y stormydd ym mis Rhagfyr 2013 a dechrau Ionawr 2014 ddifrod i isadeiledd ac erydiad arfordirol sylweddol yn Llanfairfechan, Morfa Conwy, Deganwy, Llandudno, Bae Penrhyn, Hen Golwyn, Llanddulas a Bae Cinmel. Archwiliodd peirianwyr y Cyngor yr amddiffynfeydd môr a chynhaliwyd arolygon ar y traethau ar ôl y storm ar hyd arfordir y sir. Amcangyfrifwyd y byddai atgyweirio ac ailgyflenwi amddiffynfeydd môr Conwy yn costio mwy na £5 miliwn. Cyflwynwyd cais am gyllid i Lywodraeth Cymru a derbyniodd y Cyngor £467,000 o'r Gronfa Seilwaith Twristiaeth a chyhoeddodd y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol hefyd y byddai £3,809,294 ar gyfer atgyweirio amddiffynfeydd rhag llifogydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau i adfer amddiffynfeydd y môr yn Nhraeth y Gogledd. Byddai peidio â chwblhau'r gwaith hwn wedi gadael tua 5,150 o adeiladau mewn risg llawer uwch o lifogydd arfordirol. Mae digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â llifogydd wedi cael eu cynnal mewn 5 ardal ers 2013, ochr yn ochr â'n diwrnodau amgylcheddol, lle darparwyd cyngor a chanllawiau ynglŷn â sut i amddiffyn eiddo rhag llifogydd. Mae swyddogion o'r adain Llifogydd ac Isadeiledd wedi canolbwyntio ar gysylltu â phreswylwyr yr effeithiwyd arnynt gan stormydd y gaeaf, fodd bynnag, ni wnaethpwyd hyn trwy gyfrwng digwyddiadau ymwybyddiaeth swyddogol, ac felly nid yw'r targed blynyddol i gynnal 8 digwyddiadau ymwybyddiaeth wedi ei gyflawni.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2013 gyda thrigolion Cae Person, Llanrwst i rannu ein cynigion i liniaru llifogydd yn yr ardal honno.<br>Mae 'cam 1b' y gwaith i amddiffyn yr arfordir wedi'i gwblhau ym Mae Colwyn, ac mae'r gwaith i wella'r promenâd mynd rhagddo'n dda. Mae system rheoli asedau mewn perthynas â llifogydd ac amddiffyn yr arfordir wedi cael ei sefydlu yn ogystal â rhaglen i gynnal amddiffynfeydd arfordirol. Mae strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd wedi cael ei chyhoeddi ac mae'r gwaith o lunio cynllun gweithredu ar y gweill. Mae strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd wedi cael eu cynhyrchu ar ran Cynghorau Ynys Môn, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. | Oren |
| **A3.7** | **Datblygu bidiau er mwyn cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.** | |
| | Mae'r tîm gwelliannau tai wedi dechrau ar waith effeithlonrwydd ynni Arbed 2 ym Mae Colwyn. Roedd y cais ariannol i gynllun Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid, Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus, ac fel rhan o'r dyraniad o £12 miliwn mae £4.7 miliwn wedi'i ddyrannu i brosiect Adnewyddu Tai ardal Adnewyddu Bae Colwyn. Rydym hefyd wedi derbyn £150,000 o gyllid cyfalaf. Rydym yn archwilio cyfleoedd i wneud cais am gyllid ecolegol ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni ym Mae Colwyn a Chyffordd Llandudno. | Oren |

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M3.1 | Nifer y teuluoedd digartref a adleoliwyd yn llwyddiannus | 77 | 100 | 109 | Amh. | 2/2 | 100 | Gwyrdd |
| M3.2 | % yr aelwydydd oedd yn wynebu'r posibilrwydd o ddigartrefedd lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis | 91.7% | 87% | 94.10% | Amh. | Amh. | 92% | Gwyrdd |
| Ni ddefnyddiwyd Safle yng Nghymru gan i adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn 2013 nodi amrywiaeth eang yn y modd y mae awdurdodau lleol yn dehongli arweiniad ar gyfer y mesurydd hwn. Oherwydd yr amrywiadau hyn cynghorwyd na ddylid cymharu'r dangosydd rhwng awdurdodau lleol â'i gilydd. | | | | | | | | |
| M3.3 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn | 14.97% | 20% | 47.4% | Amh. | 2/5 | 29.0% | Gwyrdd |
| M3.4a | Nifer y ceisiadau i'r Cynllun Morgais Awdurdod Lleol | 32 | Ni osodwyd targed | | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | Dileer y Mesurydd |
| M3.4b | Nifer y ceisiadau morgais a gwblhawyd | 29 | Ni osodwyd targed | | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | Dileer y Mesurydd |
| M3.5 | % y Tai Amlfeddiannaeth y gellid eu trwyddedu sydd wedi eu trwyddedu | 54.4% | 65% | 28.17% | Amh. | 2/3 | 47% | Coch |
| Mae cyflwyno'r cynllun yn Llandudno wedi ychwanegu 347 eiddo arall at y rhestr o Dai Amlfeddiannaeth y gellid eu trwyddedu. O ganlyniad, mae canran y rheini sydd wedi eu trwyddedu wedi gostwng. Roedd y targed gwreiddiol yn seiliedig ar nifer gwreiddiol y Tai Amlfeddiannaeth a oedd gennym. Sylweddolwyd fod y nifer gwirioneddol yn llai o ganlyniad i danfeddiannaeth, trawsnewidiadau hunangynhwysol sydd wedi derbyn cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu, a throi adeiladau'n ôl yn gartrefi unigol.<br>Mae'r rhan fwyaf o'r Tai Amlfeddiannaeth sy'n hysbys ym Mae Colwyn a Phensarn wedi eu trwyddedu, ond bydd wastad rai na fu modd i ni roi trwydded iddynt, a bydd rhai sy'n mynd drwy'r broses gyfreithiol. | | | | | | | | |
| M3.6 | % (nifer) anheddau'r sector breifat oedd yn wag am dros 6 mis ac | 39 (3.58%) | 65 | 41 (2.6%) | 59 (5.3%) | 21 o blith 22 | 75 | Coch |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | sy'n cael eu defnyddio unwaith eto | | | | | | | |
| Roedd hyn o ganlyniad i adolygu'r dosbarthiadau ar gyfer eithrio rhag talu Treth y Cyngor sydd wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad. Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn eiddo gwag a gofnodwyd ar 1 Ebrill mae'r ganran o gartrefi sy'n cael eu defnyddio unwaith eto wedi gostwng serch i nifer cyffredinol y cartrefi a gafodd eu hadfer gynyddu o 39 y llynedd i 41 eleni. Treuliodd swyddogion eu hamser yn canolbwyntio ar brosesu ceisiadau Troi Tai yn Gartrefi er mwyn bodloni terfynau amser Llywodraeth Cymru. Er bod 18 eiddo a gafodd gymorth trwy'r cynllun Troi Tai yn Gartrefi eisoes yn cael eu defnyddio unwaith eto, ni chawsant eu cynnwys yn y mesurydd hwn gan mai trawsnewidiadau o eiddo dibreswyl oeddent.<br>Ein bwriad yw defnyddio'r mesurydd lleol i ddangos faint o unedau preswyl sy'n cael eu creu o eiddo amhreswyl er mwyn rhoi darlun cliriach o gynnydd cadarnhaol i ddinasyddion Conwy. | | | | | | | | |
| M3.7 | Nifer y digwyddiadau ymwybyddiaeth llifogydd a gynhaliwyd | 11 | 8 | 5 | Amh. | 2/3 | 8 | Coch |
| Yn ystod ail hanner y flwyddyn roedd swyddogion o'r adain Llifogydd ac Isadeiledd yn canolbwyntio ar gysylltu â phreswylwyr yr effeithiwyd arnynt gan stormydd y gaeaf, fodd bynnag, ni wnaethpwyd hyn trwy gyfrwng digwyddiadau ymwybyddiaeth swyddogol.. | | | | | | | | |
| M3.8 | Nifer y cartrefi a gafodd gefnogaeth i wella eu heffeithlonrwydd ynni gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a chwmnïau Cyfleustodau. | Dim data | 500 | 648 | Amh. | 1/3 | 500 | Gwyrdd |

**Hunanwerthusiad o'n perfformiad**

Mae cwblhau a chymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyflawniad sylweddol, ac mae'r lansio Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy yn gam cadarnhaol tuag at gefnogi trigolion lleol i gael tai diogel a phriodol yn ôl eu hangen. Mae'r siop un stop newydd ar gyfer dewisiadau tai yn welliant cadarnhaol i gwsmeriaid. Mae'r mesuryddion ar gyfer y canlyniad hwn yn dangos effaith gadarnhaol ar atal digartrefedd a darparu tai fforddiadwy, sydd yn gefnogaeth hanfodol i drigolion Conwy sy'n addasu i newidiadau diwygio'r gyfundrefn les. Mae dyrannu cyllid i adnewyddu tai ym Mae Colwyn yn gynnydd cadarnhaol, ac er bod y Cynllun Morgais Awdurdod Lleol wedi dod i ben, gall y sawl sy'n prynu am tro cyntaf gael mynediad i gynllun cenedlaethol arall. Ar y cyfan mae'r camau gweithredu hyn yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r canlyniad.

**Meysydd i'w gwella / datblygu**

Tra methwyd cyflawni rhai targedau, mae esboniadau clir am y perfformiad, a phan fo angen, mae camau'n cael eu cymryd i wneud gwelliannau. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar adfer cartrefi gwag i gael eu defnyddio eto, ac i drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth i sicrhau bod llety o ansawdd da ar gael yn y sir. Bydd yr awdurdod hefyd yn gweithio i roi sylw i ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan ddifrod llifogydd.

## Canlyniad 4 - Mae Pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol

| | | |
|---|---|---|
| **A4.1** | **Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adolygu ffyrdd o ddarparu Gofal Cymdeithasol a datblygu ystod o ddewisiadau cefnogi ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i'w cadw'n annibynnol am gyhyd â phosibl.** | **COG** |
| | Gwnaed gwaith helaeth gyda Phartneriaid Iechyd. Bydd sefydlu'r bwrdd Cyd Ardaloedd yn sicrhau bod trefn lywodraethol i ddatblygiadau o'r fath ac y bydd trosolwg dros y canlyniadau y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r cynllun iechyd a lles. .<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r prosiectau canlynol: Pwynt Mynediad Sengl; Gwell Gofal Iechyd / gofal canolraddol ac ail-alluogi (continwwm o wasanaethau); Diwedd Oes; Law Yn Llaw At Iechyd Meddwl; Fframwaith Gweithredu Ar Gyfer Byw'n Annibynnol (ceir manylion amdanynt yn adran 5 – Gweithio ar y Cyd). | Oren |
| **A4.2** | **Cydnabod pwysigrwydd gofal anffurfiol, a dod yn well am ganfod pwy sy'n darparu gofal o'r fath a pha gymorth y mae arnynt ei angen i gyflawni'r swyddogaeth hollbwysig hon.** | |
| | O fewn y gwasanaethau i oedolion, mae Swyddog Gofalwyr penodol yn cynorthwyo Gofalwyr yn eu rôl gofalu. Yn y pwynt cyswllt cyntaf o fewn y tîm gofal cwsmer, caiff gofalwyr eu hadnabod, a chynigir asesiadau o anghenion iddynt ac anfonir gwybodaeth atynt.<br>Nid oedd y Timau Arbenigol yn gallu cofnodi asesiadau Gofalwyr yn uniongyrchol ar system gwybodaeth Paris, ond mae hyn bellach wedi cael ei gywiro. | Oren |
| **A4.3** | **Rhoi cynllun gweithredu 'Conwy Egnïol am Oes' ar waith i annog cyfleoedd i fyw bywydau iach.** | |
| | Mae cynllun gweithredu prosiectau Conwy Egnïol am Oes yn datblygu'n dda. Mae'r prosiect nofio ar gyfer ysgolion wedi ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion i newid eu darpariaeth nofio. Mae adolygiad o'r amserlen nofio wedi lleihau'r rhestr aros gogyfer â gwersi nofio lefel 1 . Mae'r prosiect 'Merched mewn Chwaraeon' yn parhau i ymgysylltu â merched yn eu harddegau er mwyn cynyddu faint ohonynt sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae pob cam allweddol arall yng Nghynllun Gweithredu Conwy Egnïol am Oes yn weithredol ac yn gweithio i ddarparu'r canlyniad o gynyddu faint sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Adolygwyd Conwy Egnïol am Oes yn ddiweddar, ac mae argymhellion yr adolygiad hwnnw yn cael eu hystyried. | Oren |
| **A4.4** | **Datblygu cynllun cludiant cymunedol lleol i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.** | |
| | Cynhaliwyd asesiad o anghenion cludiant gwledig gan STC Ltd sydd wedi arwain at wneud argymhellion ynghylch fforddiadwyedd, hygyrchedd, derbynioldeb ac ymwybyddiaeth. Bydd y themâu hyn yn ffurfio rhan o gwmpas Prosiect Cludiant Corfforaethol yr awdurdod, sydd yn ei ddyddiau cynnar. Bwriad y prosiect yw mynd i'r afael â darpariaeth cludiant ac â materion ar draws pob maes perthnasol o fewn yr awdurdod, a chysylltu hefyd gydag agendâu trafnidiaeth ranbarthol a chenedlaethol. Mae Cludiant Cymunedol hefyd yn un o bedair ffrwd waith y Prosiect Trawsnewid Cludiant Rhanbarthol, y mae'r awdurdod yn cyfrannu ato, ac y mae disgwyl iddo adrodd ym mis Rhagfyr. | Oren |

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M4.1 | % y bobl hŷn sy'n ddigon iach ar ôl cael 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt mwyach neu y gellir eu trosglwyddo i gynllun gofal llai dwys | 77.31% | 60% | 68.2% | Amh. | Amh. | 65% | Gwyrdd |
| Mae'r mesurydd hwn wedi cael ei newid gogyfer â 2014/15 i wneud i ffwrdd â'r amserlen 6 wythnos. Mae'r rhaglen alluogi yn cael ei hehangu i gynnwys yr holl gleientiaid ac felly ni fydd yr amserlen 6 wythnos yn berthnasol i bawb | | | | | | | | |
| M4.2 | % y gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion **Daeth y Mesurydd i Ben** yn dilyn canfod gwell dangosydd cyflawniad | 35.5% | | 39.4% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M4.2a | Nifer y gofalwyr sydd wedi eu hadnabod **Mesurydd newydd** | 1,227 | 1,350 | 1,235 | Amh. | Amh. | 1,450 | Oren |
| Ni wnaeth nifer y gofalwyr a gafodd eu hadnabod gyrraedd y targed o 1350. Fodd bynnag, bu gwelliant yn y nifer yr asesiadau gofalwyr a gafodd eu cwblhau a'r gwasanaethau a ddarparwyd. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i farchnata pa gefnogaeth y gall gofalwyr gael mynediad ato pan fyddant yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cam gweithredu hefyd i ganfod sut y gellir mesur y gwaith hwn. | | | | | | | | |
| M4.2b | Nifer y canlyniadau i ofalwyr sydd bron wedi cael eu cyflawni'n llawn neu wedi eu cyflawni'n llawn **Mesurydd newydd** | Amh. | Ni osodwyd targed | 189 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| Cyflawnwyd 189 o ganlyniadau allan o'r 193 o ganlyniadau a ddynodwyd. Y bwriad yn ystod 2013-14 oedd sefydlu gwaelodlin gan y byddai dull newydd o gofnodi yn cael ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae angen gwneud gwaith pellach yn ystod 2014-15 i sicrhau bod y mesurydd hwn yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir | | | | | | | | |
| M4.3 | % yr ysgolion cynradd sy'n cyflawni'r safon Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach (yn ôl Blwyddyn Academaidd) | 5% | 12% | 7% Blwyddyn Academaidd (2012/13) | Amh. | Amh. | 12% | Coch |
| Llwyddodd 4 o blith 59 ysgol i gyflawni'r Safon Genedlaethol. Mae canran yr ysgolion y dyfarnwyd Gwobr Ansawdd Genedlaethol iddynt yng Nghonwy yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2012/13 methwyd y targed ar gyfer ysgolion cynradd. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gwasanaeth hefyd yn gweithio i gefnogi Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Uwchradd i ennill y wobr hon hefyd. Y canlyniad dros dro ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2013/14 (Blwyddyn Ariannol 2014/15) yw 12%, felly, mae 7 o blith 59 ysgol gynradd wedi cyflawni'r targed yn 2014/15. | | | | | | | | |
| M4.4 | % y bobl ifanc 11-16 oed sy'n gwneud ymarfer corff wythnosol yn rheolaidd drwy gymryd rhan yng nghynllun chwaraeon '5x60'. | 53% | 55% | 58% | Amh. | Amh. | 55% | Gwyrdd |
| M4.5 | % y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd yn medru nofio i safon ddigonol sy'n cwrdd â meini prawf 'dysgu nofio' | 68% | 80% | 65% | Amh. | Amh. | 80% | Coch |
| 2012/13 oedd y flwyddyn gyntaf i Ganolfannau Hamdden asesu pob disgybl Blwyddyn 6 yng Nghonwy, ond nid oedd data ar gael ar gyfer pwll Abergele. Eleni rydym wedi llwyddo i gasglu data ar gyfer disgyblion sy'n mynd i Bwll Abergele. Trwy ychwanegu rhagor o ddata disgyblion mae gennym bellach ddarlun cliriach o lefel gallu nofio, ond mae'r wybodaeth ychwanegol hon wedi gostwng y ganran gyffredinol. Cydnabyddir bellach bod cyfraddau cyrhaeddiad nofio yn sylweddol is mewn ysgolion sydd â lefelau uchel o brydau ysgol am ddim. Bu ffocws y prosiect nofio ar sicrhau bod ysgolion yn mynd â disgyblion i nofio yn iau (o Flwyddyn 1 ymlaen). Bydd effaith y newid hwn yn amlwg wrth adrodd am berfformiad yn y dyfodol. | | | | | | | | |

### Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Bydd sefydlu'r Bwrdd Lleol ar y Cyd yn galluogi gwell cyfathrebu a gwaith partneriaethol gyda chydweithwyr yn y maes iechyd. O adolygu ein dull o gefnogi gofalwyr rydym wedi cael gwaelodlin i weithio ohoni ac mae cynllun gweithredu bellach yn ei le. Mae cyfranogiad pobl ifanc mewn ymarfer corff yn gwella, ond mae angen i ni wneud mwy i wella ar y flaenoriaeth o wneud yn siŵr bod disgyblion yn meddu ar sgiliau nofio da wrth adael yr ysgol gynradd.

### Meysydd i'w gwella / datblygu

Yn ogystal â gwella sgiliau nofio disgyblion, mae angen gwneud gwaith pellach i gwblhau'r cynllun cludiant cymunedol, law yn llaw â gwaith sy'n digwydd yn rhanbarthol. Mae angen mynd ati i roi'r cynllun gweithredu ar waith er mwyn marchnata pa gefnogaeth y gall gofalwyr gael mynediad ato pan fyddant yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen gwneud gwaith pellach hefyd i ganfod sut y gellir mesur y gwaith hwn. Byddwn hefyd yn parhau i annog ysgolion i ymgyrraedd at safon ansawdd genedlaethol ysgolion iach.

### Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus

| **A5.1** | **Datblygu ein Strategaeth Digwyddiadau ar y cyd a budd-ddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau allweddol e.e. chwaraeon dŵr, gweithgareddau awyr agored, digwyddiadau diwylliannol, Theatr Colwyn, Venue Cymru a Pharc Eirias.** | **COG** |
|---|---|---|
| | Y Strategaeth Ddigwyddiadau yw'r ddogfen allweddol ar gyfer sicrhau bod y canlyniad corfforaethol hwn yn cael ei gyflawni. Mae bodolaeth y strategaeth wedi bod yn sylfaenol i'r llwyddiant yr ydym wedi'i gael yn denu nifer o ddigwyddiadau pwysig, sydd wedi dod â manteision economaidd gwerthfawr i'r Sir. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae Sir Gonwy yn cynnal nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ymchwil wedi dangos fod pob £1 sy'n cael ei buddsoddi gan CBSC wedi dod ag elw o fwy na £12.60 i'r economi leol. Bydd 2014 yn flwyddyn gyffrous arall i Gonwy gyda nifer o ddigwyddiadau byd yn ymweld â'r Sir. Y ffaith ein bod wedi amlinellu gweledigaeth strategol yr awdurdod yn 2010 ac yn gweithio fel "Tîm Conwy" sydd i gyfrif am ein llwyddiant wrth ddenu digwyddiadau. Dros y misoedd nesaf bydd y strategaeth ddigwyddiadau yn cael ei hadolygu a'i diweddaru. Bydd y strategaeth newydd hefyd yn adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.<br><br>Ers 2010 rydym wedi denu'r digwyddiadau canlynol: Pencampwriaeth Golff Merched Ewrop Cymru S4C, Rally Fest, Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd a Thra Phell y Gymanwlad, dechrau swyddogol Rali Cymru Prydain Fawr ddwy flynedd yn olynol, yn ogystal â chymal arbennig ar y Gogarth. Llandudno 10, Taith y Fflam Olympaidd drwy'r Sir, Adain Avion, a'r digwyddiad cerddoriaeth mawr cyntaf yn Stadiwm Eirias, Access All Eirias. Yn ogystal â Phencampwriaeth Golff Hŷn Cymru, Triathlon y Snowman, Yr Ŵyl Gorawl, Yr Ŵyl Gerdd Dant, heb anghofio digwyddiadau Rygbi proffil uchel megis gemau Cyfres y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol a gemau dan 20.<br><br>Yn 2013 cafwyd dau ddigwyddiad newydd:<br>**Pencampwriaeth Rhedeg Llwybr y Byd** – denodd y digwyddiad gystadleuwyr o 20 o wledydd.<br>Gwibiodd **Taith Prydain** trwy Ogledd Cymru ym mis Medi am y tro cyntaf.<br>Gwnaeth y ddau ddigwyddiad ddefnydd o'r dirwedd wledig sy'n beth cadarnhaol iawn gan ein bod wedi bod yn ceisio denu digwyddiadau a all ddefnyddio ardaloedd allweddol eraill yn y Sir. Hefyd, cynhaliwyd dechrau Rali Cymru GB a diwedd y Bencampwriaeth Byd fawreddog yma yn y Sir. Cynhaliwyd cymal ar y Gogarth ac yng Nghoedwig Gwydir hefyd. Unwaith eto, mae defnyddio Gwydir yn ddatblygiad gwirioneddol bositif i economi wledig Conwy.<br>Mae pob un o'r digwyddiadau gwych yma wedi cynyddu proffil yr ardal ar lefel ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.<br>Mae'r awdurdod yn parhau i fod â pherthynas waith ardderchog â nifer o bartneriaid allweddol yn y maes digwyddiadau ac mae gennym hefyd enw da iawn am fod yn Sir a fydd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i wneud y gorau o'r potensial ar gyfer digwyddiadau mawr. Cafodd hyn ei gydnabod yn ffurfiol yn 2013 pan enillodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wobr Trefnwyr Digwyddiad y Flwyddyn, Cymdeithas Genedlaethol Digwyddiadau Awyr Agored. Hefyd, cawsom wobr 'Partneriaeth Cynhyrchu'r Flwyddyn' ar y cyd ag Orchard, hyrwyddwr Access All Eirias. | Oren |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r awdurdod hefyd wedi bod yn gweithio ar ddatblygu sgiliau trefnwyr digwyddiadau, gan fynd ati i greu carfan o wirfoddolwyr digwyddiadau ac i ehangu'r Pecyn Cymorth i Drefnwyr Digwyddiadau. Mae'r awdurdod hefyd yn cynhyrchu deunyddiau sy'n marchnata asedau allweddol ar y cyd. Bydd y pecyn yn hyrwyddo Venue Cymru, Theatr Colwyn, Canolfan Eirias, Porth Eirias, Y Ganolfan Fusnes a Glasdir. Rydym hefyd yn datblygu dull gweithredu ar y cyd mewn perthynas â chael nawdd i farchnata'r asedau hyn. | |
| **A5.2** | **Adolygu ein dull o gaffael er mwyn cefnogi'r economi lleol.** | |
| | Datblygwyd fersiwn ddrafft o Strategaeth Gaffael Gorfforaethol ac mae honno'n cael ei diwygio ar hyn o bryd yn dilyn ymgynghori yn ei chylch. Hefyd, cawsom adolygiad gan Gwerth Cymru fel rhan o'u rhaglen i gefnogi caffael ar draws y sector cyhoeddus. Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn ymgorffori rhai o'r dulliau a awgrymwyd o ran caffael. Y dyddiad cwblhau ar gyfer cam nesaf y gwaith yw diwedd Hydref 2014. Bydd y Strategaeth yn sail i'r modd y bydd Swyddogion ar draws y Cyngor yn cefnogi caffael moesol, yn enwedig ein hagwedd tuag at yr economi leol ac agenda cynaladwyedd y Cyngor. Bydd sefydlu cofrestr contractau corfforaethol yn ein galluogi i gipio cyfanswm gwariant y Cyngor gyda busnesau allanol. Bydd data allweddol sy'n ymwneud â'r ystod o gontractau sy'n cael eu dyfarnu yn cael eu cofnodi yn y gofrestr ganolog. Bydd y gofrestr hefyd yn cipio ystadegau hanfodol ynglŷn â nifer y contractau sydd wedi'u dyfarnu i fusnesau'n lleol yng Nghonwy, yng Ngogledd Cymru ac yng Nghymru a thu hwnt. Enghraifft dda o hyn yw prosiect Ysgol y Gogarth. Trefnodd y prosiect 5 digwyddiad i annog cyflenwyr lleol i ymwneud â'r prosiect a chynhaliwyd 5 sgwrs ynglŷn â gyrfa yn y sector adeiladu mewn ysgolion. Creodd y prosiect 8 lleoliad gwaith, cylchdro o 9 prentis a chafodd 10 o bobl economaidd anweithgar eu hyfforddi. Hefyd, dyfarnwyd gwobr adeiladwyr arian Considerate Constructors i'r prosiect a chyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer prosiect Rhagoriaeth Adeiladu'r flwyddyn.<br><br>Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol wedi bod yn hyrwyddo defnydd o byrth E-Dendro gwefan GwerthwchiGymru ac o E-Arwerthiannau Bravo Solutions gogyfer â Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Arweiniodd gwneud gwaith pellach yn datblygu Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr at ragor o ddiddordeb yn yr elfen hon o'r gwaith tendro. Mae mynd ati i fabwysiadu cwestiynau safonol y Gronfa Ddata sy'n dal gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr yn waith sy'n mynd rhagddo. Bydd y gronfa ddata hefyd yn anogaeth i ni symud tuag at ddefnyddio gwefan e-tendrocymru gogyfer â mynd â thendrau cyflawni drwy'r system. Yn genedlaethol mae adroddiadau fod hyn yn ddefnyddiol iawn i gasglu ystadegau o'r sector cyhoeddus ac mae'r cyflenwyr yn ei weld yn fuddiol iawn gan fod modd iddynt ddefnyddio'r atebion sydd wedi eu "bancio" sy'n arbed amser ac arian iddynt.<br><br>Erbyn Medi 2017 bydd yn ofynnol bod yr holl brosesau caffael yn electronig. Galluogwyd yr adrannau prynu gan gyfres o gyfarfodydd datblygu cyflenwyr i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer contractau, hyfforddiant, cymorth a chyngor. Mae gweithdai tendro wedi'u cynnal ar gyfer busnesau lleol ar y cyd â Busnes Cymru.<br><br>Mae Buddion Cymunedol yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda Gwerth Cymru yn sgil cadarnhau arian grant cynllun adfywio Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid, Llywodraeth Cymru, ac mae'r Tîm Caffael yn gweithio gyda Swyddogion ar draws y Cyngor i sicrhau bod Buddion Cymunedol, cymalau cymdeithasol a mentrau cymdeithasol yn ystyriaethau allweddol wrth i ni fynd ati i brynu.<br><br>Byddwn yn cynnal digwyddiad yng Ngogledd Cymru – Cymuned Maes ar gyfer Buddion Cymunedol – fel dilyniant i ddigwyddiad lansio ym mis Gorffennaf 2014 yn Ne Cymru. | Oren |
| **A5.3** | **Bod yn fwy rhagweithiol wrth gefnogi ac ymgysylltu â busnesau newydd (gan gynnwys busnesau gwledig) yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn deall anghenion busnes, a gweithredu yn eu cylch pan fo hynny'n ddichonadwy, a chefnogi'r busnesau hynny i ymgeisio am gontractau busnes.** | |
| | Penodwyd i swydd Rheolwr Datblygu Busnes a Menter. Bydd y swydd yn gyfrifol am ymgysylltu â busnesau a rhoi cefnogaeth iddynt.<br><br>Bydd rhaglen o ymgysylltu â busnesau, dan arweiniad Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Lle, yn cael ei gwella trwy sefydlu Fforwm a Phartneriaeth Economaidd i'r Sir.<br><br>Darparwyd nifer o weithdai busnes a chyfleoedd rhwydweithio fel rhan o ddigwyddiadau chwaraeon ym Marc Eirias. Cynhaliwyd Gwobrau Busnes Conwy ar 9 Mai 2014 ac roedd mwy na 240 o fusnesau yn bresennol yno. | Oren |

| | | |
|---|---|---|
| | Sefydlwyd model gwasanaeth rhagweithiol i gwsmeriaid sy'n denantiaid busnes i sicrhau fod refeniw busnes rheolaidd ac er mwyn darparu cymorth i annog busnesau i ddatblygu.<br><br>Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cyfuno cronfeydd data'r Cyngor (Trwyddedu, twristiaeth, trethi, busnes a menter, tenantiaid a mentrau cymdeithasol ac mae gennym bellach well dealltwriaeth o hyd a lled sail fusnes Conwy. Rydym hefyd wedi cyflwyno system rheoli perthynas â chwsmeriaid o fewn y tîm, y byddwn yn ei defnyddio i gadw data am fusnesau ac i gofnodi manylion cyswllt.  Bydd hyn yn darparu data a gwybodaeth amhrisiadwy ynglŷn â busnesau'r sir. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r cylchlythyr busnes a'r cyfeiriadur busnes i weld sut y byddai modd i ni ehangu sut yr ydym yn cyfathrebu trwy gyfrwng y dulliau hyn a gwella eu hapêl. Rydym wedi datblygu rhaglen o ddigwyddiadau yn y Ganolfan Fusnes i ddarparu cyfleoedd i rwydweithio. Rydym hefyd wedi annog sefydliadau partner i weithredu o'r Ganolfan Fusnes ac mae Busnes Cymru bellach yn gwneud ac mae'r Siambr Fasnach wedi cytuno i gynnal rhaglen barhaus o ymgysylltu â chyflogwyr o'r ganolfan. Mae hyn oll o gymorth i ni ddeall anghenion busnesau'r sir. Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys adnewyddu tudalennau'r we i gynnig gwell cyfathrebu gyda'r gymuned fusnes.<br><br>Rydym hefyd yn gweithio'n agosach gyda chydweithwyr yn yr adran drwyddedu ac rydym bellach yn ymchwilio i sut y gallem ymgysylltu â busnesau ar y cyd a mynd ati gyda'n gilydd i hyrwyddo ein gwasanaethau a'n cynnyrch.<br><br>Yn 2013/14 cafodd busnesau yng Nghonwy gefnogaeth gan nifer o gronfeydd grantiau:<br><br>Rhoddodd Prosiect Cefnogi Busnesau Gwledig Conwy werth £158,683 o gymorth ariannol i 109 o fusnesau presennol a gwerth £2000 i 2 fusnes newydd. Arweiniodd y gefnogaeth yma at greu 19 o swyddi ac at ddiogelu 15 o swyddi.<br><br>Rhoddodd Grant Cefnogi Busnesau Conwy werth £48,100 o gymorth ariannol i 66 o fusnesau gan gyfrannu tuag at greu 11.5 o swyddi ac at ddiogelu 122 o swyddi.<br><br>Rhoddodd y Gronfa Fuddsoddi Leol werth £93,131 o gymorth ariannol i 17 o fusnesau gan gyfrannu at greu 16.5 swydd. Ni chesglir data ynglŷn â diogelu swyddi. | |
| **A5.4** | **Uchafu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i drigolion Conwy mewn datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth.** | |
| | Rydym yn parhau i ymwneud â datblygwyr allweddol trwy gyfrwng y Grŵp Safleoedd Strategol sy'n cyd-lynu buddsoddiad strategol o fewn y sir.  Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ei fabwysiadu, gan roi sicrwydd ynghylch safleoedd cyflogaeth strategol o fewn y sir.  Sefydlwyd is-grŵp o'r Grŵp Safleoedd Strategol i weithio gyda datblygwyr ar safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol i uchafu buddion cymunedol a gwaith.  Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynglŷn â Goblygiadau Cynllunio bellach yn cael eu mabwysiadu'n derfynol gan alluogi Conwy i ofyn am gyfraniadau gogyfer â sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pobl leol.  Eir ati i hyrwyddo gwelliannau yn yr isadeiledd ymhlith trigolion trwy gyfrwng gwefan y cyngor a bwletin y trigolion.  Rydym yn ymgysylltu'n barhaus gyda ffrydiau gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Oren |
| **A5.5** | **Hyrwyddo rhagor o fewnfuddsoddiad.** | |
| | Mae'r Awdurdod yn aelod gweithgar o raglen Cyrchfan Gogledd Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.  Mae gan yr awdurdod gynrychiolaeth hefyd yn Is-grwpiau Ynni a Gweithgynhyrchu Uwch y Bwrdd Uchelgais.  Mae strategaeth farchnata ar gyfer mewnfuddsoddi yn ei lle o ran Bywyd y Bae +.  Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i hwyluso buddsoddiadau a darperir diweddariadau rheolaidd ynglŷn â buddsoddwyr posibl newydd i'r Bwrdd Cyllido Strategol.  Mae esiamplau penodol o fewnfuddsoddi yn cynnwys sefydlu rhesiaid o werthwyr ceir newydd yng Nghyffordd Llandudno, Travelodge newydd yn Llandudno a Syrffio Eryri yn Nolgarrog.  Fe weithiodd yr awdurdod yn galed i gadw swyddi yn Robertsons CGG wedi i grŵp CGG wedi ei leoli'n Ffrainc brynu'r cwmni.  Mae hyn wedi diogelu mwy na 250 o swyddi.  Mae'r contractau bellach wedi cael eu llofnodi gogyfer â datblygiad y bwyty ym Mhorth Eirias.<br><br>Trwy gyfrwng dyfarniad grant cynllunio llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru, mae Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Tir Cyflogaeth yng Ngogledd Cymru'n cael ei pharatoi i ganolbwyntio ar hyrwyddo safleoedd a chyfleoedd buddsoddi allweddol yn rhanbarthol ac yn lleol yng Nghonwy. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i farchnata safleoedd busnes yn Sir Conwy | Oren |

| | | |
|---|---|---|
| | (http://www.conwy.gov.uk/busnes). Mae 'Diwrnod Buddsoddwyr' wedi cael ei drefnu gogyfer â mis Gorffennaf 2014 er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ym Mae Colwyn. | |
| **A5.6** | **Gweithredu a chydlynu mentrau i helpu teuluoedd i symud allan o dlodi megis Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf .** | |
| | Mae Bwrdd Rhaglen Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr wedi'i sefydlu a bydd yn cefnogi'r gwaith o gydlynu rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Cwblhawyd mapio'r holl sefydliadau yn y Sir sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth lles a lansiwyd gwefan (http://www.conwy.gov.uk/mapio) fel y gall pobl ddod o hyd i gymorth yn ôl cod post.<br><br>Rydym yn asesu effeithiau mentrau o'r fath ar dlodi. Mae pob gwasanaeth bellach yn cael eu herio i ddangos effaith darparu gwasanaethau ar dlodi.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Conwy yn datblygu datganiad ynglŷn â chynhwysiant ariannol a phecyn cymorth addysgol anffurfiol i gyd fynd â'r datganiad i'w ddefnyddio o fewn y Gwasanaeth gyda phobl ifanc. | Oren |

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M5.1a | Nifer y digwyddiadau o bwys a gefnogir gan CBSC | 5 | 5 | 7 | Amh. | Amh. | 5 | Gwyrdd |
| M5.1b | Nifer y digwyddiadau cymunedol a gefnogwyd gan CBSC | 25 | 25 | 26 | Amh. | Amh. | 25 | Gwyrdd |
| M5.2 | Nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn gan aros dros nos. | 2,405,500 | 2.4 Miliwn | 2,509,300 | Amh. | Amh. | 2.4 Miliwn | Gwyrdd |
| M5.3 | Nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn ar gyfer tripiau undydd. | 5,571,800 | 6 Miliwn | 5,966,900 | Amh. | Amh. | 6 Miliwn | Oren |
| Dim ond o drwch blewyn yr oedd nifer yr ymwelwyr yn brin o'r targed heriol, a hynny gyda chymorth tywydd braf yn 2013. Mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo o dan faner Cyrchfan Conwy i wella perfformiad yn y maes hwn. | | | | | | | | |
| M5.4 | % y contractau a dendrwyd gan CBSC a aeth i fusnesau yng Ngogledd Cymru. | 52.9% | Ni osodwyd targed | 43.3% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mewnbynnu data ynglŷn â'u contractau ar y gofrestr contractau corfforaethol. Cynhelir ail rownd o sesiynau hyfforddi a rhannu gwybodaeth. Bydd mewnbynnu gwybodaeth ynglŷn â chontractau yn rheolaidd ar y Gofrestr yn rhoi gwybodaeth i ni am bob math o gontractau a ddyfarnwyd o fewn ein cadwyn gyflenwi leol, yn ogystal â manylion ychwanegol sy'n cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol. | | | | | | | | |
| M5.5 | Nifer y busnesau a gefnogwyd i wneud cais am gontractau, hyfforddiant, ariannu neu a gafodd gymorth i gydymffurfio â gofynion polisi newydd. | 136 (342 gan gynnwys cydgyfeiriant ) | Ni osodwyd targed | 235 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M5.6 | Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu eu hamddiffyn trwy hwyluso cymorth ariannol. | 207.5 (453.5 gan gynnwys cydgyfeiriant ) | Ni osodwyd targed | 515 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M5.7 | % y plant sy'n byw mewn tlodi (lle bo incwm yr aelwyd yn is na 60% o incwm cyfartalog Prydain). | 19.8% | 19.8% | 19.4% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | Gwyrdd |

## Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Bu cynnydd da wrth osod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu economaidd yn sirol, yn rhanbarthol a ledled Ewrop. Rydym wedi gwella sut yr ydym yn cyfathrebu gyda busnesau lleol ac yn rhoi cymorth ariannol iddynt ac mae enghreifftiau da o greu swyddi ac o ddenu mewnfuddsoddiad yn y sir. Mae mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi darparu rhagor o sicrwydd i fuddsoddwyr, datblygwyr a pherchnogion tir. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau proffil uchel sydd wedi rhoi Conwy 'ar y map' ac sydd wedi cefnogi gwariant gan dwristiaid o fewn y sir. Nid yw'r economi yn rhywbeth sydd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol, ond mae cynnydd cadarnhaol gyda % y plant sy'n byw mewn tlodi yn gostwng, ynghyd â chyfraddau diweithdra lleol fel yr amlinellir yn y tabl isod. Ond, er bod diweithdra wedi gostwng yng Nghonwy, a bod hynny'n gyson â'r hyn sy'n digwydd yng ngweddill Cymru, o gymharu â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd mae ein hadferiad yn arafach.

| | Nifer y di-waith yng Nghyngor Conwy | Cyfradd diweithdra Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (%) | Cymru Prydain (%) | Diweithdra Prydain (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 2011** | 2,561 | **3.8** | 3.9 | 3.7 |
| **Mawrth 2012** | 2,741 | 4.0 | 4.3 | 4.0 |
| **Mawrth 2013** | 2,791 | 4.1 | 4.2 | 3.8 |
| **Mawrth 2014** | 2,301 | 3.4 | 3.4 | 2.9 |

## Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae'r Strategaeth Gaffael yn mynd rhagddi ac yn dirwyn i ben. Mae cymorth i fusnesau lleol yn faes sy'n dibynnu ar arian grant allanol ac nid yw felly bob amser o fewn ein rheolaeth, ond rydym yn gweithio i uchafu cyllid pan fo hynny'n bosibl. Mae cyfle pellach i ddatblygu buddion cymunedol a chymalau cymdeithasol trwy fynd ati i adolygu'r strategaeth gaffael, ac mae angen i'r awdurdod uchafu'r defnydd a wneir o'r gronfa ddata contractau drwy sicrhau fod pob gwasanaeth yn cofnodi contractau ar y gronfa ddata. Dylai datblygu Bwrdd Rhaglen Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi alluogi dull gweithredu strategol a chydlynol er mwyn mynd i'r afael â'r agenda dlodi, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

### Canlyniad 6 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Amgylchedd Cynaliadwy

### Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

| | | |
|---|---|---|
| **A6.1** | **Parhau i gynnal, gwella a rhoi cyhoeddusrwydd i ansawdd ein gwarchodfeydd natur, ein traethau a'n parciau.** | **COG** |
| | Rydym wedi llwyddo i gael 9 o Faneri Gwyrdd, gan gynnwys 1 ym Mharc Gwledig y Gogarth. Rydym wedi llwyddo i gael dwy wobr Cymru yn ei Blodau ym Mae Colwyn (medal gyntaf a medal arian oreurog) ac yn Llandudno (medal arian oreurog) yn ogystal â medal arian oreurog ar gyfer Bae Colwyn yng Nghystadleuaeth Prydain yn ei Blodau. Rydym hefyd wedi ennill 4 o Wobr Cymdogaeth Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol sy'n golygu fod ein parciau a'n mannau gwyrdd wedi cael cyfanswm o 16 o wobrau.<br><br>Dyfarnwyd gwobrau i 10 o'n traethau, gan gynnwys Baner Las Ewropeaidd a Gwobr Glan y Môr ar gyfer Traeth y Gogledd Llandudno. Bellach mae tudalen we[10] wedi'i llunio'n arbennig i hyrwyddo traethau'r Sir. Bydd y dudalen yn cael ei diweddaru bob blwyddyn â manylion am ba wobrau sydd wedi cael eu dyfarnu i'n traethau. Mae mapiau a manylion am y cyfleusterau sydd ar gael ar bob traeth. | Gwyrdd |
| **A6.2** | **Gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â safleoedd sy'n 'ddolur llygad' yn y Fwrdeistref Sirol .** | |
| | Mae'n braf nodi bod dau eiddo a fu'n "ddolur llygad" am gryn amser ac a oedd yn cael effaith ddifrifol ar amwynder yr ardal wedi cael eu gwella'n llwyddiannus y llynedd, sef Red Lion House a The Lion Black yng Nghonwy. Bu cynnydd sylweddol hefyd gyda siop Fruit & Fibre sydd hefyd yng Nghonwy, er nad i'r graddau y gellir ei thynnu oddi ar y rhestr eto. Mae gwaith wedi ei ddechrau ar Westy'r Clarence yn Llandudno. | Oren |
| **A6.3** | **Gweithredu Cynllun Rheoli Carbon i ostwng allyriadau carbon y Cyngor.** | |
| | Mae llawer iawn o waith y mae angen ei wneud o hyd i wella ein perfformiad o ran allyriadau carbon, ond mae gwaith paratoadol yn mynd rhagddo. Mae pob prosiect yn y Cynllun Rheoli Carbon bellach wedi'u cychwyn ac mae arweinwyr y prosiectau wedi cael eu cadarnhau. Mae strwythur lywodraethol y rhaglen wedi cael ei hadolygu, ac mae aelodaeth y tîm prosiect ar ei newydd wedd a chynhelir cyfarfodydd tîm prosiect bob pythefnos er mwyn monitro cynnydd yn ofalus. Gwnaed gwaith yn uwchraddio goleuadau mewn 61 o safleoedd. Mae'r prosiect Ysgolion Carbon Isel bellach yn cychwyn ar yr ail gam a gwneir gwaith gyda 12 ysgol i wella eu perfformiad o ran ynni. Mae cais am gyllid wedi ei baratoi gogyfer â gosod gyriannau cyflymder amrywiol mewn 3 canolfan hamdden a chywiro ffactor pŵer ym mhwll nofio Llandudno fel rhan o'r prosiect Rheoli Pŵer. Mae 175 safle bellach â mesuryddion clyfar ac mae dewisiadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer y 30% o safleoedd sy'n weddill lle nad yw'r rhwydwaith yn cyrraedd er mwyn gosod mesuryddion clyfar. Derbyniwyd tendrau ar gyfer cynnal astudiaeth o ddichonoldeb technegol gosod system rheoli adeilad yng Nghanolfan Hamdden Eirias.<br>Rydym yn parhau i wirio a yw cyfrifiaduron yn cael eu gadael ymlaen bob nos ac os ydynt, rydym yn anfon e-bost at y defnyddiwr i roi gwybod iddynt y dylent ddiffodd eu cyfrifiadur os ydynt yn gadael eu desg am sbel.<br>Rydym bellach yn prynu cyfrifiaduron o wneuthuriad gwahanol sydd 53% yn fwy effeithlon o ran ynni na'r model blaenorol. Rydym yn cyflenwi plygiau deallus i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (am ddim) sy'n synhwyro pan ddiffoddir y cyfrifiadur ac yn diffodd yr holl ategolion. Rydym yn defnyddio dull rhithwiredd i leihau nifer y gweinyddion caled sydd gennym er mwyn lleihau'r defnydd a wnawn o ynni ac rydym yn rhesymoli argraffyddion ac yn cynghori cleientiaid i ddefnyddio dyfeisiau effeithlon aml-swyddogaeth. | Oren |
| **A6.4** | **Gweithredu System Reolaeth Amgylcheddol o'r enw 'Y Ddraig Werdd'. Safon yw hon a luniwyd i hyrwyddo rheolaeth dda o'r amgylchedd o fewn sefydliad. Mae 5 lefel i'w cyflawni – a lefel 5 yw'r safon uchaf.** | |
| | Dyfarnwyd Lefel 5 y Ddraig Werdd i'r awdurdod yn ei gyfanrwydd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn un o ddim ond 2 awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau'r anrhydedd hon ledled yr awdurdod. | Gwyrdd |
| **A6.5** | **Parhau i archwilio sut y gall technoleg newydd fod o fantais o safbwynt arbed costau ac amser er mwyn moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio.** | |

[10] http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=5609&doc=21297&Language=1

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Technoleg Gwybodaeth i flaenoriaethu'r modd y mae Technoleg Gwybodaeth yn cael ei ddatblygu'n gorfforaethol ledled y Cyngor.<br><br>Mae'r system rheoli Adnoddau Dynol Corfforaethol, iTrent, bellach yn yr ail gam ac mae staff erbyn hyn yn derbyn e-slipiau cyflog.<br><br>Ledled yr awdurdod rydym yn cyflwyno prynu'n electronig a gwneud trosglwyddiadau mewnol yn electronig. Mae'r prosiect rheoli dogfennau electronig hefyd yn symud i'w ail gam.<br><br>Mae'r prosiect Gladstone ar gyfer archebu gwasanaethau hamdden ar-lein bellach yn 'fyw' a bellach gall cwsmeriaid sy'n ddeiliaid Cerdyn Ffit archebu dosbarthiadau a gweithgareddau chwaraeon ar-lein.<br><br>Mae porth hunanwasanaeth wedi ei sefydlu ar gyfer y ddesg wasanaeth er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gofnodi digwyddiadau a cheisiadau eu hunain mewn amser real. Mae'r Adran Dechnoleg Gwybodaeth yn ymchwilio i gyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer ailosod cyfrineiriau er mwyn lleihau'r galwadau i'r ddesg gwasanaeth ac er mwyn cynyddu cynhyrchiant gan y bydd y cyfleuster ar gael bedair awr ar hugain y dydd, saith niwrnod yr wythnos.<br><br>Ail-lansiwyd cyfres o wefannau twristiaeth Dewch i Gonwy.<br><br>Rydym wedi cyflwyno system Debyd Uniongyrchol ar gyfer talu am wersi nofio ac wedi adolygu'r amserlen er mwyn lleihau'r rhestrau aros.<br><br>Mae technoleg cledr llaw bellach ar gael er mwyn archwilio asedau arfordirol.<br><br>Mae defnyddio 'Wordfast' yn adnabod rhannau o adroddiadau sydd eisoes wedi eu cyfieithu ac mae hynny wedi lleihau faint o waith sy'n cael ei ddyblygu.<br><br>Rydym wrthi'n gwerthuso Sharepoint, sef teclyn i wella sut rydym yn rhannu gwybodaeth.<br><br>Rydym yn gweithio ar y cyd gyda Busnes Cymru er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth di-dor. Mae'r Adran Cefnogi busnes yn symud tuag at system electronig ar gyfer Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid er mwyn gwella profiad y cwsmer a darparu gwell gwybodaeth rheoli.<br><br>Rydym wedi bod yn hyrwyddo defnydd o byrth E-Dendro gwefan GwerthwchiGymru ac o E-Arwerthiannau Bravo Solutions gogyfer â Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol.<br><br>Y Gogarth - mae gwefan y dramffordd wedi cael ei hadolygu i gynnwys ffrydiau cyfryngau cymdeithasol gan wella hygyrchedd i gwsmeriaid.<br>Defnyddir technoleg cledr llaw i gofnodi gwybodaeth o archwiliadau cyrsiau dŵr. | Oren |
| **A6.6** | **Lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chwrdd â'n targedau ailgylchu statudol** | |
| | Mae cyfanswm sgil-gynhyrchion (gwastraff diwydiannol) y Sir wedi gostwng gan 2,914 tunnell fetrig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae cyfanswm y gwastraff a gesglir i'w ailddefnyddio, i'w ailgylchu neu i'w gompostio wedi lleihau gan 1,746 tunnell fetrig. Yr hyn sydd i gyfri am hyn yw'r gwaith a wneir yn hyrwyddo lleihau gwastraff, a'r gostyngiad mawr a fu yn faint o wastraff gwyrdd o erddi a gasglwyd (oherwydd y tywydd gwlyb y llynedd). Gwnaethpwyd llawer o waith yn mynd i'r afael â masnachwyr yn cam-ddefnyddio canolfannau ailgylchu gwastraff o'r cartref yn ystod 2013/14. Mae hyn wedi lleihau faint o wastraff tirlenwi sy'n cael ei dderbyn yn y canolfannau ailgylchu, fodd bynnag, mae hefyd wedi golygu fod tunelli yn llai o wastraff gwyrdd o erddi, o bren ac o rwbel (sy'n gysylltiedig â gwastraff masnachol) yn cael ei dderbyn yn y safleoedd ailgylchu.<br>Er nad yw'r targedau wedi cael eu cyflawni, mae perfformiad yn parhau i fod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Rhaid i bob cyngor yng Nghymru ailddefnyddio / ailgylchu / compostio o leiaf 58% erbyn 2015/16 fel rhan o Dargedau Statudol Llywodraeth Cymru ac bydd cyflwyno'r cynhwysyddion ailgylchu newydd, a elwir yn 'Trolibocs', ledled y sir o gymorth i gynyddu'r cyfraddau ailgylchu. Mae'r awdurdod yn parhau i fod ymhell islaw'r lwfans tirlenwi a osodwyd arnom gan Lywodraeth Cymru gogyfer â'r 7 mlynedd nesaf. | Oren |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

### Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M6.1 | Nifer y traethau i gael gwobrau arfordirol | 11 | 11 | 10 | Amh. | Amh. | 8 | Oren |
| Gall ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth, megis ansawdd dŵr, sy'n cael ei effeithio gan stormydd a glaw trwm, ddylanwadu ar ein llwyddiant yn cael gwobrau traeth. | | | | | | | | |
| M6.2 | Nifer y parciau a'r gwarchodfeydd natur sydd â statws Baner Werdd | 8 | 8 | 9 | Amh. | Amh. | 9 | Gwyrdd |
| M6.3 | Canlyniadau'r dangosydd glendid | 76.14 | 77 | 80.35 | 72.6% | 3 o blith 22 | 77 | Gwyrdd |
| Rhagorwyd ar y targedau a chafwyd y canlyniad uchaf a gofnodwyd erioed.<br>Dyfarnwyd Gradd A, y radd uchaf o lendid, i 41% o'r holl strydoedd a archwiliwyd. O gymharu â 2012/13 roedd presenoldeb pob math o sbwriel a gofnodwyd wedi gostwng: sbwriel smygu 22%; papurau losin 6%; sbwriel diodydd 38%; pecynnau bwyd cyflym 16%; a baw cŵn 65%. | | | | | | | | |
| M6.4a | Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur llygaid' | 43 | Ni osodwyd targed | 41 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M6.4b | Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur i'r llygaid' a gafodd eu gwella | 29 | Ni osodwyd targed | 10 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| Cafodd 8 safle sy'n 'ddolur llygaid' eu hychwanegu at y rhestr yn ystod y flwyddyn, sy'n effeithio ar berfformiad y mesurydd hwn. Mae achosion parod fel arfer yn fwy dyrys a chymhleth sy'n cymryd llawer mwy o amser i'w datrys. Mae achosion newydd yn dueddol o fod yn haws eu datrys | | | | | | | | |
| M6.5 | % y gostyngiad yn allyriadau carbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2.98% | 15% | 8% | Amh. | Amh. | 20% | Coch |
| Mae allyriadau o ganlyniad i weithgarwch y cyngor yn 2013/14 wedi gostwng gan 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac 8% ers pan osodwyd gwaelodlin yn 2010/11.<br>Mae hyn yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i ynni a ddefnyddiwyd yn adeiladau'r cyngor o 13,062 tunnell fetrig sydd 5% yn is na'r flwyddyn flaenorol a 9% yn is ers pan osodwyd gwaelodlin; mae allyriadau o ganlyniad i danwydd fflyd cerbydau'r cyngor o 2772 tunnell fetrig sydd 5% yn is na'r flwyddyn flaenorol a 3% yn is na'r flwyddyn y gosodwyd gwaelodlin; mae allyriadau o ganlyniad i deithiau busnes yn 868 tunnell fetrig sydd yn gynnydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond 25% yn is na'r flwyddyn y gosodwyd gwaelodlin; mae allyriadau o ganlyniad i oleuo strydoedd yn 4142 tunnell fetrig sydd 5% yn is na'r flwyddyn flaenorol a 5% yn is na'r flwyddyn y gosodwyd gwaelodlin. | | | | | | | | |
| M6.6 | Nifer yr ysgolion yng Nghonwy sydd wedi cael Gwobr Arian Eco-Ysgolion[11] | 48 | 52 | 58 | Amh. | 2/3 | 61 | Gwyrdd |
| M6.7 | % y gwastraff trefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd | 56.4% | 58% | 56.3% | 54.8% | 7 o blith 22 | 60% | Oren |

[11] Menter ryngwladol yw'r rhaglen Eco-Sgolion sy'n annog disgyblion i ymwneud â materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy e.e. Sbwriel, Lleihau Gwastraff, Cludiant, Byw'n Iach, Ynni, Dŵr, Tir yr Ysgol a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | neu a gompostiwyd | | | | | | | |
| Gweler A6.6 am esboniad o'r perfformiad hwn. | | | | | | | | |
| M6.8 | % y gwastraff trefol a gasglwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a anfonwyd i safle tirlenwi | 43.4% | 42% | 43.6% | 40.0% | 16 o blith 22 | 40% | Oren |
| Er bod canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi cynyddu, sy'n awgrymu bod perfformiad wedi dirywio, mae swm gwirioneddol y tunelli metrig o wastraff sy'n cael ei waredu i safleoedd tirlenwi wedi gostwng gan 1,125 tunnell fetrig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae sgil-gynhyrchion gwastraff cyffredinol hefyd wedi lleihau gan 2,914 tunnell fetrig ac oherwydd bod cyfran y sgil-gynhyrchion gwastraff cyffredinol wedi gostwng mwy na chyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, cafodd y targed canrannol ei fethu o drwch blewyn. Roedd hwn yn darged uchelgeisiol iawn, ac mae perfformiad yn parhau i fod yn uchel – mae'r awdurdod yn parhau i fod ymhell islaw'r lwfans tirlenwi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y 7 mlynedd nesaf. | | | | | | | | |

### Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae tystiolaeth dda o welliant a gydnabuwyd drwy ddyfarnu gwobr y ddraig werdd a sawl baneri i ni. Yn dilyn adolygiad, mae cynlluniau newydd ar waith i wella ein hallyriadau carbon ymhellach. Mae prynu adeilad yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gam sylweddol ymlaen yn y rhaglen foderneiddio. Mae ein swyddfeydd yn heneiddio. Bydd lleihau faint ohonynt sydd gennym yn osgoi costau cynnal a chadw sylweddol ac yn lleihau ein hallyriadau carbon yn ogystal â chefnogi'r gwaith o adfywio Bae Colwyn. Bydd treialu ffyrdd newydd o weithio yn gwella effeithlonrwydd ein gwaith ac yn gwella mynediad cwsmeriaid at wasanaethau. O ran y mesurydd glendid cawsom ein canlyniad gorau ers sefydlu'r mynegai. Ceir cysylltiadau clir rhwng glendid ardal a lefelau trosedd a thwristiaeth felly mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol iawn.

### Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r targedau carbon, ond rydym yn hyderus y bydd y drefn lywodraethol a'r trefniadau rheoli prosiect a ailddiffiniwyd yn arwain at welliant. Mae angen i ni barhau i annog ysgolion i ymgyrraedd at statws eco-ysgolion ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gwrdd â thargedau cenedlaethol i gynyddu ailgylchu a lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae'r Rhaglen Foderneiddio yn faes gwaith sylweddol a bydd angen i ni barhau i gyfeirio adnoddau at y gwaith o weithredu ffrydiau gwaith yn amserol.

### Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

### Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

| **A7.1** | **Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r rhwystrau rhag dysgu Cymraeg.** | **COG** |
|---|---|---|
| | Cynhelir cyfnod o ymgynghori statudol ynglŷn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Conwy ac yn amodol ar adborth a diwygiadau, yn dilyn hynny bydd yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr adborth a ddaw o'r ymgynghoriad yn llywio'r cynllun gweithredu. Ar hyn o bryd mae'r Athrawon Bro'n gweithio gydag ysgolion i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel mamiaith. Bydd y tîm yn cyd-drafod ac yn gweithio gydag awdurdod lleol arall sydd wedi bod yn llwyddiannus yn targedu ysgolion i newid cyfrwng disgyblion i Gymraeg mamiaith. Mae'r tîm yn gweithio gyda'r Mudiad Meithrin i gefnogi trosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae'r Uned Iaith yn cynnig cyngor ynglŷn â mentrau, gwasanaethau ac adnoddau sydd ar gael i hwyluso ymdrechion staff ac Aelodau i weithio'n ddwyieithog, gan gynnwys: Bathodynnau a thenynnau gwddf Iaith Gwaith a llofnodion e-bost, negeseuon allan o'r | Oren |

| | | |
|---|---|---|
| | swyddfa a negeseuon peiriannau ateb dwyieithog. Mae'r uned yn cynnig help i deipio'n Gymraeg, ac hefyd yn darparu rhestr o wefannau ac apiau Cymraeg defnyddiol ar eu tudalennau ar y fewnrwyd. Mae'r Uned hefyd yn cydlynu Gwersi Cymraeg, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a Hyfforddiant Gofal Cwsmer Dwyieithog, a ddarperir yn fewnol, ac yn cyfeirio staff at ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion allanol. Mae mwy na 186 o unigolion wedi mynychu cyrsiau Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn drwy Brosiect Cydweithredu Cynllun Datblygu Gwledig 'Mentrau Iaith y Gogledd'.<br><br>Ym mis Ionawr 2014 cynhaliodd Venue Cymru ddigwyddiad o'r enw Cymryd Rhan, (gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru). Daeth mwy nag 8,000 o bobl i'r digwyddiad dros y 2 ddiwrnod. Roedd y digwyddiad yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau Cymraeg a nifer o sêr rhaglenni plant S4C. Hyd y gwyddom, dyma'r unig ddigwyddiad celfyddydol am ddim i blant yn y Deyrnas Unedig. Dyma hefyd yr unig ddigwyddiad o'r fath i gael ei gynnal yn ddwyieithog yn y Deyrnas Unedig. | |
| **A7.2** | **Cefnogi rhagor o ysgolion cynradd i ddysgu o leiaf 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.** | |
| | Yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14 dechreuodd Ysgol Cynfran addysgu 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. 15 o ysgolion yw'r targed a osodwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Ein nod yw gweithio gydag Ysgol Maelgwn. | Gwyrdd |
| **A7.3** | **Gweithredu Cynllun Cyrchfan Conwy i gryfhau twristiaeth a gweithredu Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth ar y cyd â phartneriaid lleol er mwyn denu ymwelwyr i ardaloedd o ddiddordeb nad ydynt mor adnabyddus.** | |
| | Cynhaliwyd lansiad Tywysogion Gwynedd yn y Craflwyn, Beddgelert ar 14 Hydref, 2013. Agorwyd y Porth at Dywysogion Gwynedd yn Adeilad Muriau, Conwy sy'n cynnwys dehongliadau digidol.<br><br>Mae Prosiect Tywysogion Gwynedd wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r canlyniadau, gydag 13 o fentrau wedi'u cwblhau, megis canolfannau arddangos, gwefan a chynhyrchu ffilm i hyrwyddo'r cyfnod hwn o hanes Cymru: gellir gweld y rhain ar youtube[12]. Daw prosiect Tywysogion Gwynedd i ben ddiwedd Mehefin 2014 a daw Ein Treftadaeth i ben ddiwedd Rhagfyr 2014. O'r herwydd mae mesurydd y Cynllun Corfforaethol mewn perthynas â henebion / safleoedd archeolegol yn cael ei adolygu.<br><br>Ym mis Medi 2013, agorodd 42 o stiwdios y sir eu drysau yn ystod yr Helfa Gelf. Roedd hwn yn gyfle prin i gael profiad o fyd cyfrin artistiaid celfyddydol ac i sgwrsio gyda nhw am eu prosesau creadigol a'u gofodau stiwdio. Mae amrywiaeth eang o stiwdios o siediau gardd i orielau.<br><br>Mae Cynllun Cyrchfan Conwy 2011-14 wedi cael ei adolygu ac mae dogfen adolygu wedi cael ei dosbarthu trwy gyfrwng Bwrdd Cyrchfan Conwy.<br><br>Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn parhau i weinyddu cynllun grantiau ar gyfer Adeiladau Hanesyddol mewn cydweithrediad â Cadw sydd hefyd yn cyfrannu tuag at adfer ac adnewyddu adeiladau hanesyddol yn y Sir. | Gwyrdd |

[12] Saesneg http://youtu.be/ypHCdCpKgzg. Cymraeg - http://youtu.be/MBH2JkC-wus

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M7.1a | % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 | 68.7% | 70% | 70.2% | Amh. | Amh. | 78% | Gwyrdd |
| M7.1b | % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 | 70.9% | 73% | 78.7% | Amh. | Amh. | 75% | Gwyrdd |
| M7.2 | Nifer y digwyddiadau y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn eu cynnal sy'n hyrwyddo Diwylliant Cymru | 19 | 43 | 75 | Amh. | Amh. | 47 | Gwyrdd |
| M7.3 | Nifer yr ysgolion Cynradd Cymraeg Ail Iaith sy'n addysgu mwy na 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg | 13 | 14 | 14 | Amh. | Amh. | 14 | Gwyrdd |
| M7.4 | Nifer y cynlluniau dehongli newydd a ddatblygwyd drwy'r Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth | 7 | 13 | 13 | Amh. | Amh. | 12 | Gwyrdd |
| M7.5 | % yr ymwelwyr a ddaeth yn bennaf i ymweld â henebion/safleoedd archeolegol | Dim arolwg | 25% | 18% | Amh. | Amh. | Ni chynhaliwyd arolwg | Coch |
| Canlyniad gwirioneddol diwedd blwyddyn 2013/14 yw **18%** yn erbyn targed o **25%.** Cafodd y targed ei osod yn wreiddiol yn erbyn gwaelodlin o 23% a oedd yn anghywir. Mewn gwirionedd dylai'r waelodlin fod wedi bod yn 13%. Felly mewn gwirionedd mae perfformiad wedi cynyddu o 13% i 18%. Bydd y mesurydd hwn yn cael ei adolygu i ganolbwyntio o'r newydd ar nifer yr ymweliadau yn hytrach na'r prif reswm dros yr ymweliad. | | | | | | | | |

### Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae cwblhau Cynllun Cyrchfan Conwy yn gyflawniad allweddol a dylai lansio prosiect Tywysogion Gwynedd a phrosiect Ein Treftadaeth gyfrannu'n fawr at godi ymwybyddiaeth ymwelwyr a denu rhagor ohonynt i ardaloedd twristiaeth llai adnabyddus yn y Sir. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o gyfoeth y sir o ran diwylliant ac etifeddiaeth Gymreig. Mae'r tîm diwylliant a hamdden, y gwasanaeth ieuenctid a'r uned iaith yn cydweithio i wella sut y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo o fewn y cyngor ac mae'r mesuryddion yn dangos bod yr holl waith yn cael effaith gadarnhaol.

**Meysydd i'w gwella / datblygu**

Rydym yn aros i Safonau newydd y Gymraeg gael eu lansio'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, ond mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' ar waith i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod 2013-14, gobeithiwn y bydd modd i ni fanteisio ar wefan www.workplacewelsh.org.uk a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth CBAC. Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith ac yn parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ac o sicrhau fod pob un o staff y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion hyn ac yn cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y fewnrwyd. Byddwn hefyd yn gweithio i gynhyrchu tenynnau gwddf ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg er mwyn annog a chefnogi staff i ymarfer eu Cymraeg. Mae ffurflen gais newydd ac arni le i nodi lefel sgiliau Cymraeg bron yn barod a chaiff ei lansio wrth symud at gyflwyno ffurflenni cais am swyddi ar-lein.

**Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais**

| | | |
|---|---|---|
| **A8.1** | **Datblygu ein strategaeth ymgysylltu yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru[13] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella ein dull gweithredu a sicrhau safon dda wrth ymgysylltu â chymunedau. Nod yr Egwyddorion yw ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau amserol, di-jargon er mwyn dylanwadu ar ddatblygiadau'r Cyngor ac i sicrhau fod pobl yn clywed beth yw effaith eu cyfraniad.** | **COG** |
| | Cafodd y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ei chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2013. Bydd y strategaeth hon yn annog mwy o ddefnydd o dystion arbenigol.<br>Mae'r Strategaeth Ymgysylltu yn amlinellu:<br>**Beth yw** ymgysylltu cymunedol<br>**Pam** bod angen i ni ymgysylltu<br>**Gyda phwy** y dylen ni fod yn ymgysylltu<br>**Sut** y byddwn yn ymgysylltu<br>**Cynlluniau** ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol (cynllun gweithredu)<br>Mae cronfa ddata ymgynghori wedi ei sefydlu i goladu adborth cryno o'r gwaith ymgysylltu, ac mae gwaith pellach yn cael ei ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o'r gronfa ddata ac i hyfforddi staff sut i'w defnyddio. | Gwyrdd |
| **A8.2** | **Sicrhau bod Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac yn helpu cymunedau lleol i leisio eu barn.** | |
| | Rydym wedi dechrau darlledu ambell un o gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a sawl Pwyllgor ar y we (gwe-ddarlledu).[14] Rydym wedi dyfarnu grant i 29 o blith 33 o Gynghorau Cymuned i sefydlu gwefannau, ac rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant yn y Cyfryngau Cymdeithasol i Aelodau Etholedig. Yn ystod 2013/14 cyhoeddodd 11 o'r Aelodau Adroddiad Blynyddol. Mae Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor a chaiff ei chefnogi gan Gronfa Ddata Ymgysylltu â'r Gymuned sy'n cofnodi pob gweithgarwch ymgysylltu sy'n mynd rhagddo, sydd wedi dod i ben, neu sydd yn yr arfaeth o fewn yr awdurdod. Ystyrir Aelodau Etholedig yn allweddol i lwyddiant y Strategaeth. Drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy yn rheoli portffolio o brosiectau i gefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ymgysylltu â'r gymuned. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi grwpiau amrywiol i ddweud eu dweud er mwyn helpu llunio gwasanaethau a pholisïau. | Oren |
| **A8.3** | **Datblygu rhaglen Cwsmeriaid i gydlynu'r amrywiol brosiectau sydd gennym yn ymwneud â chwsmeriaid er mwyn gwella ein dull gweithredu wrth gynnig gwasanaethau i gwsmeriaid.** | |

[13] Am ragor o wybodaeth ewch i http://www.participationcymru.org.uk/national-principles?seq.lang=cy-GB
[14] http://www.conwy.public-i.tv/core/portal/home

| | | |
|---|---|---|
| | Cafodd Siarter Cwsmeriaid ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai 2014 ac ar hyn o bryd mae hyfforddiant ynglŷn â chynnig gwasanaeth i gwsmeriaid yn cael ei gwblhau cyn datblygu cynllun i'w gyflwyno i Staff.<br>Mae Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi cael eu hailachredu am Ragoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid ac ar hyn o bryd rydym yn cynnal hunanasesiad i ystyried pa wasanaethau eraill y gellid eu hystyried ar gyfer Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid. Rydym hefyd yn adolygu'r mesurydd ar gyfer y flaenoriaeth hon fel bod y perfformiad yn fwy eglur. Mae'r Weithdrefn Gwynion a'r Strategaeth Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae dangosyddion Gwasanaeth i Gwsmeriaid hefyd wedi cael eu datblygu. | Oren |
| **A8.4** | **Gweithredu'r 5 cynllun ardal er mwyn gwella gwasanaethau cymunedol lleol. Mae cynlluniau ardal wedi cael eu datblygu gyda chymunedau ledled y fwrdeistref sirol ac maent yn blaenoriaethu'r gwaith y dywedodd y cymunedau lleol eu bod eisiau ei weld yn g wella yn eu hardal.** | |
| | Mae'r 5 Cynllun Ardal wedi cael eu cyfuno yn un Cynllun Ardal ac mae rhai prosiectau'n cael eu hailddrafftio ac mae pob prosiect sydd wedi eu cwblhau yn cael eu dileu. Bydd y cynllun ardal sengl yn sail i'r elfen y mae'r gymuned yn arwain arni o Strategaeth Ddatblygu Lleol Conwy fel rhan o Gronfeydd Buddsoddi a Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd y mae'n fwriad gennym eu defnyddio er mwyn uchafu cyllid. | Oren |
| **A8.5** | **Gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn unol â'u hanghenion.** | |
| | Mae Adroddiad Blynyddol Blwyddyn 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac mae'r camau gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2 fel a ganlyn: O'r 48 cam gweithredu a nodwyd i'w cwblhau, mae 30 (63%) wedi'u cwblhau ac yn mynd rhagddynt, mae 17 (35%) yn mynd rhagddynt ers tro, ac mae 1 heb ei ddechrau (2%). Priodolir yr oedi a fu yng nghynnydd rhai o'r camau gweithredu i ddiffyg yn yr adnoddau sydd ar gael oherwydd toriadau yn y gyllideb, gweithgareddau trawsnewid gwasanaeth, a newidiadau o gynlluniau strategol rhanbarthol i rai cenedlaethol. Mae gweithgareddau i gwblhau'r camau gweithredu hyn yn parhau. Mae enghreifftiau o gynnydd cadarnhaol yn cynnwys:<br>• Cymunedau'n Gyntaf yn treialu gwiriad iechyd ar-lein i bobl dros 50 oed.<br>• Mae nifer o fentrau wedi eu sefydlu i gefnogi gofalwyr ifanc.<br>• Cynhaliodd Cyngor Conwy Brosiect Cymunedau Oed-Gyfeillgar a arweiniodd at sefydlu Llwybr Treftadaeth Parc Eirias, Atgofion Chwarae sy'n rhan o strategaeth chwarae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy a Fforymau i Bontio'r Cenedlaethau.<br>• Mae Gweithiwr Digidol wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth gan gynnwys defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol a materion moesegol.<br>• Mae Fframwaith Iechyd a Lles wedi cael ei gwblhau a'i roi ar waith.<br>• Mae Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion a cholegau i drafod ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adrodd am unrhyw drosedd gan gynnwys troseddau casineb. Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag ysgolion i gael gwared ar y stigma o adrodd am droseddau rhywiol. Mae drama wedi ei datblygu sy'n tynnu sylw at drais rhywiol ymysg pobl ifanc.<br>• Cafodd grŵp o fudd-ddeiliaid sy'n cynrychioli pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig ei gynnull ym mis Tachwedd 2013 er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ar y cynnydd sy'n digwydd er mwyn cwrdd ag amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | Oren |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Adolygu Ein Perfformiad: 2013 - 14

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M8.1 | % y gwasanaethau rheng flaen sy'n cyrraedd Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid | 25.4% | 23.73% | | Amh. | Amh. | I'w gadarnhau | |
| Mae dau Wasanaeth wedi cael eu hailachredu am gynnig Rhagoriaeth i Gwsmeriaid. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r mesurydd hwn. | | | | | | | | |
| M8.2 | Nifer y trafodion ar-lein bob blwyddyn | 16,922 | 18,500 | 24,614 | Amh. | Amh. | I'w gadarnhau | Gwyrdd |
| Mae'r mesurydd hwn wedi cael ei ddiwygio i gynnwys holl drafodion ar-lein yr awdurdod, nid dim ond y rhai a wneir drwy'r wefan, felly nid oes targed wedi ei osod gan y bydd angen edrych eto ar hyn er mwyn cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn trafodion y byddwn yn adrodd arnynt. Bu cynnydd mewn tri phrif faes: Archebion ar-lein Canolfannau Hamdden, Biniau / bagiau ailgylchu newydd a biniau a fethwyd o fewn Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a cheisiadau ar-lein i dynnu enw oddi ar y Gofrestr Etholiadol. | | | | | | | | |
| M8.3a | Canran y cwynion y llwyddwyd i'w datrys yng ngham 1 | | | | Amh. | | | |
| M8.3b | Nifer y cwynion a dderbyniwyd | | | | Amh. | | | |
| M8.3c | Nifer y cwynion a dderbyniwyd | | | | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| Oherwydd adolygiad cyflawn o'r polisi a'r weithdrefn gwyno, a chyflwyno dadansoddiad ystyrlon o ddata, nid oes modd adrodd ar ddata cwynion yn gywir ar hyn o bryd. Bydd adroddiad blynyddol llawn ynglŷn â chwynion yn cael ei gyflwyno a'i gyhoeddi unwaith y bydd y gweithdrefnau newydd wedi cael eu cwblhau. | | | | | | | | |
| M8.4 | Nifer yr achosion o gamweinyddu a gadarnhawyd gan yr Ombwdsmon | 0 | 0 | 0 | Amh. | 1/4 | 0 | Gwyrdd |
| M8.5 | % defnyddwyr ein gwefan sy'n fodlon â'r wefan | 64.6% | 70% | 67% | Amh. | 3/3 | 75% | Oren |
| Cesglir gwybodaeth ar gyfer y mesurydd hwn o adborth cwsmeriaid. Cafwyd tua 500 o ymatebion sy'n cynrychioli ychydig o dan 1% o'r holl ymwelwyr â'r wefan. Rydym bellach wedi gwella pa mor amlwg mae'r cwestiwn adborth i'w weld a'n bwriad yw cynyddu cyfraddau ymateb i tua 3,500.<br>Gwneir gwelliannau i'r safle seiliedig ar adborth gan gwsmeriaid ac rydym yn gallu dangos lefelau cynyddol o fodlonrwydd bob blwyddyn. O dderbyn rhagor o adborth dylem allu targedu meysydd penodol sy'n achosi problemau yn fwy effeithiol. - Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n ymweld â'r wefan yn ymwelwyr newydd i'r safle, felly cwblheir yr arolwg gan boblogaeth wahanol bob tro. Mae tuedd naturiol hefyd fod cwsmeriaid anfodlon yn fwy tebygol o adael adborth na chwsmeriaid bodlon. | | | | | | | | |
| M8.6 | Nifer yr eitemau y gofynnwyd i'r Cyngor graffu arnynt a gyflwynwyd gan Gynghorydd ar ran y cyhoedd | 10 | Ni osodwyd targed | 7 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M8.7 | % camau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gwblhawyd a ddylai fod wedi'u cwblhau yn y flwyddyn ariannol flaenorol | 86.0% | 100% | 63% | Amh. | Amh. | 100% | Oren |
| Nodir esboniad am y perfformiad hwn yn A8.5 | | | | | | | | |

### Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae gan y Cyngor nifer o fecanweithiau i alluogi'r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth, i gymryd rhan ac i fynegi barn. Mae'r rhain yn amrywio o gynlluniau gofal unigol, i ymgynghoriadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, y Bwletin, arolygon o fodlondeb cwsmeriaid, trwy gyfrwng eu Cynghorydd Sir a thrwy gyfrwng nifer o fforymau gyda phobl ifanc, cynghorau tref a'r sector gwirfoddol. Rydym

yn gweithio ar wella'r prosesau hyn er mwyn cynnal tryloywder a chynyddu hygyrchedd, ac mae gweddarlledu rhai o gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor yn esiampl dda o hynny. Nawr bod y strategaeth ymgysylltu â'r gymuned wedi ei chymeradwyo, gallwn ddechrau ar y gwaith o uchafu'r adborth a gawn gan drigolion ac mae cymeradwyo'r siarter cwsmeriaid yn golygu y gall y cyhoedd wybod pa lefel o wasanaeth y gallent ddisgwyl ei dderbyn. Mae gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ddull diogelu da er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried effaith y datblygiadau ar grwpiau gwarchodedig.

**Meysydd i'w gwella / datblygu**

Rydym yn y broses o osod system newydd i reoli cysylltiadau ar gyfer ein gwefan a ddylai wella ein gallu i reoli'r wefan a rhyngwynebu gyda rhaglenni eraill e.e. ffonau clyfar.
Mae gwaith wedi dechrau i wella sut yr ydym yn dadansoddi cwynion a chanmoliaeth er mwyn rhannu arferion da a dysgu o'r meysydd hynny sydd angen eu gwella. Bydd cwblhau adolygiad o sut yr ydym yn cynnig Rhagoriaeth i Gwsmeriaid yn cefnogi ffocws yr awdurdod ar gyflawni achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid mewn rhagor o feysydd gwasanaeth.

**Camau Blaenoriaeth Cyffredinol (Effeithlon ac wedi'u Rheoli'n Dda)**

| **GA1** | **Byddwn yn ceisio gwella ein gwasanaethau a chyrraedd ein targedau arbedion trwy foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio** | **COG** |
|---|---|---|
| | Cyflawnwyd y targed arbedion o £5.157 miliwn ar gyfer 2013/14.<br><br>Mae gan y cyngor nifer o raglenni moderneiddio strategol ar waith, sef moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac integreiddio gwasanaeth newydd yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn ogystal â moderneiddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd. Hefyd, mae nifer o brosiectau moderneiddio yn cael eu cynnal o fewn gwasanaethau – mae crynodeb o'r rhain isod:<br><br>• Comisiynwyd Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus i adolygu a datblygu dull o fesur / o fonitro effeithiau cymdeithasol ac economaidd y gweithgareddau a gynhelir ym Mharc Eirias.<br>• Mae rhaglen ar gyfer optimeiddio'r llwybr glanhau strydoedd wedi cael ei rhoi ar waith.<br>• Mae tîm gwella busnes arlwyo bellach wedi ei sefydlu yn Venue Cymru, sy'n cael ei gefnogi a'i ariannu gan Goleg Glannau Dyfrdwy. Mae'r tîm gwella busnes yn y maes gwastraff wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd.<br>• Daethpwyd i ben â'r gwaith o foderneiddio'r Tîm Ymyriadau Teuluol a chyflawnwyd gwelliannau i brofiad defnyddwyr o'r gwasanaethau mewn ymateb i adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd ariannol.<br>• Cytunwyd i uno'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Addysg a bydd hyn yn cychwyn ym mis Medi 2014.<br>• Mae'r Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio gyda'r bwriad o sefydlu gwasanaeth preswyl cyfun yn Ysgol y Gogarth.<br><br>Sefydlwyd y Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol a Sicrwydd i gwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'r heriau ariannol y mae'r adran yn eu hwynebu. Roedd cam cychwynnol y rhaglen yn cynnwys cwblhau 4 prosiect ymchwil sydd wedi nodi meysydd datblygu sefydliadol a modelau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cyfnod gweithredu'n cynnwys 14 o brosiectau ac yn cynnwys rhoi 4 strategaeth ar waith. Bu'r rhaglen yn gyfrifol am ail-alinio timau o fewn is-feysydd gwasanaeth, a chwblhawyd hynny ym mis Gorffennaf 2014. Yn rhan o hynny roedd datblygiadau newydd cyffrous megis creu dau wasanaeth newydd, sef Gwasanaeth Lles a Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn, sydd yn canolbwyntio'n benodol ar ymyrraeth ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae datblygu gwasanaeth anabledd integredig yn ddatblygiad arall a fydd yn darparu cydraddoldeb o ran mynediad at gymorth ac adnoddau ar draws yr ystod oedran yn seiliedig ar angen asesedig. Byddwn yn parhau i gynnwys ac ymgynghori â phartneriaid, staff, Aelodau ac Undebau drwy gydol y cyfnod o roi hyn ar waith. | Gwyrdd |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | | |
|---|---|---|
| | Mae deuddeg prosiect wedi eu rhoi ar waith fel rhan o Raglen Ailstrwythuro Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. Mae chwech wedi cyflawni eu hamcanion, ac mae disgwyl i ddau arall ddod i ben yn ffurfiol ym mis Medi 2014. Mae Cam 2 o'r prif ailstrwythuro wedi gwneud cynnydd sylweddol. O blith un ar ddeg o is-wasanaethau, ni fu newid o gwbl yn strwythur un ohonynt, ac mae wyth iswasanaeth naill ai wedi gorffen neu bron a bod wedi gorffen cael eu hailstrwythuro. Mae gwaith i ailstrwythuro'r is-wasanaethau sy'n weddill ar y gweill, ac mae disgwyl y bydd ailstrwythuro Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau wedi ei gwblhau erbyn diwedd Awst 2014. Roedd ymgynghori â staff, Aelodau ac undebau yn rhan hanfodol o'r broses. Mae pedwar ar ddeg o weithdai 'Croesawu Newid' wedi cael eu cyflwyno i staff hefyd bellach. Mae cyfarfodydd er mwyn ymgynghori â'r undebau wedi parhau i gael eu cynnal bob pythefnos, a chynhaliwyd sesiwn arall i friffio Aelodau Etholedig ym mis Mawrth 2014. Cynhelir y rownd olaf eang o sesiynau i friffio staff ac Aelodau ym mis Hydref 2014. Bydd y rhaglen yn dod i ben yn ffurfiol ddiwedd Hydref 2014<br><br>Diwygiwyd oriau agor llyfrgelloedd a llwybrau'r Llyfrgell i'r Cartref yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chafodd y newidiadau eu gweithredu ym mis Hydref a Thachwedd 2013. Cytunwyd ar restr fer o safleoedd ar gyfer y Llyfrgell Ardal / Archifdy newydd yng Nghonwy / Cyffordd Llandudno / Deganwy mewn cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgorau Craffu Cymunedau a Chwsmeriaid ac yn y Cabinet. Penderfynwyd peidio â symud ymlaen i drosglwyddo'r Neuadd Ddinesig i'r grŵp buddiant cymunedol CIWB ac mae llawr uchaf y Neuadd Ddinesig wedi ei gau. | |
| **GA2** | **Byddwn yn adolygu o ble rydym yn gweithio - (Gofod Swyddfa)** | |
| | Mae Rhaglen Foderneiddio, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, wedi cael ei sefydlu i gymryd lle'r rhaglen drawsnewid busnes a'r rhaglen gwsmeriaid ac i uno gyda'r prosiect gofod swyddfa. Mae hyn wedi arwain at ddull mwy cydlynol a syml o weithredu o ran yr agenda foderneiddio. Mae'r ffrydiau gwaith dan y rhaglen hon yn cynnwys y gwaith o reoli asedau, er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben a chael gwared ar stoc adeiladau beichus sydd wedi dyddio y mae angen llawer o waith cynnal a chadw arnynt. Ym mis Ionawr 2014 prynodd yr awdurdod adeilad yr Adran Gwaith a Phensiynau ym Mae Colwyn ac ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn adolygu'r dewisiadau i wneud y defnydd gorau o'r gofod swyddfa yn y safle hwn ac yn edrych ar ffyrdd o gefnogi adfywiad Bae Colwyn. Cafwyd cymeradwyaeth y Cyngor i archwilio llwybr datblygwr adeiladu ym mis Mai 2014 a chynhaliwyd diwrnod datblygwr ym mis Gorffennaf 2014. Mae ffrydiau gwaith eraill yn y rhaglen yn treialu cynlluniau 'gweithio'n ddoeth' i brofi gwahanol ddulliau cynllun agored o weithio'n ystwyth ac adolygu offer addas i alluogi staff i wneud eu gwaith yn ystod oriau mwy hyblyg ac o leoliadau lluosog. | Oren |
| **GA3** | **Byddwn yn uchafu cyfleoedd ariannu Ewropeaidd a chyfleoedd ariannu allanol eraill** | |
| | Ers ei sefydlu yn 2009, mae'r ddarpariaeth arian cyfatebol wedi denu bron i £44 miliwn mewn arian cyfatebol yn erbyn darpariaeth o £4.5 miliwn. Mae hyn wedi ariannu prosiectau sydd werth dros £52 miliwn.<br><br>Mae'r awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn ail gam y cais i gronfa 'Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid' Llywodraeth Cymru a llwyddwyd i sicrhau £12.02 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae Arian Adran 106[15] yn cael ei flaenoriaethu i'w wario ar brosiectau adfywio a chynllunio lleol. | Gwyrdd |
| **GA4** | **Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r Compact Cymru Gyfan ar Gydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill** | |
| | Mae gan yr awdurdod nifer o brosiectau a wneir ar y cyd â phartneriaid sy'n amrywio o wasanaethau integredig i ddigwyddiadau rhwydweithio anffurfiol. Mae pob gwaith a wneir ar y cyd yn adrodd i fyrddau rhaglen a chafodd grŵp tasg a gorffen ei sefydlu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau i ystyried unrhyw waith a wneir ar y cyd nad yw'n adrodd yn gorfforaethol. Mae pob partneriaeth a nodwyd wedi cael eu rhoi ar y rhaglen i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn nesaf. | Gwyrdd |

[15] Cytundebau rhwng datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol yw Cytundebau Adran 106, a elwir hefyd yn rhwymedigaethau cynllunio, a chânt eu trafod fel rhan o amodau caniatâd cynllunio.
Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi awdurdodau lleol i drafod cyfraniadau tuag at ystod o isadeileddau a gwasanaethau, megis cyfleusterau cymunedol, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau trafnidiaeth a / neu dai fforddiadwy



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 12/13 | Targed 13/14 | Ein canlyniadau yn 13/14 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 14/15 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GM 1 | Cyfradd cwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol | 68.8% | 80% | 62.7% | Amh. | Amh. | 80% | Coch |
| Mae'r gwelliant yng nghyfradd gwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad wedi bod yn faes yr ydym wedi bod yn rhoi sylw parhaus iddo. Mae pob rheolwr wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd ymrwymiad yr awdurdod i Adolygiadau Datblygu Perfformiad a bellach cyhoeddir adroddiadau misol ar gyfer pob gwasanaeth i wella'r monitro. Mae pob gwasanaeth wedi cael cais i adolygu'r modd y maent yn mewnbynnu data i system Adnoddau Dynol iTrent i sicrhau bod y data yn gyfredol. Pan fo hynny'n briodol, bellach gall gwasanaethau gynnal Adolygiadau Datblygu Perfformiad ar ffurf grŵp ar gyfer grwpiau penodol o staff a dylai hynny gynyddu'r nifer sy'n eu derbyn. Yn dilyn ymyrraeth gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol, mae'n galonogol adrodd, ym mis Gorffennaf 2014, fod cyfradd yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad ar gyfer y 12 mis blaenorol (1 Awst 2013 i 31 Gorffennaf, 2014) wedi cynyddu i 80.61% gan gyflawni'r targed. | | | | | | | | |

### Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae'r adroddiad yn dangos fod llawer iawn o gynnydd wedi digwydd i foderneiddio sut yr ydym yn gweithio ac i wella effeithlonrwydd ariannol y Cyngor. O ystyried yr hinsawdd economaidd, bydd yr holl staff yn ymwybodol y bydd sicrhau arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn yn parhau i fod yn her ac y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd. Bu datblygiadau sylweddol wrth adolygu'r prosiect gofod swyddfa, a dyna fydd un o'r prif ddarnau o waith datblygu yn 2014/15. Mae tystiolaeth dda ein bod wedi uchafu arian Ewropeaidd, ond mae'n rhaid i ni barhau i fonitro cynnydd i sicrhau fod Conwy'n cael budd o gylch ariannu Ewropeaidd 2014.

### Meysydd i'w gwella / datblygu

Byddwn yn parhau i weithio i wella cyfradd cwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad ac i wella eu hansawdd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pherfformiad Adolygiadau Datblygu Perfformiad ym mhob Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth a byddwn yn adolygu'r datganiad ynglŷn â dull y mesurydd. Mae'r perfformiad hwn i'w briodoli'n rhannol i'r amrywiol raglenni trawsnewid sy'n mynd rhagddynt. Mae hyn wedi arwain at berfformiad isel mewn meysydd gwasanaeth ble mae staff ar hyn o bryd yn cael eu cyfweld / eu hadlinio o fewn strwythurau gwasanaeth newydd. Cafwyd diweddariadau hefyd i'r meddalwedd Adnoddau Dynol, iTrent, sydd wedi arwain at fylchau o ran cofnodi data mewn rhai meysydd. Gwnaed gwelliannau trwy gyflwyno Adolygiadau Datblygu Perfformiad grŵp ar gyfer rhai carfannau o staff. Mae'r adran Adnoddau Dynol Corfforaethol wedi datblygu cynllun gweithredu i wella ac i fonitro cyfraddau cyflawni'r adolygiadau datblygu perfformiad.

## 5 Gweithio ar y Cyd

Dim ond un dull o blith nifer o ddulliau eraill o wella effeithlonrwydd gwasanaethau yw cyflawni gwaith ar y cyd. O ganlyniad i 'Adroddiad Simpson: "Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?" (2011), mae Compact ar gyfer Newid wedi cael ei ddatblygu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol. Mae'r Compact yn cynnwys fframwaith ar gyfer cyflawni gwaith ar y cyd dros y blynyddoedd nesaf. Cymeradwywyd ymrwymo i'r Compact gan y Cabinet ym mis Chwefror 2012. Cymeradwywyd **Datganiad Cydweithio** gan Gyngor Conwy ym mis Tachwedd 2010 er mwyn sicrhau trefn lywodraethol dda a gwerth am arian, a sicrhau bod blaenoriaethau a gwerthoedd yr awdurdod yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu, wrth weithio mewn partneriaeth.

Mae Conwy'n hen gyfarwydd â gweithio mewn partneriaeth ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio ledled y rhanbarth a ledled Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau i ansawdd gwasanaethau a gwerth am arian i drigolion Conwy. Mae **Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** wedi cael ei sefydlu ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n aelod ohono.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu nifer o fentrau. Mae'r buddion a ragwelir yn amrywio - pwrpas rhai ohonynt yw gwella effeithlondeb gwasanaethau a chreu arbedion, pwrpas eraill yw gwella safonau neu wytnwch gwasanaethau.

Rydym wedi llunio canllawiau ynglŷn â gweithio ar y cyd sy'n amlinellu'r camau y dylai Swyddogion yng Nghonwy eu dilyn wrth arwain ar sefydlu gwaith ar y cyd gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Rydym hefyd wedi datblygu asesiad buddion gweithio ar y cyd a ddefnyddiwyd ar gyfer mentrau y mae Conwy wedi bod yn arwain arnynt. Bwriad yr asesiad yw sicrhau ein bod yn gwybod a wnaethom wireddu'r canlyniadau a ragwelwyd. Caiff pob menter y gweithir arni ar y cyd ei chofnodi ar daenlen gweithio ar y cyd a'u monitro trwy'r Byrddau Gwella ac / neu trwy Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth.

Nid yw'r rhestr isod yn adlewyrchu pob maes gwaith, ond yn hytrach yn amlygu'r prosiectau sydd wedi eu sefydlu y mae Conwy yn arwain arnynt ac/neu sy'n cefnogi gwireddu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (amcanion gwella).

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Disgrifiad | Y buddion o weithio ar y cyd | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysyllt iad â'r Camau Gweith redu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Rhaglen Gwaith Amdani gan gynnwys Genesis 2 a Taith i Waith** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Prosiect i ddarparu cymorth 1-1 a chymorth grŵp i unigolion gynyddu eu sgiliau a symud ymlaen at gyflogaeth.<br><br>Mae elfen cyllid Ewropeaidd y prosiect bellach wedi dod i ben. Bydd tîm bach yn cefnogi pobl ddiamddiffyn a difreintiedig. Bydd y tîm yn darparu cymorth, cyngor, arweiniad a hyfforddiant ynglŷn â gwaith, gwirfoddoli a hyfforddiant, gan gynnwys hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, adeiladu hyder / hunan-barch a gwella lefelau cymhelliant. | Yn y tabl isod, amlinellir y manteision a wireddwyd yn rhan o elfennau'r rhaglen a gyllidwyd gan yr Undeb Ewropeaidd:<br><br>Cafodd 1,447 o unigolion eu cefnogi a chafodd 816 ganlyniad cadarnhaol o ganlyniad i'r gefnogaeth a gafwyd.<br>Aeth 294 yn eu blaenau at gyfleoedd dysgu pellach<br>Enillodd 422 gymhwyster<br>Cafodd 157 waith am dros 16 awr yr wythnos<br>Cafodd 42 waith rhan amser am lai nag 16 awr yr wythnos<br>Cafodd 97 gymorth gofal plant i fynychu hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu leoliad gwaith.<br>Cofrestrodd 34 busnes gyda'r rhaglen mewn 11 mis<br>Cafodd 21 busnes gymorth i dderbyn gwybodaeth am arian i gyflogi staff<br>Cafodd 14 o fusnesau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i weithredu neu wella eu polisïau a'u gweithdrefnau cydraddoldeb ac amrywiaeth. | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.2 |
| **2** | **Prosiect Datblygu Gweithlu** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Mae'r prosiect hwn a wneir ar y cyd yn gweithio:<br>• i gydlynu'r wybodaeth bresennol sydd ar gael yn strategaeth sgiliau a hyfforddiant ar draws pob partner. | Y buddiannau a ragwelir ar gyfer y prosiect hwn yw;<br>Eglurder gweledigaeth ar draws holl Bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych<br>Integreiddio polisïau lleol yn well. | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.3 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • i weithio ar y cyd i gynyddu nifer y prentisiaethau a'r prentisiaid a gyflogir yn dilyn prentisiaethau.<br>• i ddatblygu fframwaith cyfnewid staff a fframwaith hyfforddi ar draws y sector cyhoeddus.<br>• i wella rhaglenni profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc, oedolion sy'n dychwelyd i'r gwaith a phobl gydag anableddau.<br>• i weithio ar y cyd i feithrin ymrwymiad gweithwyr ac i symleiddio datblygiad y gweithlu a'i wneud yn fwy effeithlon. | Gwella gweithio cydlynol er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.<br>Gwella prosesau cyffredin ar gyfer rheoli lleoliadau gwaith a phrentisiaethau<br>Gwella'r gefnogaeth a'r strwythur gogyfer â'r sawl sy'n ymgeisio am leoliadau gwaith a phrentisiaethau gan ddarparu profiad ystyrlon o safon iddynt.<br>Gwella cefnogaeth i aelodau staff.<br>Ceir diweddariad o'r buddion a wireddwyd yn A1.3. | | |
| **3** | **GwE - Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion ac Effeithlonrwydd** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol (GwE) | Dull gweithredu rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth gwella ysgolion yw hwn a lansiwyd yn weithredol ar 1 Ebrill 2013. Mae'n cefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i wella cyrhaeddiad addysgol. Mae GwE yn gweithio gydag ysgolion sy'n tanberfformio i fonitro, cynnig cefnogaeth, herio a gosod targedau er mwyn codi safonau disgyblion. | Gan mai dim ond ers mis Ebrill 2013 y mae'r gwasanaeth hwn yn weithredol, nid yw'r buddion a ragwelir wedi cael eu gwireddu eto ond cesglir data tra mesurir y buddion hynny. Y prif fudd a ragwelir yw gwelliant yng nghyrhaeddiad addysgol disgyblion. h.y.:<br>1. Gwell safonau mewn llythrennedd a rhifedd sy'n cymharu'n dda â'r safonau gorau mewn Siroedd eraill;<br>2. Rhagor o sgiliau gan staff gan y byddwn yn recriwtio arweinyddion system sydd â dull gweithredu cyson a hanes y gellir rhoi prawf ohono o wella ysgolion;<br>3. Rhagor o gynhwysedd gwasanaeth<br>Ceir diweddariad am y buddion yn A1.6 | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.6 |
| **5** | **Grŵp / Rhaglen Rhanbarthol Cefnogi Teuluoedd Gogledd Cymru** | Rhaglen Cydweithio Rhanbarthol | Dull gweithredu rhanbarthol yw hwn i gefnogi teuluoedd diamddiffyn trwy ddatblygu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfrifoldeb cyffredin o ran cefnogi teuluoedd. | Nid yw buddion y rhaglen hon wedi cael eu gwireddu eto, a chynhelir adolygiad ffurfiol i adolygu a yw'r rhaglen yn cyflawni'r bwriad o leihau dyblygu, o ddatblygu cymunedau | Canlyniad 2 Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | A2.3 ac A2.4 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dysgu, o reoli comisiynu rhanbarthol ac o reoli perfformiad canlyniadau ar y cyd gogyfer â theuluoedd diamddiffyn. | | |
| 6 | **Cynllunio Rhag Argyfwng** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Nod y prosiect hwn yw darparu dull gweithredu rhanbarthol tuag at gynllunio rhag argyfwng. | Aeth y gwasanaeth rhanbarthol weithredol ym mis Gorffennaf 2014. O'r herwydd nid yw'r buddion sydd wedi eu rhagweld wedi cael eu gwireddu eto. Mae'r buddion sy'n cael eu rhagweld yn cynnwys:<br>• Lleihad o ran dyblygu ac ailadrodd tasgau<br>• Cysoni gwaith yn well a chael timau mwy gwydn<br>• Gwella sut y caiff adnoddau eu targedu trwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin<br>• Gwella cysondeb yn y ffordd mae awdurdodau'n ymateb<br>• Gwell sianelau cyfathrebu rhwng Fforwm Gogledd Cymru Gydnerth ac Awdurdodau Lleol<br>• Rhagweld arbedion effeithlonrwydd o flwyddyn 3 ymlaen. | Effeithlon ac wedi'u rheoli'n dda | A2 |
| 7 | **Un Llwybr Mynediad at Dai, Gogledd Ddwyrain Cymru** | Prosiect Cydweithio | Gwaith yw hwn a wneir ar y cyd rhwng 4 awdurdod lleol, 5 landlord cymdeithasol a Phrifysgol Glyndŵr. Bwriad y prosiect yw ad-drefnu sut y dyrennir tai cymdeithasol o fewn ardal yr awdurdodau, gydag anghenion y cwsmer yn ystyriaeth greiddiol o fewn maes tai sydd â rhagor o ddewisiadau a hygyrchedd cyffredin. Mae disgwyl y bydd y prosiect yn weithredol ddiwedd y flwyddyn galendr. | Y buddiannau a ragwelir ar gyfer y prosiect yw:<br>• Dull gweithredu cyffredin wrth ddarparu cyngor a dewisiadau ynglŷn â thai<br>• Proses ymgeisio gyffredin a chofrestr tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol.<br>• Fframwaith dyrannu cyffredin sy'n cynnig asesiad cyson o anghenion tai sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rheiny ag angen brys. | Canlyniad 3 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas | A3.1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Gwasanaeth Digartrefedd wedi'i Gydleoli** | Prosiect Cydweithio | Gwaith yw hwn a wneir ar y cyd er mwyn sefydlu asiantaeth gosod tai cymdeithasol mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Daeth Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy'n weithredol ar 30 Mehefin 2014 ac erbyn hyn mae ganddynt ofod swyddfa newydd gwell y maent yn ei rannu gyda Chartrefi Conwy. | Dim ond newydd ddod yn weithredol y mae'r prosiect hwn a'r manteision sy'n cael ei rhagweld yw:<br>• Gwell mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ynglŷn â dewisiadau tai ar gyfer trigolion Conwy<br>• Bod y sector rhentu preifat yn fwy hygyrch i drigolion Conwy<br>• Rhagor o werth am arian wrth gaffael llety dros dro<br>• Rhagor o gydlynu a gwell defnydd o adnoddau ar draws y ddau sefydliad<br>• Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i staff y ddau sefydliad<br>• Lleihad o ran risg i'r Cyngor o ganlyniad i gynnydd posibl mewn digartrefedd o ganlyniad i ddiwygio'r gyfundrefn les a'r dirwasgiad | Canlyniad 3 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas | A3.1 |
| 9 | **Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol (Llandudno ac Abergele)** | Prosiect Cydweithio | Prosiect yw hwn a wneir ar y cyd i ddarparu cymorth i bobl 60 oed a throsodd sydd ag angen cymorth asesedig i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned mewn darpariaeth tai a chymorth priodol. | Mae'r cynlluniau bellach ar agor, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fod wedi gwireddu'r buddion. Y buddiannau a ragwelir yw:<br>• Galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gyda gwell safon bywyd<br>• Cau un o gartrefi preswyl y Cyngor sydd wedi dirywio ac wedi dyddio, gan wneud i'r ffwrdd â'r cyfrifoldeb o orfod ei gynnal a'i gadw. Bu i Gartref Preswyl Awel y Môr gau ym mis Rhagfyr 2010, bu i Blas Gogarth | Canlyniad 4 Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol<br>3 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel a phriodol | A4.1<br>A3.1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan ym mis Mehefin 2010 a bu i Blas y Dre gau yn ystod 2008<br>• Arbedion refeniw o ganlyniad i'r newid yn y model gwasanaeth – mae arbedion refeniw eisoes wedi eu gwireddu yn sgil cau Cartrefi Preswyl.<br>• Gwireddwyd cyfalaf o werthu Awel y Môr, Plas Gogarth a Phlas y Dre.<br>• Rhagor o ymdeimlad o ddiogelwch ar gyfer preswylwyr a'u teuluoedd<br>• Allanoli'r Ddarpariaeth Gofal Cartref<br>• Cynnydd yn nifer yr eiddo fforddiadwy lleol sydd ar gael<br>• Mae gan gynlluniau Llety Tymor Byr Ychwanegol ar gyfer Pobl Hŷn lety tymor byr ar gael am uchafswm o bythefnos ar unrhyw un adeg i'w defnyddio gan drigolion Conwy sy'n cael eu hasesu fel bod arnynt angen llety dros dro o'r fath gan Weithiwr Iechyd Proffesiynol. | | |
| **10** | **Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llys Dyfrig** | Prosiect Cydweithio | Prosiect cydweithio yw hwn i ddarparu canolfan i gydleoli staff ac integreiddio staff iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd er mwyn gwella cydweithio a galluogi cyfuno'r cyllidebau priodol | Nid yw'r prosiect hwn yn weithredol eto. Mae disgwyl y bydd yn weithredol yn gynnar ym mis Awst 2014, felly nid yw'r buddion disgwyliedig wedi cael eu gwireddu eto. Caiff ei ragweld y bydd y prosiect yn:<br>1. Darparu gwelliannau i'r gwasanaeth trwy weithio ar y cyd ag Iechyd a sefydliadau gwirfoddol<br>2. Cynyddu cynhwysedd drwy weithio ar y cyd; a thrwy weithio'n ystwyth | Canlyniad 4 Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol | A4.1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 3. Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid trwy fod gwasanaethau sydd wedi eu cydleoli ar gael yn y gymuned.<br>4. Uchafu adnoddau | | |
| **11** | **Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Weithredu)** | Rhaglen Cydweithio Ranbarthol | Mae nifer o brosiectau o fewn y rhaglen hon, a'u buddion yw gwella sut y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu a chwrdd â'r safonau sydd wedi eu nodi yn Fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. | Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi. Mae'r llwyddiannau hyd yma yn cynnwys lansio Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru ar gyfer lleoliadau cynhwysedd isel a chostau uchel ar draws ystod o grwpiau diamddiffyn; Y buddiannau a ragwelir yw:<br>1. fod arbedion arian parod o £134,000 yn cael eu rhagweld i Gonwy am 3 blynedd gyntaf oes y prosiect;<br>2. y bydd angen llai o adnoddau Conwy i drafod lleoliadau preswyl;<br>3. y bydd Conwy'n manteisio ar gaffael a fydd wedi ei drafod yn ganolog;<br>4. Arbedion ariannol o £90,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf<br>5. Osgoi costau o £100,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf.<br>O fewn y rhaglen, mae gwaith hefyd wedi dechrau ar:<br>• Strategaeth Gweithlu Ranbarthol<br>• Adolygiad o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru - 3 blynedd yn ddiweddarach<br>• Gwasanaethau Integredig yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi sylw i dai gofal ychwanegol, ail-alluogi, ymyraethau ataliol, a gosod ffioedd preswyl;<br>• Ehangu Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd ar sail isranbarthol;<br>• Datblygu Un Pwynt Mynediad. | Canlyniad 4 Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol | A4.1 |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Trefniadau diogelu rhanbarthol. | | |
| 12 | **Gwaith ar y Cyd y Tîm Dyletswydd Brys** | Gwaith a Wneir ar y Cyd yn Rhanbarthol | Gwaith yw hwn a wneir ar y cyd i ddarparu gwasanaeth gogyfer ag achosion brys y tu hwnt i oriau swyddfa. | Mae gwerthusiad o'r dewisiadau wedi ei gwblhau, a'r casgliad oedd y dylid cadw'r gwasanaeth yn fewnol ac y dylid datblygu'r gwasanaeth a'i brosesau busnes. Mae hyn yn cynnwys adolygu cytundebau, ffurfioli arferion gwaith a chytuno ar brotocolau gyda gwasanaethau brys eraill. | Canlyniad 4 Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol | A4.1 |
| 13 | **Partneriaeth Wledig Conwy** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ein helpu ni i gyd i gynnal cefn gwlad Cymru, ac i gael mwynhad a budd ohono. Ar yr un pryd, mae'n mynd i'r afael â phroblemau penodol sy'n effeithio ar lawer o bobl mewn ardaloedd gwledig. Gofalu am yr amgylchedd ac annog datblygu economaidd cynaliadwy yw dau o amcanion pwysicaf y Cynllun, ond mae creu rhagor o swyddi sgil uchel a chefnogi prosiectau yn y gymuned leol yn flaenoriaethau uchel hefyd. CBS Conwy yw corff arweiniol Partneriaeth Wledig Conwy ac mae ar hyn o bryd yn rheoli Cynllun Busnes 2 sydd â 9 prosiect strategol sy'n werth £6.344 miliwn. | Buddion y gwaith hwn a wneir ar y cyd yw:<br>• Cynnydd yng nghyfraddau gweithgarwch economaidd ar gyfer teuluoedd fferm<br>• Cynnydd yn nifer yr ymweliadau twristaidd<br>• Gwell amgylchedd pentrefol<br>• Cynnydd yn nifer y swyddi yn y Gonwy wledig<br>• Cynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy<br>• Gwell sgiliau a gwybodaeth yn lleol<br>• Ymgysylltu a chynnwys pobl y Gonwy Wledig yn well<br>• Gwell bodlondeb o ganlyniad i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau | Canlyniad 5 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus | A5.2, A5.3 |
| 14 | **Caffael Rhanbarthol a Chenedlaethol** | Prosiectau Cydweithio Rhanbarthol a Chenedlaethol | Bwriad y prosiectau yw darparu dull rhanbarthol/cenedlaethol o weithredu wrth fynd ati i gaffael. Byddant yn cefnogi'r ymgyrch i fod yn effeithlon ac i fod â rheolaeth dda trwy sicrhau gwerth | Erys ystod o brosiectau caffael cydweithredol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r canolbwynt gofal cymdeithasol rhanbarthol (y mae Cyngor Sir Ddinbych yn awdurdod lletyol ar ei gyfer) wedi | Canlyniad 5 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus | A5.2 |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | am arian a thrwy gefnogi busnesau lleol pan fo hynny'n ddichonadwy. | datblygu fframweithiau trawsranbarthol ar gyfer gwneud pryniannau er mwyn gallu lleihau costau. Lluniodd y bartneriaeth Restr Gofal yn y Cartref ar gyfer Gogledd Cymru a system electronig ganolog sydd wedi ei lleoli ar y we. Mae'r rhestr hon ar gael i'r holl gomisiynwyr gwasanaeth o fewn y chwe Awdurdod Lleol ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br><br>Lansiwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y broses o sefydlu ystod o grwpiau defnyddwyr cwsmeriaid, o orffen eu hymgyrch i recriwtio Rheolwyr Categorïau ac o gytuno ar anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi targedau effeithlonrwydd. | | |
| **15** | **Uchelgais Economaidd** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Bwriad y prosiect hwn yw sefydlu dull gweithredu strategol ar draws y rhanbarth i wella Economi Gogledd Cymru. | Gweledigaeth y Bwrdd yw cyfleu fod Gogledd Cymru yn rhanbarth hyderus ac eangfrydig sydd ag economi amrywiol, gwerth uchel, sy'n darparu ystod o gyfleoedd gwaith cynaliadwy, o safon ar gyfer y trigolion. Y buddion fydd cynnydd o ran cynhyrchiant economaidd, y gallu i gystadlu a thwf yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cael ei fesur trwy (leihau) y bwlch rhwng a) cyfraddau rhanbarthol a chenedlaethol twf blynyddol Gwerth Ychwanegol Gros; a b) y bwlch rhwng yr ardaloedd hynny sydd ar ei hôl hi o ran y gyfradd twf cyfartalog | Canlyniad 5 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus | A5.3, A5.4 a A5.5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhanbarthol a'r rhai sy'n gryfach eu perfformiad. | | |
| **16** | **TGCh (Caffael ar y Cyd)** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Bwriad y prosiect yw darparu dull rhanbarthol o brynu caledwedd a meddalwedd TG. Bydd yn cefnogi'r ymgyrch i fod yn effeithlon ac i fod â rheolaeth dda ac yn cefnogi ein nod ni o ymateb i dechnoleg newydd. | Mae caffael caledwedd cyfrifiaduron personol / gliniaduron oddi wrth un cyflenwr ar gyfer Cynghorau Gogledd Cymru wedi cael ei gwblhau. Y buddion a wireddwyd yw'r arbedion effeithlonrwydd a geir o ganlyniad i arbedion maint. | Canlyniad 6 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | A6.5 |
| **17** | **Gwastraff Gweddilliol Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Dull gweithredu rhanbarthol yw'r prosiect hwn ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff gweddilliol. | Mae'r buddion sydd wedi eu rhagweld yn cynnwys osgoi costau o £31,288,000 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2015 hyd Mawrth 2041, a'r arbedion effeithlonrwydd a geir trwy rannu costau caffael a rhwng 5 Awdurdod. | Canlyniad 6 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | A6.6 |
| **18** | **Canolfan Gwastraff Bwyd Gogledd-ddwyrain Cymru** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Dull gweithredu rhanbarthol yw'r prosiect hwn ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff bwyd. | Bydd y buddion yn cynnwys osgoi costau o £1,276,730 dros gyfnod o 15 mlynedd a chostau caffael wedi eu rhannu rhwng 5 Awdurdod. | Canlyniad 6 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | A6.6 |
| **19** | **Fframwaith Contractwyr Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus Gogledd Cymru** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol (Prosiect yw hwn a ariennir ar y cyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) wedi ei arwain gan Gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ar ran 6 | Y prif gymhelliant dros gynnal y prosiect hwn yw sicrhau gwerth am arian ar gyfer caffael cyhoeddus a darparu buddion cymunedol ledled y rhanbarth. Bydd angen ystyried cynnwys targedau ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth, talu is-gontractwyr yn brydlon, cyfleoedd ar gyfer busnesau sy'n derbyn cefnogaeth, addysg, profiad gwaith, mentrau cymunedol a chyfleoedd agored ar gyfer mentrau bychain<br>Cynhaliwyd lansiad gweithredol Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru ar 12 Mehefin 2014 yng nghanolfan Glasdir, Llanrwst. | Nid yw'r manteision a ragwelwyd wedi cael eu gwireddu hyd yma a byddant yn cael eu gwireddu wrth i Gonwy symud at gynnal prosiectau adeiladu gweithredol sydd wedi eu caffael yn defnyddio'r fframwaith.<br><br>Rhagwelir y bydd y prosiect yn creu arbedion sylweddol o ran costau ac amser wrth fynd ati i gaffael ar gyfer gwaith adeiladu.<br>- Gwella pa mor rhagweladwy yw'r costau.<br>- Gwella nifer y prosiectau a gwblheir ar amser. | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.7 ac A6.3 |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | awdurdod lleol Gogledd Cymru.) | | - Buddion i'r gadwyn gyflenwi o ran pŵer prynu cyffredinol a hirhoedledd y fframweithiau. | | |
| **20** | **Prosiect 'Ein Treftadaeth' a phrosiect 'Tywysogion Gwynedd'** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Consortiwm yw hwn o dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth £19 miliwn CADW. | Bydd prosiect Tywysogion Gwynedd yn dod i ben ddiwedd Mehefin 2014 a bydd prosiect Ein Treftadaeth yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2014. Nid yw'r manteision a ragwelwyd wedi cael eu hasesu eto, sef:<br>• Annog archwilio'r dirwedd ddiwylliannol<br>• Cynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth ymwelwyr gan arwain at roi profiad cyfoethocach i ymwelwyr<br>• Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i safleoedd / atyniadau<br>• Cynnydd yn ansawdd ac argaeledd y dehongli sydd ar gael<br>• Cynnydd mewn sgiliau a gwybodaeth leol drwy hyfforddiant a datblygu<br>• Cynnydd yn y cyfleoedd cyflogaeth<br>• Codi proffil hanes Cymru gan gyfeirio'n benodol at Dywysogion Gwynedd<br>• Cynyddu'r effaith economaidd ar drefi a phentrefi sydd ymhell o'r mannau y mae twristiaid yn ymhél. | Canlyniad 7 Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | A7.3 |
| **21** | **Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Mae hwn yn brosiect gyda phedwar partner yng Nghymru ac Iwerddon sydd â'r nod o edrych ar sut y gallwn ddatblygu a rhannu ffyrdd o wella cyfathrebu a gwella cysylltiadau rhwng pobl o wahanol oedran | Daeth y prosiect i ben ym mis Mehefin 2014. Roedd y prosiect:<br>• Yn cynnal gweithgareddau peilot sy'n gyfeillgar i oed er mwyn annog cydlyniad a chynhwysiant cymdeithasol; | Canlyniad 8 Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu | A8.1 |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | delwedd a threftadaeth ddiwylliannol gadarnhaol; ffyrdd iach o fyw a dysgu gydol oes, tra bo hefyd yn datblygu strategaethau i bontio'r cenedlaethau ar lefelau lleol a rhyngwladol. Cafodd y strategaethau eu lansio yng nghynhadledd derfynol y prosiect ym mis Mawrth 2014.<br>• Yn pontio'r bwlch rhwng y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth iau o fewn cymunedau<br>• Yn dal, yn diogelu ac yn cadw treftadaeth ddiwylliannol trwy weithredu bron i 25 o brosiectau peilot, gan gynnwys gweithdai ysgrifennu a phrosiect gardd gymunedol.<br>• Yn cynnal y prosiectau mewn amgylchedd sy'n hybu rhyngweithio rhwng y cenedlaethau.<br>• Yn is-gontractio gwerthusiad o'r prosiect, a awgrymodd fod rhai gweithgareddau wedi cyfrannu tuag at gymunedau mwy cydlynol ac at newid diwylliannol.<br>• Yn galluogi i weithgareddau presennol ddod yn fwy cyfeillgar i oed o ddefnyddio dulliau i bontio'r cenedlaethau.<br><br>Mae nifer o weithgareddau amrywiol hefyd wedi cael eu cynnal gan ein partneriaid o fewn y prosiect, sydd wedi cyfrannu at yr agenda o bontio'r cenedlaethau. | cynnwys ac yn cael llais | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **22** | **Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru yn Gweithio ar y Cyd** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Bwriad y prosiect hwn yw darparu dull rhanbarthol o gynnal gwasanaethau cyfreithiol. Bydd yn cefnogi'r ymgyrch i fod yn effeithlon ac i fod â rheolaeth dda gan rannu arbenigedd ar draws y rhanbarth a lleihau'r angen i brynu arbenigedd allanol. | Mae Adain Gyfreithiol Conwy'n darparu rhai gwasanaethau cyfreithiol arbenigol i Gyngor Ynys Môn, i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn rhoi cefnogaeth ad hoc i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn wedi creu incwm ar gyfer y gwasanaeth, sydd o gymorth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, tra bo ar yr un pryd yn creu arbedion i'r cyrff cyhoeddus dan sylw.<br><br>Mae dau gynllun peilot a oedd yn rhan o'r prosiect cydweithio wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Mae'r cyntaf yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, a arweiniodd at gynnydd mewn rhannu arbenigedd ymhlith y Cyfreithwyr sy'n gweithio yn y maes hwn o fewn y 6 Awdurdod Gogledd Cymru.<br><br>Mae'r ail yn ymwneud ag erlyniadau o fewn y 6 Awdurdod sydd wedi cael llai o lwyddiant. Profodd y cynllun peilot i fod yn or-fiwrocrataidd ac ni chafwyd unrhyw arbedion ariannol nac arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth yn ei sgil. Mae'r cynllun peilot hwn bellach yn cael ei adolygu i weld a all barhau mewn modd sy'n gwireddu'r buddion angenrheidiol neu a ddylai ddirwyn i ben. | Effeithlon ac wedi'u rheoli'n dda | |

## 6 Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'n Perfformiad

### 6.1 Adroddiad Gwella Blynyddol 2013

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ynghylch pa mor dda mae Cynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwelliant a darparu eu gwasanaethau.

Yn 2013/14 dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru ar gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol ar draws pob awdurdod yng Nghymru. O'r herwydd, yn ychwanegol at raglen flynyddol o Astudiaethau Gwelliant ac archwiliadau, bydd pob awdurdod yn cael un asesiad corfforaethol manwl o fewn cyfnod o bedair blynedd. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru Asesiad Corfforaethol o Gyngor Conwy ym mis Tachwedd 2013, a'u bwriad oedd ateb y cwestiwn canlynol:

> **"A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion?"**

Mae hierarchaeth o gwestiynau ychwanegol hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad er mwyn galluogi arolygwyr i gyrraedd casgliad cyffredinol. Roedd y cwestiynau hyn yn cynnwys:-

- Perfformiad a chanlyniadau;
  *'A yw'r awdurdod yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r gwelliannau arfaethedig o ran perfformiad a chanlyniadau?'*
- Gweledigaeth a chyfeiriad strategol;
  *'A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr awdurdod yn cefnogi gwelliant?'*
- Llywodraethu ac atebolrwydd;
  *'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr awdurdod yn cefnogi gwneud penderfyniadau mewn dull cadarn ac effeithiol?'*
- Defnyddio adnoddau;
  *'A yw'r awdurdod yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol i ddarparu'r gwelliannau a fwriadwyd mewn perfformiad a chanlyniadau?'*
- Cydweithio a phartneriaethau;
  *'A yw trefniadau cydweithio a phartneriaethol yr awdurdod yn gweithio'n effeithiol i ddarparu gwell perfformiad a chanlyniadau?'*
- Rheoli Gwelliant
  *'A yw'r awdurdod yn rheoli ei raglen gwella'n effeithiol?'*

Cynhaliwyd Rhaglen o Asesu Corfforaethol dros 19 wythnos a oedd yn cynnwys pythefnos o ymweliadau safle gan 10 o archwilwyr o Swyddfa Archwilio Cymru ac o KPMG. Cynhaliodd yr Archwilwyr gyfweliadau a sesiynau grŵp ffocws gyda 72 o Swyddogion, Aelodau Etholedig a Phartneriaid y Cyngor.

Yn ogystal â'r cyfweliadau, cynhyrchodd y Cyngor lyfrgell gynhwysfawr o dystiolaeth a oedd yn cynnwys dros 600 o ddogfennau a oedd yn cefnogi'r cyfweliadau, ac yn galluogi'r archwilwyr i gwblhau eu Hasesiad a dod i gasgliadau. Maes o law, cafodd y Llyfrgell ei chanmol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15. Mae'r farn honno'n adlewyrchu casgliadau ei asesiad corfforaethol, sef:-

> **"Mae'r Cyngor yn cael ei reoli a'i lywodraethu'n dda yn gyffredinol ac mae ganddo hanes o welliant cyson er bod ganddo lawer i'w wneud i wireddu arbedion angenrheidiol yn y dyfodol."**

Daethant i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol:-

- Mae'r Cyngor yn parhau â'i record o wneud cynnydd cyson mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau o'i amcanion gwella;
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu gwerthusiadau cytbwys, gwybodus o'i berfformiad a'i drefniadau llywodraethol ac rheoli risg yn systematig;
- Mae'r rhan fwyaf o agweddau'r drefn lywodraethol a'r drefn o reoli perfformiad ac adnoddau yn ategu cyfraniad y Cyngor at wella gwasanaethau ond mae'r hinsawdd ariannol lem bresennol yn cynnig her sylweddol; ac
- Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

Ni wnaed unrhyw argymhellion statudol. O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na bai'r archwilwyr yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Cynigiwyd y gwelliannau canlynol.

P1 Dylai'r Cyngor weithio gydag ysgolion a'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, GwE, i wella gwerth am arian y system ysgolion cynradd.

P2 Dylai'r Cyngor egluro'n gliriach wrth adrodd ar ei dargedau beth yw'r rheswm dros unrhyw ostyngiad sydd i'w weld yn lefel yr uchelgais a ddilynir.

P3 Dylai'r Cyngor sicrhau bod:

- Cofnodion y Cabinet yn cofnodi pob argymhelliad craffu perthnasol
- Modd i bawb sy'n bresennol mewn cyfarfodydd ddweud y gwahaniaeth rhwng aelodau'r pwyllgor a chynghorwyr a swyddogion eraill: a
- Bod Pwyllgorau Trosolwg A Chraffu yn gynyddol yn dal deiliaid portffolio i gyfrif yn hytrach na swyddogion.

P4 Dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn fwy systematig wrth fodloni ei hun bod argymhellion a wnaed mewn adroddiadau archwilio ac adroddiadau arolygu, yn fewnol ac yn allanol, yn cael eu gweithredu'n briodol.

P5 Wrth gynllunio a chyflawni'r arbedion ariannol sylweddol pellach sydd eu hangen yn y blynyddoedd nesaf, dylai'r Cyngor:-

- ddatblygu cynlluniau ariannol tymor hwy er mwyn darparu'r well ar gyfer yr amserlen i weithredu rhaglenni trawsnewid uchelgeisiol;
- osod mesuryddion a thargedau llwyddiant addas a phenodol mewn perthynas â rhaglenni trawsnewid y Cyngor; a
- dylid sicrhau cyfraniad cyson a chydlynol gan y tîm Adnoddau Dynol, y tîm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r tîm Rheoli Asedau wrth gefnogi moderneiddio gwasanaethau a newid trawsnewidiol

P6 Dylai'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i wella gallu'r Bwrdd i fonitro a rheoli ei berfformiad.

Mae cynllun gweithredu wedi cael ei baratoi i gyfarch y cynigion ar gyfer gwelliannau a bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal dilyniant i asesu cynnydd yn ystod hydref 2014.

## 6.2 Adroddiadau arolygon eraill a gyhoeddwyd yn 2013/14

Yn ystod 2013/14, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru'r archwiliadau canlynol. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu llunio er mwyn rhoi'r argymhellion ar gyfer gwella ar waith:

| Pwnc | Archwilwyr | Y mater sydd angen ei gyfarch | Statws |
|---|---|---|---|
| Contractio a Chaffael | KPMG | Olrhain y cynnydd a wnaed ar yr argymhellion a ddaeth o'r archwiliad. | Derbyniwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2014. Mae ymateb wedi ei lunio ac wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. |
| Adolygu'r trefniadau i reoli effaith diwygio'r gyfundrefn les ar Dai Cymdeithasol. | Swyddfa Archwilio Cymru | A yw Cynghorau mewn sefyllfa dda i reoli effaith diwygio'r gyfundrefn les ar dai cymdeithasol yng Nghymru yn effeithiol? | Mae hon yn astudiaeth genedlaethol. Enwebwyd sampl o gynghorau i gymryd rhan yn yr astudiaeth, ac nid yw Conwy yn un ohonynt. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cylchredeg arolwg i bob cyngor. Mae'r adroddiad cenedlaethol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Cyflawni â Llai - yr effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd ac ar ddinasyddion | Swyddfa Archwilio Cymru | A yw gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol gyda llai o adnoddau? | Mae'r adroddiadau Lleol a Chenedlaethol yn cael eu drafftio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd. |
| Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant | Swyddfa Archwilio Cymru | A oes gwersi y dylai llywodraeth leol eu dysgu o'r ymdrechion i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt, neu fod perygl na fyddant mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant? | Cynhaliwyd gwaith safle ym Mai 2013. Derbyniwyd Adroddiad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf a derbyniwyd yr adroddiad lleol yn Awst 2014. Rydym yn datblygu ymateb i'r argymhellion a wnaed. |
| Astudiaeth Gwella Craffu | Swyddfa Archwilio Cymru | Astudiaeth wella genedlaethol yw hon i asesu safon y craffu a wneir mewn awdurdodau lleol. | Derbyniwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2014 a chasgliad yr adroddiad hwnnw oedd bod y craffu a wneir gan Lywodraeth Leol yng Nghymru yn gwella, ond bod angen i gynghorau wneud mwy i ddatblygu craffu sy'n gyson drylwyr er mwyn cynyddu atebolrwydd cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau. Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu. |
| Astudiaeth Gwella Diogelu | Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o drefniadau llywodraethu a rheoli awdurdod cyfan er diogelu plant ac oedolion diamddiffyn | Cynhaliwyd cyfweliadau ym mis Mawrth 2014. Cafwyd fersiwn ddrafft o'r adroddiad ac mae disgwyl yr adroddiad terfynol ym mis Hydref. |
| Adolygiad Ansawdd Data | KPMG | A yw'r cyngor yn defnyddio data priodol i alluogi cyhoeddi ac adrodd ynglŷn â chynnydd ar flaenoriaethau ac amcanion gwella? A oes prosesau a rheolyddion cadarn ar waith er mwyn llywodraethu sut y caiff data ei ddethol, ei gasglu, ei brosesu a'i ddadansoddi? A yw'r cyngor yn adrodd canlyniadau cywir? | Derbyniwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2014. Mae mân gamgyfrifiadau yn y dangosyddion perfformiad mewn rhai achosion, ond nid yw'r rhain wedi arwain at unrhyw newidiadau sylweddol yng ngwerthoedd y dangosyddion perfformiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflenwi yn Ystod Absenoldeb Athrawon | Swyddfa Archwilio Cymru | Adroddiad cenedlaethol oedd hwn. Diben yr adolygiad oedd edrych ar effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr ac ar sut mae ysgolion yn rheoli effaith absenoldeb athrawon. | Nid yw'r trefniadau ar gyfer cyflenwi pan fo athrawon yn absennol o'u gwaith yng Nghymru yn cael ei reoli'n ddigonol i gefnogi cynnydd dysgwyr na gwneud y defnydd gorau o adnoddau. |
| Cwrdd â'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru | Swyddfa Archwilio Cymru | Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r graddau y mae cynghorau yng Nghymru yn ymateb i'r pwysau ariannol sy'n eu hwynebu. Mae'n edrych ar effeithiolrwydd eu gwaith cynllunio ariannol, eu dull o wneud penderfyniadau ariannol a'r camau y maent yn eu cymryd i leihau effaith gwneud toriadau sylweddol yn y gyllideb. | Nid oes gan lawer o gynghorau yng Nghymru gynlluniau clir a realistig i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau. Yn gyson, nid yw Cynghorau yng Nghymru yn seilio eu cynlluniau strategol ar wybodaeth ariannol ddibynadwy a phriodol.<br>Hyd yma, mae'r cynghorau wedi gallu cwrdd â'u heriau ariannol a chyflawni eu cynllun cyffredinol, ond bydd yn rhaid wrth drefniadau cadarnach wrth i bwysau ariannol gynyddu.<br>Nid yw pob cyngor yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd yn effeithiol wrth gyflawni eu cynlluniau strategol. |
| Llythyr Asesu Gwelliant 1 | Swyddfa Archwilio Cymru | Mae'r llythyr yn archwilio a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant gan rannu barn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofyn i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol | Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwn, yr wyf o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyn sydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.<br>Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwelliant a ddynodwyd mewn asesiadau blaenorol.<br>Bu i'r Cyngor ymgysylltu'n dda â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein hastudiaeth ddiweddar ar wella effeithiolrwydd craffu. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau ariannol sydd yn eu hwynebu ac mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i'w rheoli. |
| Llythyr Asesu Gwelliant 2 | Swyddfa Archwilio Cymru | Mae'r llythyr yn archwilio a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant gan rannu barn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofyn i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol | Yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nid oedd unrhyw gynigion ar gyfer gwelliant. |
| Cynllunio ac Adrodd ynglŷn â Gwelliant yn Lleol yng Nghymru | Swyddfa Archwilio Cymru | A yw awdurdodau gwella (awdurdodau) yn cynllunio, yn cyflawni ac yn adrodd ynglŷn â gwelliant yn effeithiol? | Mae pob awdurdod yn dod yn well am gysylltu yr hyn y maent eisiau ei gyflawni gyda'u cynlluniau a'u hadnoddau ac mae rhai yn cyflwyno darlun clir a gonest i bobl leol, ond mae gwybodaeth wael yn ei gwneud yn anodd bod yn siŵr eu bod yn deall eu perfformiad eu hunain yn ddigon da i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hwynebu. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu lle y bo'n berthnasol i Gonwy. |
| Adolygu Pier Bae Colwyn | KPMG | A wnaeth y Cyngor ddilyn prosesau priodol wrth brynu Pier Bae Colwyn ym mis Mawrth 2012? | Cafodd Aelodau a budd-ddeiliaid eu cynnwys yn briodol yn y penderfyniad i brynu ac ailddatblygu'r Pier;<br>. Ni wnaeth y Cyngor ddilyn ei brosesau rheoli prosiect arferol wrth gaffael y Pier ac roedd rhai diffygion yn y broses a fabwysiadwyd; a<br>Cyflwynwyd gwybodaeth briodol i'r Aelodau nes sicrhau, yn fy marn i, bod y penderfyniad i gaffael y Pier yn rhesymol ac nad oedd yn anghyfreithlon. |

### 6.4 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn annog gwelliannau ym meysydd gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae'n cyhoeddi Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad. Gellir gweld eu hadroddiadau ar wefan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, http://cssiw.org.uk/?skip=1&lang=cy

Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei gynhyrchu fel rhan o'r hyn a elwir yn Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor. Mae'n cynnwys Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr a gwybodaeth am gyflawniadau allweddol y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r prif amcanion gogyfer â’r flwyddyn ganlynol. Gellir ei ddarllen ar wefan y Cyngor: http://adroddiadblynyddolgwasanaethaucymdeithasolconwy.org.uk/t

Mae’r adroddiad yn rhoi crynodeb o brif lwyddiannau ac arferion da 2013/14 ac yn cyflwyno rhaglen gwaith i’r dyfodol ar gyfer 2014/15.

Mae adroddiad 2013/14 yn canolbwyntio ar y themâu canlynol y cytunwyd arnynt gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

1. Ymateb i Anghenion
2. Diogelu
3. Rheoli Busnes a Pherfformiad
4. Rheoli Adnoddau
5. Comisiynu a Phartneriaethau
6. Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol

Roedd y thema'r llynedd yn canolbwyntio ar reoli newid. Bu newidiadau sylweddol o ran arweinyddiaeth y gwasanaeth ac mae tîm rheoli’r Gwasanaethau Cymdeithasol bellach yn gyflawn ac mae 9 rheolwr gwasanaeth wedi eu penodi a’u cadarnhau. Mae'r gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar y cwsmer wrth ddarparu gwasanaethau ac fe’i cynlluniwyd i symleiddio'r daith i unrhyw un sydd angen gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth neu ofal. Mae’r meysydd mwyaf cyffrous o ddatblygu yn cynnwys gwasanaeth anabledd integredig, gwasanaeth i bobl ddiamddiffyn a darparu adnoddau lles cymunedol. Mae’r meysydd gwasanaeth hyn, er yn eu babandod, yn addo cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar pan fo angen ac yn addo symud tuag at weithredu mewn dull ataliol i roi'r cyfle gorau i bobl fyw bywydau llawn ac annibynnol. Maes pwysig i’w ddatblygu ac i adeiladu arno yw ein strategaeth comisiynu a fydd yn cael ei alw yn **Strategaeth Ataliol Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy** gan sicrhau mai’r dymuniad i ychwanegu gwerth at fywydau a chryfhau gwytnwch sy’n cymell ein gweithgarwch comisiynu.

Lluniwyd thema adroddiad Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2013-14 i hysbysu'r darllenydd am y cynnydd a wnaed a beth sydd wedi newid yn sgil hynny, gan roi enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio i sicrhau bod gweledigaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir ac yn syml -

**"Rydym yn bodoli er mwyn paratoi ein hunain, gwasanaethau eraill, a chymunedau i helpu pobl i fod yn ddiogel, yn uchelgeisiol ac i lwyddo"**

Mae datblygu gwasanaethau i hyrwyddo cyfeirio a chefnogaeth gynnar yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd, megis model *Tîm o Amgylch y Teulu*, sydd wedi bod yn weithredol ers 12 mis, ac sy'n cael ei ariannu drwy grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae darparu gwybodaeth dda i gefnogi teuluoedd a allai fod yn gofalu am rywun ag anabledd wedi bod yn ganolbwynt hefyd, ac mae'r Strategaeth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yng Nghonwy wedi bod yn llwyddiannus. Mae gwrando ar gwsmeriaid yn thema gref a fydd yn cael ei datblygu yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r addewid i ddatblygu asesiadau integredig a chynlluniau ystyrlon i bobl yn dechrau dwyn ffrwyth, yn enwedig mewn meysydd megis trosglwyddo.

Cefnogwyd y gweithlu i roi cynnig ar wahanol ddulliau gweithredu wrth weithio â phobl, megis asesiadau a chynlluniau sy'n seiliedig ar ddeilliannau. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ein bod yn cynnig llwybr mwy uniongyrchol i ddarpariaeth ein gwasanaeth a gall ein cwsmeriaid ddisgwyl eglurder am sut y bydd hyn o gymorth iddynt. Rydym wedi gweithio ar rai o'r heriau y gwnaethom eu hwynebu'r llynedd, ac maent bellach yn dangos arwyddion o welliant megis mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

***Uchelgais i gyflawni gwelliant***

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn deall eu perfformiad ac yn deall sut y gall ffactorau amrywiol effeithio ar dueddiadau. Mae'r gwasanaeth wedi lleihau nifer y rheolwyr ond mae ad-drefnu'r gwasanaeth yn golygu bod y gwasanaeth mewn sefyllfa well ac yn fwy effeithlon. Mae angen deall yn well sut mae gwasanaeth "da" yn edrych; mae hyn yn bwysig ac mae casgliad o feysydd gwasanaeth wedi eu symleiddio, gan gynnwys, diogelu, adolygu annibynnol, ansawdd, polisi, monitro a'r gweithlu i gael gwell cyfle i sicrhau gwelliant cyfannol.

Ni ellir synied yn rhy isel am y pwysau fydd ar wasanaethau dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r cyfyngiadau ariannol yn ddifrifol a byddant yn cael effaith. Mae'r galw cyffredinol am wasanaethau yn gyson ac mae arnom angen arfogi ased pennaf y gwasanaeth, sef ein staff, i ymateb i'r galw hwn yn y ffordd orau posibl. Gall darpariaeth ranbarthol fod yn gyfle gwych, yn enwedig mewn perthynas â diogelu, y gweithlu a chomisiynu. Mae newid deddfwriaethol ar y gorwel ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bydd gofyn am newid cyfeiriad er mwyn ategu ein rhaglen drawsnewid. Mae'r gwasanaeth yn hyderus mai ganddyn nhw y mae'r cyfle gorau i gwrdd â'r heriau hynny a pharhau i gyflenwi'r gwasanaethau da hynny y mae cwsmeriaid yng Nghonwy wedi'u mwynhau ers nifer o flynyddoedd.

**Arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

Yn ystod 2013/14 cafwyd tri adroddiad arolygu allanol oddi wrth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Ym mis Tachwedd 2013 daeth arolygiad dirybudd o gartref gofal seibiant byr Tír na nÓg i'r casgliad fod 6 maes nad oedd yn cydymffurfio â rheoliadau Cartref Plant. Roedd tair agwedd ryngberthynol yn ymwneud ag atgyfeirio pryderon ynglŷn â diogelu plant, roedd a wnelo dwy agwedd â storio a gweinyddu meddyginiaeth a chafodd y materion hyn eu priodoli i gydymffurfiaeth mewn perthynas â hyfforddi a datblygu staff. Cafodd cynllun gweithredu ei roi ar waith ar unwaith, parhawyd i gynnal deialog gyda'r arolygiaeth a chynhaliwyd arolwg dilynol ar 2 Mehefin 2014. Derbyniwyd llythyr gan yr arolygiaeth ar 4 Mehefin yn cadarnhau fod yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi cael sylw a bod y mater bellach ar gau.

Hefyd yn Tachwedd 2013 cynhaliwyd arolwg dirybudd o Gartref Plant Glan yr Afon. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod yno ymdeimlad cryf o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolion a bod y plant yn cael eu cefnogi a'u hannog. Mae perthynas dda rhwng y staff, y rhieni a'r bobl ifanc. Nid oedd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio, ond dylid annog pobl ifanc i ystyried pa ffordd sydd o fesur ansawdd y gwasanaeth. Dylai pobl ifanc hefyd fod yn ymwybodol o sut i wneud cwyn.

Ym mis Ionawr 2014 cafodd Gwasanaethau Maethu Conwy arolwg a oedd wedi'i drefnu a'i gyhoeddi. Daeth yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014, i'r casgliad bod gan blant sy'n derbyn gofal lais gogyfer â helpu i lunio'r gwasanaeth, a bod gweithgarwch corfforol ac addysg yn flaenoriaethau uchel gan y gwasanaeth. Mae gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi ac yn cael hyfforddiant priodol o ansawdd da. Mae angen gwella cymorth busnes ar gyfer y tîm gofal maeth.

**Arolygiadau ESTYN**

Cafodd cyfanswm o naw o Ysgol Gynradd eu harolygu gan Estyn yn ystod 2013/2014. Dyfarnwyd bod un ohonynt yn rhagorol, bod pedair yn dda, bod tair yn ddigonol ac rydym yn parhau i aros am adroddiad terfynol Estyn ynglŷn ag un ysgol.

| | |
|---|---|
| Rhagorol | 1 |
| Da | 5 |
| Digonol | 3 |
| Yn Aros Adroddiad | 0 |

Cafodd cyfanswm o ddwy ysgol uwchradd eu harolygu yn ystod yr un cyfnod. Dyfarnwyd bod un ohonynt yn Ddigonol ac rydym yn aros am adroddiad terfynol Estyn ynglŷn â'r llall.

| | |
|---|---|
| Digonol | 1 |
| Yn Aros Adroddiad | 1 |


Cynhaliwyd arolwg gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o gyfleusterau preswyl yn Ysgol y Gogarth ym mis Chwefror 2014. Daeth yr arolwg i'r casgliad bod y Gwasanaeth yn darparu safon uchel iawn o ofal.

## 7 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) Llywodraeth Cymru, Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) a Mesuryddion ein Cynllun Corfforaethol

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol i'r Cyngor 'ganfod angen' a `gwella gwasanaethau yn barhaus'. Er mwyn asesu pa mor dda y gwnawn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nifer o fesuryddion perfformiad statudol sy'n ymwneud â meysydd polisi allweddol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Yna caiff lefel y perfformiad ei gymharu â thargedau a osodwyd gan y Cyngor.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n perfformiad mewn cymhariaeth a'r mesuryddion cenedlaethol pan ellir gwneud cymariaethau, o sut yr ydym yn perfformio o gymharu â'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol, a hefyd ceir crynodeb o berfformiad mesuryddion cenedlaethol a mesuryddion y cynllun corfforaethol fesul canlyniad y dinesydd.


### 7.1 Cyflawni ein Targedau Cenedlaethol




Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2013/14 gogyfer â'r mesuryddion perfformiad statudol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo ei hun ar ddechrau'r flwyddyn.


Mae 43 o'r 44 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cael eu cymharu ledled Cymru.

### 7.2 Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru?




Mae llawer iawn o'n mesuryddion statudol yn gosod ein perfformiad yn chwarter uchaf neu chwarter canol perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Mae'r canlyniadau yn welliant ar ganlyniadau'r llynedd: mae perfformiad chwartel uchaf wedi gwella o 11 hyd 15, cyfartaledd o 26 i 24, ac yn is o 7 i lawr i 4. Rydym yn gweithio i wella ar y dangosyddion yn chwarter isaf perfformiad Cymru ac mae cynlluniau gweithredu yn eu lle.


### 7.3 Cyflawni Targedau ein Cynllun Corfforaethol




Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2013/14 gogyfer â mesuryddion y cynllun corfforaethol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo ei hun ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o fesuryddion yn dangos cynnydd a fydd yn cwrdd â'r targedau a osodwyd.

### 7.4 Cyflawni targedau Canlyniadau


Mae'r siartiau isod yn dangos sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn yr 8 canlyniad i'r dinesydd sydd yn y Cynllun Corfforaethol, gan edrych ar fesuryddion ein Cynllun Corfforaethol, ond hefyd ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol / Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus mewn perthynas â'r 8 canlyniad i'r dinesydd. Mae pob siart yn dangos perfformiad yn ôl nifer y mesuryddion a chanran y mesuryddion sydd naill ai ddim yn cwrdd â'r targed, sy'n symud ymlaen o fewn y goddefiant tuag at gwrdd â'r targed neu sydd wedi cwrdd â'r targed.











Canlyniad 3: Tai diogel ac addas
3
37%
5
63%


Canlyniad 4: Iach ac annibynnol
2
12%
2
13%
12
75%


Canlyniad 5: Economi ffyniannus
2
33%
4
67%


Canlyniad 6: Amgylchedd cynaliadwy
1
[CANRAN
]
4
50%
3
38%


Canlyniad 7: Treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg
1
14%
1
14%
5
72%


Canlyniad 8: Cael gwybodaeth, cael eu cynnwys a chael llais
2
25%
1
12%
5
63%

### 7.5 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae'r tablau canlynol yn adrodd ar ffigurau perfformiad y canlyniadau gwirioneddol yn erbyn y targed Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) Llywodraeth Cymru. Lle na wireddwyd y targed, mae'r gwasanaeth wedi rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion hynny. Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro fel rhan o'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth bob 6 mis i sicrhau ein bod yn rheoli'r perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Yn ychwanegol at ein Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'n Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, rydym hefyd yn coladu perfformiad yn ôl set o Ddata Gwella Gwasanaeth. Mae gormod i'w rhestru o fewn yr adroddiad hwn, ond mae pob dangosydd set craidd sy'n berthnasol i'n Cynllun Corfforaethol wedi cael eu rhestru yn adran 1. I weld adroddiad llawn ynglŷn â pherfformiad ein Dangosyddion Set Craidd cyfeiriwch at ein gwefan www.conwy.gov.uk/annualreport

Esbonnir yr allwedd a ddefnyddir yn y golofn Perfformiad isod:

| ***O'i gymharu â'r targed a osodwyd:*** | |
|---|---|
| Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef | Gwyrdd |
| Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed | Oren |
| Cyflawnwyd y targed | Coch |
| Ni osodwyd targed | |

## 7.6 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 13/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCA/001 | Cyfradd yr oedi mewn trosglwyddiadau gofal am resymau Gofal Cymdeithasol **DSC** | Gwyrdd | 1.5 | 0.69 | 4 o blith 22 | 3.5 | Ni osodwyd targed |
| SCA/002 a) | Cyfradd y Bobl Hŷn a Gefnogir yn y Gymuned **DSC** | | Ni osodwyd targed | 63.2 | 14 o blith 22 | 68.2 | Ni osodwyd targed |
| SCA/002 b) | Cyfradd y Bobl Hŷn y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn Cartrefi Gofal **DSC** | Gwyrdd | 21.0 | 18.8 | 10 o blith 22 | 20.3 | 21.0 |
| SCA/019 | Canran yr atgyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle cafodd y risg ei rheoli **MAC** / **DSC** | Oren | 100.0% | 97.3% | 11 o blith 22 | 97.2% | 100.0% |
| SCC/002 | Canran y plant a newidiodd ysgol unwaith neu'n rhagor tra oeddynt yn derbyn gofal **DSC** | Coch | 6.0% | 8.7% | 4 o blith 22 | 13.4% | 6.0% |
| SCC/004 | Sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal **MAC** / **DSC** | Gwyrdd | 10.0% | 6.1% | 5 o blith 22 | 8.7% | 9.5% |
| SCC/011 b) | Canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn pan fo tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld ei ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol Dangosydd **DSC** | Gwyrdd | 45.0% | 51.0% | 10 o blith 22 | 47.9% | 45.0% |
| SCC/033 d) | Pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn flaenorol – yr awdurdod mewn cyswllt â nhw pan fônt yn 19 oed **DSC** | Coch | 90.0% | 80.0% | 20 o blith 22 | 97.9% | 90.0% |
| SCC/033 e) | Pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn flaenorol - mewn llety addas yn 19 oed **DSC** | Gwyrdd | 85.0% | 100.0% | 1 o blith 22 | 92.8% | 85.0% |
| SCC/033 f) | Pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn flaenorol – sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed **DSC** | Gwyrdd | 55.0% | 75.0% | 3 o blith 22 | 55.8% | 55.0% |

## Adolygu Ein Perfformiad: 2012 - 2013

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 13/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/037 | Sgorau cymwysterau allanol plant sy'n derbyn gofal **DSC** | | Ni osodwyd targed | 302 | 5 o blith 22 | 250 | Ni osodwyd targed |
| SCC/041 a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a'r plant a arferai fod berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen **DSC** | Gwyrdd | 95.0% | 97.4% | 10 o blith 22 | 97.1% | 95.0% |
| EDU/002 i) | Pob disgybl sy'n gadael addysg heb gymhwyster allanol cymeradwy **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 0.4% | 0.0% | 1 o blith 22 | 0.15% | 0.3% |
| EDU/002 ii) | Canran y disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sy'n gadael addysg heb gymhwyster allanol cymeradwy **DSC** | Gwyrdd | 10.0% | 0.0% | 1 o blith 22 | 0.0% | 0.0% |
| EDU/003 | Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 (7-11 oed) **MAC** / **DSC** | Oren | 85.5% | 83.1% | 15 o blith 22 | 85.2% | 85.6% |
| EDU/006ii | Canran y disgyblion sydd wedi'u hasesu, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cael Asesiad Athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 **DSC** | Oren | 17.7% | 17.4% | 7 o blith 22 | 11.4% | 17.5% |
| EDU/011 | Sgôr Pwynt Cyfartalog ar gyfer Disgyblion 15 Oed **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 466.6 | 503.86 | 14 o blith 22 | 509 | 495.0 |
| EDU/015 a) | Datganiadau anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos – gan gynnwys eithriadau **DSC** | Gwyrdd | 84.0% | 97.7% | 5 o blith 22 | 84.5% | 90.0% |
| EDU/015 b) | Datganiadau anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos – heb gynnwys eithriadau **DSC** | Gwyrdd | 100.0% | 100.0% | 1 o blith 22 | 100.0% | 100.0% |

## Adolygu Ein Perfformiad: 2012 - 2013

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 13/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg **DSC** | Oren | 56.1% | 56.0% | 6 o blith 22 | 53.7% | 58.7% |
| WMT/004 (b) | Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safle tirlenwi **DSC** / **MAC** | Oren | 42.0% | 43.6% | 16 o blith 22 | 40.0% | 40.0% |
| WMT/009(b) | Y gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol a'i baratoi i gael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu, a'i gompostio **DSC** / **MAC** | Oren | 58.0% | 56.3% | 7 o blith 22 | 54.8% | 60.0% |
| STS/006 | Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon y cafwyd gwybod amdanynt a gafodd eu clirio cyn pen 5 niwrnod gwaith **DSC** | Oren | 97.0% | 96.9% | 10 o blith 22 | 96.3% | 97.0% |
| HHA/013 | Aelwydydd a allai fod wedi cael eu gwneud yn ddigartref lle cafodd hynny ei atal **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 87.0% | 94.1% | Amh.** | Amh.** | 92.0% |
| PSR/002 | Diwrnodiau a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 170 diwrnod | 155.7 diwrnod | 1 o blith 22 | 244 diwrnod | 170 diwrnod |
| PSR/004 | Anheddau gweigion a adferwyd i'w meddiannu **DSC** | Coch | 65 | 41 | 21 o blith 22 | 59 | 75 |
| PLA/006 (b) | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn **DSC** / **MAC** | | Ni osodwyd targed | 28.5% | 15 o blith 22 | 32.5% | Ni osodwyd targed |
| PLA/006* Lleol | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd | 20.0% | 47.4% | Amh. | Amh. | 29.0% |
| LCS/002 | Ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod | Gwyrdd | 8,000 | 8,484.6 | 12 o blith 22 | 8,529 | 8,500 |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 13/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth **DSC** | | | | | | |
| LCL/001 | Ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth **DSC** | Oren | 5,200 | 5,071 | 14 o blith 22 | 5,234 | 5,173 |
| THS/007 | Oedolion 60+ oed a chanddynt docyn mantais bws **DSC** | Oren | 80.0% | 79.5% | 16 o blith 22 | 85.6% | 80.0% |

## 7.7 Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o Berfformiad | Targed 2013/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCA/007 | Canran y cleientiaid a chanddynt gynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi cael eu hadolygu, yr adolygwyd eu cynlluniau gofal yn ystod y flwyddyn **MAC** | Gwyrdd | 90.0% | 95.8% | 2 o blith 22 | 82.6% | 90.0% |
| SCA/018a | Canran gofalwyr oedolion y cynigiwyd asesiad neu adolygiad iddynt o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn **MAC** | Oren | 90.0% | 86.5% | 19 o blith 22 | 94.1% | 90.0% |
| SCA/019 | Canran yr atgyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle cafodd y risg ei rheoli **MAC** / **DSC** | Oren | 100.0% | 97.3% | 11 o blith 22 | 97.2% | 100.0% |
| SCA/020 | Canran y cleientiaid sy'n oedolion a gafodd gefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn **MAC** | | Ni osodwyd targed | 86.1% | 12 o blith 22 | 86.2% | Ni osodwyd targed |
| SCC/001a | Canran lleoliadau cyntaf plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu **MAC** | Gwyrdd | 90.0% | 91.2% | 18 of blith 22 | 99.4% | 90.0% |
| SCC/004 | Sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal **MAC** / **DSC** | Gwyrdd | 10.0% | 6.1% | 5 o blith 22 | 8.7% | 9.5% |
| SCC/011 a) | Asesiadau cychwynnol - Gwelwyd y plentyn | Gwyrdd | 75.0% | 88.2% | 9 o blith 22 | 82.4% | 80.0% |

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o Berfformiad | Targed 2013/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gan Weithiwr Cymdeithasol **MAC** | | | | | | |
| SCC/025 | Ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal **MAC** | Gwyrdd | 90.0% | 90.1% | 9 o blith 22 | 88.2% | 90.0% |
| SCC/030 a) | Gofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd asesiad **MAC** | Gwyrdd | 100.0% | 100.0% | 1 o blith 22 | 100.0% | 100.0% |
| SCC/045 | Canran yr adolygiadau a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol. **MAC** | Gwyrdd | 80.0% | 94.5% | 8 o blith 22 | 93.3% | Ni osodwyd targed |
| EDU/002 i) | Pob disgybl sy'n gadael addysg heb gymhwyster allanol cymeradwy **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 0.4% | 0.0% | 1 o blith 22 | 0.15% | 0.3% |
| EDU/003 | Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 (7-11 oed) **MAC** / **DSC** | Oren | 85.5% | 83.1% | 15 o blith 22 | 85.2% | 85.6% |
| EDU/004 | Asesiadau cyfnod allweddol 3 (11-14 oed) lle cyflawnwyd y dangosydd pynciau craidd **MAC** | Gwyrdd | 69.0% | 78.5% | 10 o blith 22 | 77.9% | 73.6% |
| EDU/011 | Sgôr Pwynt Cyfartalog ar gyfer Disgyblion 15 Oed **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 466.6 | 503.86 | 14 o blith 22 | 509 | 495 |
| EDU/016 a) | Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd **MAC** | Oren | 94.7% | 94.1% | 9 o blith 22 | 93.8% | 94.5% |
| EDU/016 b) | Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd **MAC** | Gwyrdd | 92.9% | 92.9% | 10 o blith 22 | 92.7% | 93.0% |
| WMT/004 (b) | Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safle tirlenwi **DSC** / **MAC** | Oren | 42.0% | 43.6% | 16 o blith 22 | 40.0% | 40.0% |
| WMT/009(b) | Y gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol a'i baratoi i gael ei | Oren | 58.0% | 56.3% | 7 o blith 22 | 54.8% | 60.0% |

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o Berfformiad | Targed 2013/14 | 2013/14 Perfformiad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ailddefnyddio, ei ailgylchu, a'i gompostio **DSC** / **MAC** | | | | | | |
| STS/005b | Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a gafodd ei archwilio, ac yr oedd ei lanweithdra o safon uchel neu dderbyniol **MAC** | Gwyrdd | 96.0% | 99.2% | 7 o blith 22 | 97.8% | 96.0% |
| HHA/013 | Aelwydydd a allai fod wedi cael eu gwneud yn ddigartref lle cafodd hynny ei atal **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 87.0% | 94.1% | Amh.** | Amh.** | 92.0% |
| PSR/002 | Diwrnodiau a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 170 diwrnod | 155.7 diwrnod | 1 o blith 22 | 244 | 170 diwrnod |
| PPN/009 | Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd **MAC** | | Ni osodwyd targed | 94.4% | 2 o blith 22 | 90.7% | Ni osodwyd targed |
| PLA/006 (b) | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn **DSC** / **MAC** | | Ni osodwyd targed | 28.5% | 15 o blith 22 | 32.5% | Ni osodwyd targed |
| PLA/006* (Lleol) | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd | 20.0% | 47.4% | Amh. | Amh. | 29.0% |
| THS/012 | Canran y prif ffyrdd (A), y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a'r ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol **MAC** | | Ni osodwyd targed | 10.7% | 16 o blith 22 | 9.5% | 9.5% |

**Noder:** *Data PLA/006 yw'r dangosydd cenedlaethol gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn lleol i fonitro perfformiad, a hefyd wedi ei gynnwys mae dangosydd newydd PLA/006 (b) sydd wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.
**Noder**:** Ni ddefnyddiwyd Safle yng Nghymru gan i adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn 2013 nodi amrywiaeth eang yn y modd y mae awdurdodau lleol yn dehongli arweiniad ar gyfer dangosydd HHA/013 gan arwain at amrywiad mawr yn y perfformiad a gofnodwyd. Oherwydd yr amrywiadau hyn cynghorwyd na ddylid cymharu'r dangosydd ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

## 8 Dweud eich Dweud

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Cysylltwch â ni:

- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am gynnwys yr Adroddiad Blynyddol;
- Os hoffech argymell amcanion gwella newydd y dylai'r Cyngor eu hystyried;
- Neu os hoffech gopi o Gynllun Corfforaethol 2012 – 2017, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu'r Adroddiad Blynyddol.

| | |
|---|---|
| Ysgrifennwch at | **Y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol**<br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>**Bodlondeb**<br>**Conwy**<br>**LL32 8DU** |
| Rhif Ffôn | 01492 574000 |
| E-bost | HYPERLINK "mailto:cidt@conwy.gov.uk" |
| Gwasanaeth Cyfnewid Testun BT | Gall cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw neu nam ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y mae arnynt ei angen. |

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. http://www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol neu http://www.conwy.gov.uk/atebolrwydd.

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau yn defnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir darparu copïau o'r Adroddiad Blynyddol mewn Braille neu mewn print bras, neu ar gryno ddisg clywedol. Ffoniwch 01492 574000 i drefnu cael copi.

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, mae nifer gyfyngedig o gopïau papur o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

**Llyfrgelloedd y Sir**
**Llyfrgell Deithiol**
**Gwasanaeth i Bobl Sy'n Gaeth i'w Tai**
**Bodlondeb, Conwy**
**Neuadd y Dref, Llandudno**
**Yr Heath, Llanfairfechan**

**Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn**
**Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn**
**Swyddfeydd Bron y Nant, Dinerth Road, Bae Colwyn**
**Swyddfeydd y Cyngor, Mochdre**
**Glasdir, Llanrwst**

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.

## 9 Ymhle Gellir Cael Rhagor o Wybodaeth am eich Cyngor

| | |
|---|---|
| Ar ein gwefan | www.conwy.gov.uk |
| Rhwydweithiau Cymdeithasol | Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook |
| **'Un Conwy' 2012 – 2025** Cynllun integredig Bwrdeistref Sirol Conwy | http://www.conwy.gov.uk/unconwy |
| Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2012 - 2017 ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol | http://www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol |
| Mae'r Uned Data Llywodraeth Leol yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan: | www.lgdu-wales.gov.uk<br>http://www.mylocalcouncil.info/default.aspx?lang=cy-GB<br><br>http://www.conwy.gov.uk/atebolrwydd |
| **Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.** Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: | http://www.wao.gov.uk/cy/ |
| **Mae Estyn yn arolygu pob ysgol gynradd, pob ysgol uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru.** Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: | www.estyn.co.uk |
| Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhyw gymaint o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: | http://aggcc.org.uk/ |